As for the administration of technical colleges generally, governing bodies appointed by local education authorities to assist them administer technical colleges vary from one authority to another in their constitution and in the degree of responsibility delegated to them. The degree of responsibility is usually measured by a governing body's power (a) to spend money within the limits of approved annual estimates without further reference to the authority, and (b) to appoint staff. As for the constitution, some witnesses would give much more control to industrialists, trade unionists and people particularly interested and qualified in technical matters. What the Council is concerned about is that a governing body should consist of the people best qualified irrespective of the interests which they are held to represent. For this reason it would not advocate a fixed proportion of any particular interests and it certainly would not regard it as essential that there should always be a majority of local education authority members on all governing bodies. It should, however, be remembered that ultimate authority lies and should lie with the local education authority.

Summary of Observations and Recommendations

Craft Apprentices

(1) Recruitment to craft apprenticeships tends to be haphazard and to be related to current needs rather than long-term requirements of industry. (*Page* 44.)

(2) There is need to relax the restriction imposed by the Trade Unions on the maximum number of craft apprentices recruited to a given trade. More regard should be paid to overall national quotas. (*Page* 45.)

(3) Many firms in Wales, unable to provide adequate training, do not recruit craft apprentices. With Group Apprenticeship Schemes, as in certain parts of England, a number of these firms would do so. (*Page* 45.)

(4) Despite the strength of family tradition in a craft, blood relationship should not be regarded as a substitute for personal and educational qualifications in recruiting apprentices. (*Page* 45.)

(5) Pupils who remain at school beyond the age of 16 should not be denied the opportunity of obtaining a craft apprenticeship. (*Page* 46.)

(6) The present provision in some technical colleges for pre-vocational training for '15 +' pupils could with advantage be extended to some secondary modern schools, given qualified staff and suitable equipment. (*Page* 46.)

(7) Employers are urged to grant apprentices release with pay to attend technical college courses throughout the period of their apprenticeships, subject to satisfactory progress being made. (*Page* 47.)

(8) Whenever possible block-release courses are preferable to day-release courses. (*Page* 46.)

(9) A distinction should be drawn between the training of the craft apprentice in certain skills and his education which should be designed to make him readily adaptable to master new skills that may later be introduced. (*Page* 43.)

(10) The Preliminary National Certificate and the present first-year stage (S.1) of the National Certificate Course should be abolished, and entry to the course be at what is the present second-year (S.2) stage. The normal entry qualification should be a pass in four appropriate subjects at the General Certificate of Education Ordinary level, these having been gained at not more than two attempts. (*Page*. 47)

(11) Local education authorities, governing bodies and principals of technical colleges should do all in their power to provide short-term courses in teaching methods and to encourage the attendance at such courses of both part-time and full-time teachers at technical colleges who have not pursued teachers' training courses. (*Page* 48.)

(12) Much of the apathetic attitude shown by some students to their studies and which often leads to failure on courses could be eliminated by regular supervision and encouragement of the students in their studies by parents, industry and technical college authorities. (*Page* 49.)

(13). The recent introduction by the City and Guilds of London Institute of additional examinations which demand a lower academic standard and a more practical approach in some craft subjects is welcomed as one means of reducing wastage on craft courses. (*Page* 50.)

(14) The responsibility of recruiting and training craft apprentices is considered a national one, and the establishment of a national craft apprenticeship system is recommended. (*Page* 51.)

(15) An alternative suggestion, if the above is unacceptable, is to reduce the five-year craft industrial apprenticeship to three years, provided that the apprentice recruited by industry at 17-18 years of age has pursued a special two years full-time course in basic subjects. (*Page* 52.)

(16) It is hoped that both industry and the University of Wales will continue to encourage those students who possess appropriate National Certificate qualifications in lieu of normal matriculation requirements to pursue degree courses, particularly in view of the successes gained at the University by some of these students in recent years. (*Page* 22.)

Advanced Courses

(17) Advanced sandwich diploma and university degree courses should become the accepted routes to the status of technologist. (*Page* 54.)

(18) It is to be hoped that the apparent lack of interest in advanced sandwich courses is only temporary, and that all concerned will do all they can to ensure that those capable of benefiting from such courses are encouraged in every possible way to attend. (*Page* 54.)

(19) The lack of support for sandwich courses in chemistry or industrial chemistry in South Wales, where there is a concentration of a variety of chemical industries, is a matter for serious concern. In particular, if the chemical industry did more to encourage the education and training of National Certificate students who show promise, they would need to recruit fewer graduates from universities, and thus indirectly relieve the shortage of graduate science teachers in schools. (*Page* 54.)

Welsh College of Advanced Technology

(20) The lack of support for advanced sandwich courses in science and technology at the College to date creates doubts as to whether the existence of a college of this status in Wales can be justified. Greater cooperation with industry and other technical colleges is needed to ensure better support. (*Page* 55.)

(21) A close association between the College and the University of Wales would enhance the status of technical education in Wales, and is a matter that should be closely examined. (*Page* 56.)

Regionalisation of Advanced Courses

(22) The overall provision in Wales for advanced courses greatly outruns the present demand. To avoid wasteful and inefficient duplication, these courses, for which highly qualified staff and expensive equipment are needed, should be confined to five technical colleges, and these colleges administered by an Administrative Council. (*Page* 57.)

(23) Immediate steps should be taken to resuscitate the Welsh Board of Technology which was formed in 1946 but ceased to function in 1948. (*Page* 58.)

Governing Bodies of Technical Colleges

(24) Governing bodies should consist of the people best qualified for the purpose; therefore, no fixed proportion of any particular interests should be stated and neither should it be regarded essential to have a majority of local education authority members on all governing bodies. (*Page* 58.)

General

(25) The shortage of suitably qualified teachers of science and mathematics in girls' schools restricts the number of girls who study these subjects beyond the elementary stage, and so denies industry the services of many young women who might well qualify as technicians or technologists were they given the opportunity and encouragement to do so. Until more teachers of these subjects become available the possibility of making arrangements between some neighbouring boys' and girls' grammar schools to combine classes at sixth form level should be seriously considered. (*Page* 32.)

(26) Although the introduction of new industries to Wales in the post-war years has done much to strengthen the country's economy, an extension of this diversification to include industries which employ a high proportion of skilled labour is advocated on social as well as economic grounds. (*Page* 32.)

Y WEINYDDIAETH ADDYSG
Y CYNGOR CANOL AR ADDYSG (CYMRU)

Addysg Dechnegol Yng Nghymru

LLUNDAIN
GWASG EI MAWRHYDI
1961

AELODAU'R CYNGOR

*Mr. A. B. Oldfield-Davies, C.B.E. (*Cadeirydd*)

*Y Prifathro G. P. Ambrose
Miss Gwennant Davies
Y Fonesig Twiston Davies
*Dr. G. W. Evans
*Yr Athro C. E. Gittins
Yr Henadur W. Douglas Hughes
Miss A. Whittington-Hughes
Mr. E. O. Humphreys
*Yr Athro D. W. T. Jenkins
Yr Athro J. R. Jones
*Mr. R. G. Mathias
Y Fonesig Hopkin Morris
*Mr. A. J. Nicholas, C.B.E.
Mr. A. D. Rees
*Yr Henadur Mrs. D. M. Rees
Yr Athro E. J. Roberts
*Y Cynghorwr Mrs. G. I. Williams
*Dr. Gordon Williams

Aelodau a gyfetholwyd ar y Panel Technegol

Mr. R. C. Mathias
Mr. Watcyn V. Williams

Ysgrifenyddion

Mr. E. O. Davies, H.M.I.
Dr. W. J. Thomas, H.M.I.

* Aelodau'r Panel Addysg Dechnegol

Bu farw'r Fonesig Twiston Davies, y Fonesig Hopkin Morris a Mr. E. O. Humphreys, tra'r oedd y Cyngor wrthi yn paratoi'r Adroddiad hwn.

MAES YR YMCHWIL

I ystyried pa ddarpariaeth addysg y dylid ei chynnig er budd diwydiant a'r rhai sy'n llafurio ynddo yn wyneb y newid cyfoes ym mhatrwm diwydiannol Cymru.

Rhagair

Gan y Gweinidog Addysg

Y Gwir Anrhydeddus Syr David Eccles, K.C.V.O., A.S.

Caf fod yr Adroddiad hwn yn Adroddiad amserol a diddorol. Gobeithio y bydd i addysgwyr a diwydianwyr Cymru ei gael felly hefyd.

Fe ddylai'r Adroddiad fod yn gymorth i'r colegau a diwydiant ddeall ei gilydd a chydweithio. Bydd hyn o fudd i ieuenctid Cymru a'r wlad yn gyffredinol.

At Y Gwir Anrhydeddus Syr David Eccles, K.C.V.O., A.S.
Y Gweinidog Addysg

Syr,

Gwahoddasoch y Cyngor i ymgymryd â thrafod y darpariaethau addysg gorau ar gyfer gofynion diwydiant yng Nghymru a'r rhai sy'n llafurio ynddo.

Y mae'n bleser gennyf gyflwyno ei Adroddiad ar y mater hwn.

(*Arwyddwyd*) ALUN OLDFIELD-DAVIES (*Cadeirydd*).

Cynnwys

Tud.

Enwau Aelodau'r Cyngor Canol ar Addysg (Cymru) a Maes yr Ymchwil . 62
Rhagair . 63
Llythyr o Gyflwyniad i'r Gwir Anrhydeddus Syr David Eccles, K.C.V.O., A.S., Y Gweinidog Addysg . 64

Rhagarweiniol . 67

Pennod I. Trem Yn Ol . 68
- Cychwyniad a thyfiant Sefydliadau a Cholegau Technegol . 72
- Sefydlu Cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a'r Ddiploma Genedlaethol . 72
- Y Cyrsiau Rhyngosod Cyntaf . 74
- Cyd-bwyllgor Ymgynghorol De Cymru a Mynwy ar Addysg mewn Mwyngloddio . 74
- Y Cyngor Ymgynghorol ar Addysg Dechnegol yn Ne Cymru a Mynwy . 75
- Y Cyngor Ymgynghorol ar Addysg Dechnegol yng Ngogledd Cymru . 75
- Bwrdd Academaidd Cymru mewn Technoleg . 75
- Y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig . 76
- Tyfiant Colegau Technegol ar ôl y Rhyfel . 76
- Y Cynnydd yn Nifer yr Athrawon mewn Sefydliadau Addysg Bellach wedi'r Rhyfel . 76
- Y Cynnydd yng Ngwaith Sefydliadau Addysg Bellach wedi'r Rhyfel . 77
- Cyrsiau Rhyddhad Dydd . 78
- Cyrsiau Rhyngosod . 78
- Cyrsiau Rhyddhad Cryno . 78
- Cyrsiau Amser-Llawn Cyn-brentisiaeth . 78
- Cyrsiau Helaethach mewn Ysgolion Uwchradd . 79
- Datblygiad Cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a'r Ddiploma Genedlaethol wedi'r Rhyfel . 79
- Ystadegau ynglŷn â Chyrsiau Adeiladu, Peirianneg a Mwyngloddio . 80
- Ysgoloriaethau Technegol y Wladwriaeth . 81
- Graddio'r Colegau Technegol . 82
- Coleg Technoleg Uwch Cymru . 83
- Llanw'r Cyrsiau Rhyngosod Uwch . 83
- Y Cynnydd yn Narpariaeth y Prifysgolion . 84

Tud.

- Prifysgol Cymru . . . 84
- Ystadegau ynglŷn â Chyrsiau Colegau Prifysgol Cymru mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Gymhwysol . . . 85
- Gwragedd a Merched yn Dilyn Cyrsiau Colegau Technegol. 87
- Addysg mewn Pynciau Masnach . . . 87
- Ysgolion Technegol Iau ac Uwchradd . . . 88

Pennod II. **Y Cefndir Diwydiannol** . . . 89

- Datblygiadau Cynnar Diwydiant Haearn, Platiau Alcam a Glo 89
- Y Dirwasgiad Diwydiannol . . . 90
- Deddf Ardaloedd Arbennig . . . 90
- Adferiad Cyfnod y Rhyfel . . . 91
- Datblygiadau wedi'r Rhyfel dan nawdd y Ddeddf Dosbarthu Diwydiant . . . 91
- Datblygiadau wedi'r Rhyfel yn y Diwydiant Glo . . . 92
- Cynhyrchu Dur a Phlatiau Alcam wedi'r Rhyfel . . . 92
- Alwminiwm ac Aloeon Ysgafn . . . 93
- Peirianneg . . . 93
- Diwydiannau Cemegol a'u Tebyg . . . 93
- Y Diwydiant Defnydd Gwau . . . 93
- Y Newid yn ystod yr Ugain Mlynedd Ddiwethaf . . . 94
- Rhan Gwragedd mewn Diwydiant . . . 94
- Yr Angen am fwy o Amrywiaeth . . . 95

Pennod III. **Patrwm Addysg Dechnegol Heddiw** . . . 96

- Prentisiaid Crefft . . . 97
  - Derbyniad . . . 97
  - Hyfforddiant . . . 99
  - Y Meysydd Llafur . . . 100
- Prentisiaid Heb Raddio . . . 102
  - Derbyniad . . . 102
  - Hyfforddiant a Chyrsiau . . . 103
- Prentisiaid Graddedig . . . 105

Pennod IV. **Sylwadau Ac Argymhellion** . . . 105

- Prentisiaid Crefft . . . 107
  - Derbyniad . . . 107
  - Hyfforddiant . . . 108
  - Y Meysydd Llafur . . . 109
  - Agwedd Newydd at Brentisiaeth Crefft . . . 112
- Cyrsiau Uwch . . . 115
- Darpariaeth Ychwanegol mewn Colegau Technegol . . . 115
- Ymateb Siomedig Cymru i Gyrsiau Rhyngosod Uwch . . . 115
- Coleg Technoleg Uwch Cymru a Phrifysgol Cymru . . . 116
- Rhanbartholi Cyrsiau Uwch . . . 118

Crynodeb o Sylwadau Ac Argymhellion . . . 119

Atodiadau 122

Rhagarweiniol

Yn yr Adroddiad hwn sy'n ffrwyth ymholiad Panel Addysg Dechnegol Y Cyngor Canol ar Addysg (Cymru), arolygir y ddarpariaeth addysg dechnegol yng Nghymru. Amcanwyd at osodiad ffeithiol ar sail data a restrir mewn tablau yng nghorff yr adroddiad ac mewn atodiadau. Y mae'r bennod gyntaf yn cychwyn gydag arolwg hanesyddol byr a roddwyd i'r Cyngor gan Mr. Gray Jones o Goleg Hyfforddi Caerllion-ar-Wysg a Dr. Roger Webster o Goleg y Brifysgol, Abertawe. Y mae hwn yn pwysleisio bod Cymru wedi bod ar ôl mewn darpariaeth addysg dechnegol o gymharu â Lloegr a bod Prydain Fawr yn gyffredinol wedi bod ar ôl o'i chymharu â llawer gwlad ddiwydiannol arall. Y mae'r amlinelliad byr o batrwm diwydiannol Cymru yn canolbwyntio ar y newid trawiadol a fu yn ein hoes ni. Mae'r newid hwn yn gofyn am addysg dechnegol gyda mwy o amrywiaeth a mwy o ddyfnder ar bob lefel. Sylwir ar y gwahanol lefelau yn ofalus ym Mhennod III, a cheir ym Mhennod IV sylwadau'r Cyngor ar y ddarpariaeth bresennol ynghyd â rhai awgrymiadau go bell-gyrhaeddol.

Nid yw'r Adroddiad yn ei grynswth wedi ei baratoi ar gyfer y darllenydd cyffredin yn gymaint ag ar gyfer y rheini mewn diwydiant, ysgolion, colegau a gweinyddiaeth addysg sydd â chanddynt ofal addysg dechnegol yng Nghymru ac awydd i greu trefn addas i ateb gofynion yr ifanc mewn cyfundrefn fasnachol a diwydiannol sy'n newid ac yn mynd yn fwy-fwy cymhleth o hyd.

Gwyddai'r Cyngor fod y Cyngor Canol ar Addysg (Lloegr) yn ymholi yr un pryd i ofynion addysg rhai rhwng pymtheg a deunaw* oed a bod eu maes hwy, felly, yn cydredeg i raddau â'n maes ninnau yng Nghymru. Ond ni bu cyfathrach rhyngom ac awn ni ymhellach na Chyngor Lloegr trwy awgrymu y dylai hyfforddiant prentisiaid symud fwy-fwy dros amser i faes cyfrifoldeb awdurdodau addysg yn hytrach na pharhau fel y mae yn awr yn gyfrifoldeb diwydiant a sefydliadau proffesiynol. Er i ni ddeall yn iawn na ellir derbyn newid mor fawr yng Nghymru yn unig heb godi'r cwestiwn dros Brydain i gyd, eto credwn fod gofynion Cymru dros hir amser yn hawlio ateb o'r math hwn.

Bu'r Cyngor yn hwy wrth y gwaith nag a ddisgwylid ar y dechrau gan iddo dderbyn dau gyfeiriad oddi wrth y Gweinidog a cheisio trafod y maes hwn pan oedd yn dal i ymholi i addysg cefn gwlad ar gyfer yr adroddiad a gyflwynwyd y llynedd. Dyma hefyd paham nad oes sôn am agweddau amaethyddol addysg dechnegol yma. Aeth peth amser hefyd i drefnu a pharatoi'r ffurf Gymraeg ar yr Adroddiad, ac yr ydym yn ddyledus am hyn yn bennaf i Dr. Gareth Evans, un o aelodau'r Cyngor. Cynorthwywyd ef yn y gwaith gan Mr. Ellis Evans, M.A., o Goleg y Brifysgol, Abertawe.

Diolchwn i bawb a ganiataodd i ni fanteisio ar eu barn a'u gwybodaeth mewn sgwrs neu trwy lythyr. Cawsom gymorth parod diwydianwyr, aelodau awdurdodau addysg lleol, ac athrawon mewn sefydliadau technegol, mewn ysgolion ac yn y Brifysgol. Yr ydym yn hynod ddiolchgar i'r Dr. W. J. Thomas, H.M.I., sydd wedi crynhoi a dethol ffeithiau ac wedi llunio'r adroddiad hwn, i Mr. Eryl O. Davies, H.M.I., am drefnu a chadw cofnodion o'n cyfarfodydd, ac i'r Dr. Matthew Williams, H.M.I., am ateb pob ymholiad o'r eiddom o'i wybodaeth fanwl a'i adnabyddiaeth o'r maes.

---

*15 *to* 18, *Report of the Central Advisory Council for Education (England)*. Gwasg ei Mawrhydi, 1959.

PENNOD I

Trem Yn Ôl

O 1750 i 1920, Prydain oedd yn arwain holl wledydd y byd mewn diwydiant a gwaith cynhyrchu. Eto er hyn, ni bu amgyffred teilwng o bwysigrwydd addysg dechnegol hyd gynffon y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod yng Nghymru ddiwydiannau trymion, glo a llechi, haearn a metalau eraill a diwydiant brethyn bychan traddodiadol, gosodid llai fyth o bwys ar addysg dechnegol yma. Nid oedd yng Nghymru ganolfannau mawrion megis Leeds, Manceinion, Birmingham a Glasgow. Yn y rhain, ac yn ardaloedd y brethyn a chotwm, y diwydiannau cemegol a pheirianyddol, ac yn Llundain, y tyfodd y godyn am hyfforddiant technegol. Cychwynnwyd dosbarthiadau peirianneg yn Glasgow mor gynnar ag 1840 ac yn Ngholeg y Brifysgol, Llundain yn 1841. Yng Nghymru nid oedd gofyn am fedr technegol ond gan ychydig gemegwyr, mesurwyr pyllau ac arolygwyr peiriannyddol. I'r rhelyw yr oedd hyfforddiant yn y prosesau syml yn ddigonol ac am hir nid oedd eisiau mwy na'r ddawn i drafod gweithwyr hyd yn oed gan y goruchwylwyr a'r trefnwyr.

Dulliau sefydlog anystwyth a lywiai uchel-gynghorau'r gweithiau haearn a'r pyllau glo. Hyfforddwyd eu peirianwyr fel arfer trwy eu gosod yn ddisgyblion dros dro mewn swyddfa gwaith peiriannwr ac yna eu danfon cyn gynted ag yr oedd modd, i loffa profiad o ddydd i ddydd yn y gwaith.* Nid oedd trefniant felly yn esgor ar ddisgyblaeth wyddonol a thechnegol. Rhaid oedd danfon yr ychydig gemegwyr a goruchwylwyr y gweddai'r ddisgyblaeth uwch iddynt i'r Ysgol Fwyngloddio Frenhinol yn Llundain neu i ryw ganolfan tramor.

Er i lawer Sefydliad y Mecanegwyr weld golau dydd yng Nghymru rhwng 1824 a 1850, camgymeriad fyddai tybio iddynt gyfrannu hyfforddiant technegol yn helaeth i'r werin. Ychydig oeddynt yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr. Gwyddys fod oddeutu ugain ar gael yn 1851 gyda phedair yn y gogledd, a rhai mewn trefi amaethyddol fel Aberhonddu a Dinbych. Eu pwrpas ar y cyntaf oedd cyflwyno gwybodaeth wyddonol i grefftwyr ond anodd oedd hyn am fod y ddarpariaeth ar gyfer addysg elfennol yn annigonol ddigon yn y cyfnod hwn. Erbyn 1850, y dosbarth canol a'u mynychai ac o ganlyniad symudasant yn fwy-fwy i gyfeiriad adloniant a darlithiau poblogaidd.

Er gwaethaf holl brinder addysg dechnegol ym Mhrydain, a barnu yn ôl safonau y mwyafrif o wledydd y cyfandir, eto yr oedd Arddangosfa Fawr Llundain yn 1851 yn dipyn o glod i ddiwydiant Prydain, canys gwelwyd fod mwyafrif yr arddangosion Prydeinig yn rhagori cryn dipyn ar y rhai tramor. Ond yr oedd rhyw anesmwythyd yn y gwynt gan i rai ddechrau credu y byddai Prydain cyn hir yn sodli'r gwledydd tramor hynny a oedd wedi meithrin addysg dechnegol. Tyfodd gofyn am hyfforddiant technegol i weithwyr; sefydlwyd Adran Gwyddoniaeth a Chelfyddyd De Kensington yn 1853. Gydag amser daeth yr Adran hon yn dra phwysig gan roi grantiau a chynnal arholiadau, a hynny i bob rhyw fath o sefydliad, i ysgolion uwchradd ac elfennol, ysgolion gwyddoniaeth, ysgolion crefft, ysgolion gramadeg, dosbarthiadau nos, sefydliadau'r mecanegwyr, canolfannau disgyblathrawon, a sefydliadau technegol.

---

* Felly yr hyfforddwyd Syr W. T. Lewis (yr Arglwydd Merthyr cyntaf) yn swyddfa W. S. Clark, peiriannwr a chynrychiolydd mwyn-gloddio ystâd Bute.

Gyda grantiau De Kensington yn sbardun, cynhaliwyd dosbarthiadau mewn llawer tref Gymreig ond at waith llyfr yn unig yr anelwyd ac anaml y gwelid unrhyw offer. Mynychodd llawer y dosbarthiadau yn unig er mwyn derbyn tystysgrif a agorai'r llwybr iddynt hwy eu hunain gynnal dosbarthiadau tebyg ac ennill arian trwy hynny. Yr oedd diffyg offer hefyd yn nodweddi'r ysgolion elfennol ac uwchradd a agorwyd gan y Byrddau Ysgol yn ôl Deddf Addysg Elfennol 1870. Yr oedd Bwrdd Ysgol Abertawe ar y blaen yn wir yn 1890 pan benododd 'arddangoswr teithiol, galluog a phrofiadol. Dygwyd ei offer o amglych ysgolion y Bwrdd mewn berfa a tho iddi.'

Felly nid rhyfedd mai ychydig ddylanwad ymarferol effeithiol a gafodd Adran De Kensington. Erbyn Arddangosfa Paris in 1867, yr oedd Prydain yn amlwg ar ôl ym mhob adran ymron. Cyfaddefwyd fod rhagoriaeth yr arddangosion tramor ynghlwm wrth ragoriaeth trefn addysg dechnegol a gwyddonol Ewrob ac Unol Daleithiau America.

Brathodd hyn yn ddwfn. Arweiniodd yn union i benodi Comisiwn Devonshire (1870-75). Gwnaeth y Comisiwn arolwg o drefn y dydd mewn hyfforddiant technegol a lledaenodd wybodaeth am ddatblygiadau tramor. Yn sgil y diddordeb newydd hwn, bu gwelliant yn Lloegr. O 1879 ymlaen sefydlodd y *City and Guilds of London Institute* gyfundrefn o arholiadau safonol mewn pynciau crefft a thechneg ac yn 1883 sefydlodd y coleg technegol modern cyntaf yn Finsbury. Yn y flwyddyn hon yr oedd ar gael ysgolion technegol da yn Bradford, Huddersfield a Manceinion. Ysbrydolodd Quintin Hogg sefydlu'r Polytechnic cyntaf yn Regent Street, Llundain. Hefyd yr oedd bellach feistri gwaith llygad-agored fel Mather a Platt a fu'n cynnal eu hysgol dechnegol eu hunain o 1873 i 1903 ac fel Cwmni Brunner Mond a fu'n cefnogi hyfforddiant technegol i'w gweithwyr er 1884. Erbyn hyn yr oedd yr Ysgol Fwyngloddio Frenhinol yn Llundain yn hyfforddi tua 40 o fyfyrwyr y flwyddyn ac yr oedd cyrsiau mewn technoleg gemegol wedi gwreiddio'n gadarn ym Manceinion ac yng Ngholeg y Brifysgol Llundain.

Ychydig ddigon oedd hyn o'i gymharu ag Ysgolion Technegol Uwch llwyddiannus a'r llawer Polytechnic fawr yn Ffrainc, a'r Almaen a'r Swistir. Ond yn ymyl y ddarpariaeth yng Nghymru yr oedd yn llifeiriant. Yng Nghymru nid oedd dim i'w ddangos erbyn 1889 ond llond dwrn o Sefydliadau'r Mecanegwyr, ychydig weithgarwch yn y dosbarthiadau mewn Gwyddoniaeth a Chelfyddyd a rhyw dipyn o weithio yng Nghaerdydd ar gyfer arholiadau'r *City and Guilds*. Ond nid oedd unrhyw addysg dechnegol werth yr enw.

Mae'r dystiolaeth eang a osodwyd gerbron Comisiwn Devonshire yn cadarnhau'r dyfarniad llym hwn. Yn 1871, anfonodd y Comisiynwyr am wybodaeth parthed dysgu gwyddoniaeth mewn tair ysgol waddoledig yng Nghymru sef ym Miwmaris, ac Aberhonddu a Threfynwy. Cawsant ar ddeall nad oedd labordy yn un ohonynt nac ychwaith drefn o hyfforddiant cyson mewn gwyddoniaeth o gwbl.

Yn 1872 tystiodd yr Athro Warrington Smyth o'r Ysgol Fwyngloddio Frenhinol na chynhelid dosbarthiadau mwyngloddio o gwbl yng Nghymru er bod rhai yng Nghernyw ac yn Northumberland. Barnai ef fod cymoedd De Cymru gyda'u mynych ganghennau a'u poblogaeth wasgaredig, yn gwneud trefnu'r fath ddosbarthiadau yn orchwyl anodd. Nid oedd ysgol fwyngloddio na metaleg yn Abertawe; aethai rhai o ddisgyblion De Cymru yr holl ffordd i Ysgol Fwyngloddio Bryste. Yr oedd perchnogion gweithiau toddi metel (copr a sinc) yn dod o hyd i'w rheolwyr ar y cyfandir. Bu raid i Vivian, cawr o ddiwydiannwr o Abertawe, geisio derbyn dynion a hyfforddwyd yn Freiburg yn yr Almaen am nad oedd hyfforddiant digonol yn bod yn Lloegr. Erbyn 1890 yr oedd rhai ar gael o'r Ysgol Fwyngloddio Frenhinol a bu rhyw ddwsin ohonynt yn gweithio fel rheolwyr a chemegwyr yng Nghymru (yng Nglandŵr, Blaenafon, Dowlais, Blaenau, Fflint ac Abertawe). Ni chymerai perchnogion y glofeydd fel arfer unrhyw ddiddordeb o gwbl mewn addysg dechnegol bwrpasol i'r glofeydd, ac ni ddaeth unrhyw gymorth oddi wrthynt hwy.

Barnodd Lionel Brough, Arolygwr Pyllau ei Mawrhydi, ac un arall a dystiodd gerbron Comisiwn Devonshire, y gellid agor ysgol fwyngloddio ym Merthyr ar gyfer poblogaeth o gan mil. Yr oedd hyn wedi ei awgrymu lawer tro ond ni ddigwyddodd dim. Byddai'r arian a gollwyd trwy ddamweiniau wedi bod yn ddigon i glirio'r gost, heb sôn am y bywydau a gollwyd. Yr oedd y pyllau newydd dyfnach yn codi problemau arbennig o awyru a datblygu a hawliai wybodaeth dechnegol nas ceid hyth drwy gyfnod o brentisiaeth mewn swyddfa gwaith peiriannwr.

Dywedodd trydydd tyst fod Ysgol Fwyngloddio Bryste eisoes wedi gorfod cau oherwydd diffyg cefnogaeth perchnogion y glofeydd ond bod gwaith yr ysgol yn mynd yn ei flaen mewn dosbarth mwyngloddio yn ei ysgol ef sef y *Bristol Trade School.* Yr oedd llawer o'r disgyblion yno o Dde Cymru. Yr oedd ef ei hun newydd fod yn cymeradwyo sefydlu ysgol fwyngloddio yn Ne Cymru mewn papur a ddarllenodd gerbron y *South Wales Institute of Mining Engineers* gyda Syr W. T. Lewis yn y gadair. Croesawyd yr awgrym ond mewn gwirionedd nid agorwyd yr Ysgol Fwyngloddio gyntaf yng Nghymru yn Nhrefforest tan 1910, bron ddeugain mlynedd yn ddiweddarach.

Yn wyneb hyn oll, nid rhyfedd nad oes gyfeiriad at addysg dechnegol yng Nghymru yn adroddiadau cynhwysfawr Comisiwn Brenhinol arall ar Hyfforddiant Technegol yn 1884. Rhaid fuasai i welliant yng Nghymru ddilyn datblygiad mewn addysg uwchradd a oedd yn dal i fod ar ôl. Amhosibl fuasai trefnu addysg uwchradd neu addysg dechnegol ar raddfa genedlaethol cyn creu yn gyntaf gyfundrefn o awdurdodau lleol. O'r diwedd sefydlwyd y Cynghorau Sir a'r Cynghorau Bwrdeisdrefi Sir yn 1888 ac yn dilyn yn 1889 daeth Deddf Hyfforddiant Technegol a Deddf Addysg Dechnegol Ganolradd Cymru. Rhoddodd y ddeddf gyntaf i'r Cynghorau newydd mewn Sir a Bwrdeisdref, awdurdod i godi treth er mwyn datblygu addysg dechnegol. Sicrhaodd yr ail ddeddf gyfundrefn genedlaethol o ysgolion uwchradd gyda maes llafur a fwriadai gyfuno addysg draddodiadol ysgolion gramadeg ar y naill law ac addysg dechnegol a gwyddonol fodern ar y llaw arall. A chan gredu y byddai'r cyfuniad yn effeithiol, neilltuodd y Cynghorau Cymreig elw treth y ddeddf gyntaf ar gyfer yr ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, yn ymarferol, er i ddysgu gwyddoniaeth a gwaith coed gael sylw mewn rhai ysgolion uwchradd, ni bu nemor ddim addysg dechnegol. Yr oedd mwy fri ar addysg draddodiadol academiadd ac i raddau yr oedd hefyd ddiffyg cyflenwad o athrawon cymwys mewn techneg. Felly, yn ymarferol, tagwyd datblygiad addysg dechnegol.

Pen-conglfaen adeiladu y gyfundrefn addysg genedlaethol hon oedd sefydlu Prifysgol Cymru yn 1893. Gallai myfyriwr galluog, a bwrw ei fod yn dod o hyd i adnoddau ariannol, symud o ysgol elfennol i ysgol ganolradd ac yna i brifysgol. Ond gyrfa i fyfyriwr academaidd ei osgo oedd hon yn hytrach na llwybr i'r person â'i fryd ar addysg dechnegol. Ceisiodd Viriamu Jones, F.R.S., Prifathro cyntaf Coleg Caerdydd, yn galed addasu'r cyfle newydd i ateb gofynion addysg dechnegol. Credai'n gryf mewn addysg wyddonol mewn ysgolion Uwchradd; O Goleg Firth, Sheffield, y daeth ohono i Gaerdydd yn 1883, rhoddodd dystiolaeth gerbron y Comisiwn Brenhinol ar Hyfforddiant Technegol gan bwyso ar frys am ddatblygu addysg dechnegol mewn cysylltiad agos â'r colegau prifathrofaol newydd. Naturiol, felly, oedd i gynghorau'r siroedd â'r bwrdeisdrefi droi ato ef am gyfarwyddyd. Ei gyngor ef a lywiodd ddatblygiad addysg dechnegol am yr ugain mlynedd nesaf ac a bwysleisiodd yn barhaus y berthynas â'r brifysgol.

Yn 1886 yr oedd ef eisoes wedi peri danfon dirprwyaeth o'r Coleg yng Nghaerdydd at Arglwydd Lywydd y Cyngor i bwyso am Gadair Peirianneg. Methodd y cais ond cynigiwyd yr arian ar ei chyfer gan Gwmni'r Brethynwyr yn 1890. Dyma'r cam sicr cyntaf tuag at addysg dechnegol uwch yng Nghymru.

Dan gyfarwyddyd Deddf 1889, ffurfiodd Cyngor Bwrdeisdref Caerdydd Bwyllgor i fod yn gyfrifol am ddosbarthiadau gwyddoniaeth a chelfyddyd, dosbarthiadau y bu Pwyllgor y Llyfrgelloedd yn gyfrifol amdanynt tan hynny. Cychwynnwyd y dosbarthiadau yn 1866 a chynhaliwyd hwy yn y Llyfrgell Gyhoeddus er 1882. Gelwid y pwyllgor newydd yn Bwyllgor Hyfforddiant Technegol. Ei gam cyntaf oedd holi am delerau'r Coleg am dderbyn y cyfrifoldeb o lywio ac anheddu'r ysgolion technegol a'r dosbarthiadau a nodwyd uchod. Canys cyngor y Prifathro cyn hyn fu mai'r Coleg a ddylai gynnig addysg dechnegol yn hytrach na sefydliad newydd-sbon.

Cytunwyd i gadw dosbarthiadau nos o fewn muriau'r Coleg ac y byddai Prifathro a Chofrestrydd y Coleg yn gweithredu hefyd fel Prifathro ac Ysgrifennydd yr Ysgol Dechnegol. Dyna'r drefn hyd 1907, blwyddyn penodiad Goruchwyliwr Hyfforddiant Technegol gan Awdurdod Addysg Lleol Caerdydd. Erbyn hyn cynhelid y dosbarthiadau nos yn *Dumfries Place* ac o'r diwedd, yn 1916, adeiladwyd y Coleg Technegol.

Aeth Cynghorau Morgannwg, Mynwy a Chaerfyrddin hwythau yn eu tro at Viriamu Jones am gyfarwyddyd. Yn unol â'i gyngor, penodasant am yr ugain mlynedd nesaf, hyfforddwyr teithiol i gynnal dosbarthiadau nos a gwaddolasant efrydiaethau technegol yn y Coleg. Yr oedd y Prifathro o hyd â'i fryd ar sefydlu Ysgol Fwyngloddio ac Adran Fetaleg yn y Coleg.

Yn Abertawe trefnwyd cadw'r dosbarthiadau nos yn yr ysgol ramadeg o dan reolaeth y prifathro yn 1896. Felly y bu tan 1907 pryd y codwyd adeilad technegol newydd i gynnal dosbarthiadau dydd yn ogystal â rhai nos.

Coleg technegol cyntaf awdurdod addysg lleol Cymreig oedd Coleg Technegol Casnewydd, lle'r unwyd dosbarthiadau Gwyddonol a Thechnegol a'r dosbarthiadau yn y Celfeddydau o dan yr un tô yn 1910.

Felly erbyn diwedd y ganrif yr oedd dosbarthiadau nos, dan ofal hyfforddwyr rhan amser neu deithiol, wedi eu sefydlu yn gyffredinol yn ardaloedd diwydiannol y De. Yr oedd Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, trwy ddarpariaeth mewn ffiseg, cemeg a pheirianneg, yn ateb galwadau'r myfyrwyr mwyaf aeddfed a allai ennill efrydiaethau technegol. Yr oedd hefyd yn tyfu ysgolion uwchradd a roddai sylw digonol i wyddoniaeth, er eu bod yn academaidd eu hosgo yn y bôn.

Y gwendidau pennaf oedd diffyg cyrsiau cyfunedig, y dosbarth nos fel yr unig gyfrwng, y prinder athrawon technegol wedi eu hyfforddi i'r gwaith, a'r methiant llwyr i godi adeiladau modern addas. Nid oedd gobaith symud y rhwystrau hyn heb ail wampio trefn weinyddol addysg. Gwnaethpwyd hyn drwy ffurfio'r Bwrdd Addysg yn 1899, a'r awdurdodau addysg lleol yn 1902. Pwrpas y cyntaf oedd cyfnerthu gweinyddu addysg genedlaethol drwy beri i'r Bwrdd gymryd at waith yr Adran Gwyddoniaeth a Chelfyddyd a gwaith y *Charity Commissioners* i'r graddau yr oedd a fynnont ag addysg. Pwrpas yr ail oedd rhoi undod a chyfanrwydd i weinyddiad lleol addysg dros yr holl wlad. O hyn allan bu'r wybren yn fwy clir.

Cychwyniad a Thyfiant Sefydliadau a Cholegau Technegol

Fel y gwelwyd eisoes agorwyd sefydliadau technegol yng Nghasnewydd, yn Abertawe ac yng Nghaerdydd rhwng 1910 a 1916, a sefydlodd Cymdeithas Perchnogion Pyllau Glo De Cymru ysgolion mwyngloddio yng Nghrymlyn ac yn Nhrefforest. Erbyn 1919-20 yr oedd 840 a fyfyrwyr amser-llawn a 6,339 o fyfyrwyr rhan-amser yn y rhain. Yr oedd 48,829 o fyfyrwyr yn mynychu 631 o ysgolion nos, gan mwyaf yn adeiladau'r ysgolion dyddiol. Cychwynnwyd sefydliad technegol yn Wrecsam yn 1927. Cymerodd Awdurdodau Addysg Morgannwg a Mynwy at Ysgolion Trefforest a Chrymlyn i'w cynnal fel sefydliadau technegol.

Rhwng 1929 a 1939 ymledodd addysg bellach ran-amser i nifer o ganolfannau ychwanegol. Cododd awdurdodau addysg lleol sefydliadau mwyngloddio a thechnegol yn y meysydd glo gyda chymorth *grantiau* o Gronfa Les y Glowyr. Deddf Diwydiant Mwyngloddio 1920 a barodd godi'r Gronfa hon a hynny er mwyn gwella amgylchiadau gweithwyr y diwydiant o ran addysg, bywyd cymdeithasol ac adloniant. Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg oedd cynnal y sefydliadau hyn, a'u staff hefyd. Eu hystâd fel arfer oedd dwy ystafell ddosbarth, dau lahordy i wyddoniaeth a swyddfa luniadu. Yn eu dyddiau cynnar eu nod oedd gwella hyfforddiant technegol uwch gweithwyr y pyllau gan gynnwys paratoi ar gyfer arholiad Tystysgrif Goruchwylwyr Pyllau, arholiadau a bennwyd gan y ddeddf. Gan mai ychydig o'r gwaith hwn a wneid liw dydd, cychwynnwyd ysgolion technegol cynradd yn y sefydliadau ar gyfer rhai rhwng tair-ar-ddeg a phymtheg oed. (Gweler tudalen 87.)

Ganol y tridegau yr oedd rhyw ddwsin mewn bod ac ehangwyd rhai trwy godi rhagor o weithdai ac o ystafelloedd dosbarth. Hwynthwy fu cnewyllyn llawer o'n colegau technegol presennol.

Dangosir cynnydd nifer eu myfyrwyr rhwng 1927 a 1938 yn y tabl canlynol:

Blwyddyn	Cyrsiau Amser-llawn i rai hŷn		Cyrsiau Technegol Dydd		Dosbarthiadau Nos	
	Canolfannau	Myfyrwyr	Canolfannau	Myfyrwyr	Canolfannau	Myfyrwyr
1927-28 ...	4	589	13	1,604	635	48,831
1929-30 ...	4	608	10	1,656	724	57,742
1931-32 ...	5	585	10	1,701	795	58,201
1933-34 ...	5	765	11	1,599	794	54,368
1935-36 ...	5	756	13	1,527	814	55,729
1937-38 ...	5	795	16	2,029	885	64,265

Sefydlu Cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a'r Ddiploma Genedlaethol

Yn 1921 trefnwyd i Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol mewn cyd-ddealltwriaeth â'r Bwrdd Addysg, gyflwyno Tystysgrif a Diploma mewn Peirianneg Fecanyddol, y Dystysgrif ar ôl llwyddiant mewn cwrs rhan-amser a'r Ddiploma am gwrs amser-llawn. Bu trefniant tebyg mewn cemeg. O'r camau hyn y tyfodd cynllun y Dystysgrif a'r Ddiploma Genedlaethol sydd wedi chwarae rhan mor bwysig mewn addysg dechnegol.

Cynigir y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (*Ordinary National Certificate, O.N.C.*) am lwyddiant mewn cwrs tair blynedd rhan-amser. Caniateir cwtogi'r amser os bydd gan ymgeisydd ryw gymhwyster neilltuol megis Tystysgrif lefel Gyffredin neu lefel Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol (*G.C.E.*). Felly ni bydd yn rhaid i fyfyriwr ddilyn blwyddyn gyntaf y cwrs, ac weithiau yr ail flwyddyn hefyd, am resymau fel y rhain. Ar y llaw arall, rhaid i fyfyriwr sydd heb gymwysterau digonol ddilyn cwrs rhag-baratoawl. Cyn yr ail ryfel byd cyrsiau nos oedd y rhain gan mwyaf yn rhedeg am dair noson o'r wythnos i bob myfyriwr. Ond, wedi'r rhyfel, newidiwyd bron yn llwyr i gyrsiau dydd (cyrsiau rhyddhad dydd, *day-release courses*), a rhyddheir y myfyrwyr o'u gwaith am un dydd o'r wythnos i'w mynychu. Dilynir hwy gan gwrs rhan-amser yn estyn dros ddwy flynedd ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol Uwch (*Higher National Certificate, H.N.C.*).

Y mae'r cyrsiau cyfatebol ar gyfer y Ddiploma Genedlaethol Uwch yn gofyn chwe mis neu fwy y flwyddyn o waith amser-llawn mewn coleg technegol. Dwy flynedd yw hyd cwrs y Ddiploma Gyffredinol ac y mae'r Ddiploma Uwch yn gofyn tair blynedd yn ychwanegol. Gan fod mwy o amser wrth law, mae cynnwys cwrs y Ddiploma yn fwy na chynnwys y Dystysgrif ac y mae'r safon yn uwch hefyd.

Llunnir y meysydd llafur yn y lle cyntaf gan y coleg technegol sydd yn cynnig y cwrs, gan roi sylw teg i ofynion diwydiant lleol. Yna rhaid wrth gymeradwyaeth y Bwrdd Addysg a'r corff proffesiynol perthnasol. Er 1954, y mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig wedi gweithredu fel Corff Arholi Rhanbarthol ar gyfer rhai Tystysgrifau Cenedlaethol Cyffredinol ac erbyn hyn y mae colegau technegol Cymru bron i gyd wedi dewis derbyn trefniant y Cyd-bwyllgor yn hytrach na dyfeisio eu cynlluniau eu hunain.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gymwysterau tebyg, y mae dyfarnu'r Tystysgrifau a'r Diplomâu Cenedlaethol yn dibynnu nid yn unig ar waith arholiad ond hefyd ar safon gwaith fel yr adlewyrchir hynny gan y marciau a enillir am waith cartref a gwaith dosbarth ac ar safon foddhaol presenoldeb. Trefnir arholiadau ar ben pob blwyddyn ac ni chaiff myfyriwr fynd ymlaen i gwrs y flwyddyn nesaf heb iddo yn gyntaf gwpláu gwaith y flwyddyn flaenorol yn foddhaol yn yr arholiad, yn safon ei waith o ddydd i ddydd, ac mewn presenoldeb.

Gan fod y Weinyddiaeth a chorff proffesiynol gyda'i gilydd yn cyd-reoli'r drefn hon, y mae'r safon yn sicr o ran addysg ac o ran safonau proffesiynol. Derbynnir y Dystysgrif a'r Ddiploma Uwch gan lawer corff proffesiynol fel rhan o gymhwyster teilwng o aelodaeth ohonynt.

Nodir yma rai o'r cyrsiau cyntaf a gynhaliwyd yng Nghymru. Yn Ionawr 1922 cadarnhawyd Cwrs Ddiploma Genedlaethol Gyffredinol mewn peirianneg fecanyddol yng Ngholeg Technegol Caerdydd, a dau gwrs, un ar gyfer y Ddiploma Gyffredinol a'r llall ar gyfer y Dystysgrif Gyffredinol yng Ngholeg Technegol Casnewydd a hefyd yn yr un flwyddyn Gwrs Tystysgrif Gyffredinol mewn peirianneg fecanyddol yng Ngholeg Technegol Abertawe. Cydnabuwyd Cyrsiau Tystysgrif a Ddiploma yn Ysgolion Mwyngloddio Trefforest a Chrymlyn tua diwedd 1920.

Yn y tabl isod dangosir nifer y rhai a fu'n llwyddiannus yn sefydliadau Cymru hyd at 1937-38:

Blwyddyn	Peirianneg Fecanyddol				Peirianneg Drydanol				Adeiladu		Cemeg	
	T.G.G.	T.G.U.	D.G.G.	D.G.U.	T.G.G.	T.G.U.	D.G.G.	D.G.U.	T.G.G.	T.G.U.	T.G.G.	T.G.U.
1923-24	4 (10)	—	3 (6)	—	—	—	—	—	—	—	—	—
1924-25	12 (16)	—	7 (14)	—	—	—	—	—	—	—	—	—
1925-26	7 (14)	—	10 (13)	—	1 (2)	—	—	—	—	—	2 (2)	—
1926-27	19 (23)	—	11 (14)	—	2 (3)	—	—	—	—	—	3 (4)	—
1927-28	8 (19)	—	14 (18)	—	—	—	—	—	—	—	2 (2)	—
1928-29	4 (10)	3 (3)	9 (14)	—	5 (5)	2 (2)	—	—	—	—	3 (6)	—
1929-30	8 (9)	4 (4)	11 (14)	—	9 (10)	1 (1)	—	—	—	—	1 (6)	—
1930-31	19 (22)	—	15 (21)	3 (5)	9 (12)	3 (5)	—	—	11 (16)	5 (7)	2 (3)	—
1931-32	14 (19)	—	10 (12)	2 (3)	11 (16)	7 (7)	—	—	7 (11)	—	4 (5)	—
1932-33	15 (20)	10 (12)	11 (16)	3 (3)	12 (19)	4 (6)	—	—	5 (10)	6 (7)	2 (4)	—
1933-34	6 (10)	7 (8)	14 (17)	3 (3)	20 (22)	5 (7)	4 (9)	—	9 (12)	1 (3)	3 (6)	4 (5)
1934-35	9 (15)	4 (5)	25 (31)	1 (1)	14 (20)	7 (12)	—	—	16 (18)	3 (3)	1 (4)	1 (2)
1935-36	10 (16)	6 (6)	9 (13)	2 (3)	24 (30)	8 (10)	6 (9)	—	12 (20)	7 (10)	6 (7)	1 (1)
1936-37	12 (23)	5 (5)	10 (11)	—	25 (40)	7 (10)	7 (9)	—	14 (17)	7 (9)	2 (7)	—
1937-38	26 (33)	6 (7)	6 (14)	4 (5)	24 (50)	3 (7)	5 (12)	—	16 (18)	6 (8)	7 (10)	4 (6)

(Dengys y ffigurau mewn cromfachau gyfanrif yr ymgeiswyr.)

Y mae'r cynnydd rhwng 1934 a 1938 yn nifer y T.C.C., sef o 10 i 33 mewn Peirianneg Fecanyddol ac o 22 i 50 mewn Peirianneg Drydanol, yn arwydd o dyfiant diwydiant yng Nghymru yn ail hanner y tridegau. A thebyg bod y cwymp yn nifer ymgeiswyr y Dystysgrif mewn Peirianneg Fecanyddol, o 22 i 15 rhwng 1931 a 1934, a chynnydd cyfatebol o 21 i 31 yn nifer ymgeiswyr y Ddiploma, yn arwydd o gynnydd diweithdra ar ddechrau'r tridegau.

Y Cyrsiau Rhyngosod Cyntaf

Dyma'r enw a osodir ar y math hwnnw o gwrs lle y treulia'r myfyriwr gyfnodau o amser, chwe mis fel rheol, mewn coleg technegol ac mewn diwydiant bob yn ail. Y cyntaf o'r fath yng Nghymru oedd Cwrs y *Joint Mining Diploma*, a ymestynnai dros dair blynedd, ac a gynhaliwyd yn Ysgol Fwyngloddio Trefforest gyda chydweithrediad Coleg y Brifysgol Caerdydd. Dechreuwyd cynnal y cwrs hwn pan agorwyd yr Ysgol Fwyngloddio yn 1913. Hefyd cychwynnwyd dau gwrs rhyngosod o bedair blynedd, un yn 1913 yn arwain i Ddiploma Beirianneg Pwll yr Ysgol Fwyngloddio a'r llall yn 1917 ar gyfer Ddiploma Beirianneg Gemegol yr un Ysgol. Cynhaliwyd cyrsiau rhan-amser rhyddhad dydd i fesurwyr pyllau, mecanegwyr, trydanwyr a chemegwyr yn yr Ysgol o 1913 ymlaen.

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol De Cymru a Mynwy ar Addysg Mewn Mwyngloddio

Yn dilyn adroddiad 1924 y Bwrdd Addysg ar hyfforddiant gweithwyr glo De Cymru a Mynwy, ffurfiwyd y pwyllgor ymgynghorol hwn yn 1925. Hwn oedd y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig ac un o'i gyfraniadau gwerthfawr oedd creu un drefn gyffredinol ar gyfer addysg fwyngloddio ym Maes Glo'r Deheudir. Bu'r pwyllgor mewn bod tan 1938, pryd aeth yn is-bwyllgor i'r Cyngor Ymgynghorol a nodir isod.

Y Cyngor Ymgynghorol ar Addysg Dechnegol yn Ne Cymru a Mynwy

Ganed hwn yn 1935—yn dilyn awgrym mewn adroddiad arall gan y Bwrdd Addysg yn 1931 ar 'Broblemau Addysg Maes Glo De Cymru.' Sylwodd yr adroddiad ar nychdod masnach allforio glo De Cymru ac ar ymfudo'r boblogaeth o'r fro. Awgrymodd y dylid cynnal addysg dechnegol dros faes mwy eang a chodi safon yr addysg honno er mwyn delio â'r sefyllfa newydd hon. Ffurfiwyd y Cyngor Ymgynghorol i sicrhau cysylltiad agosach rhwng addysg, diwydiant a masnach, gwell cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol ac i roi pen ar wastraff ac annigonolrwydd y ddarpariaeth addysgol.

Dyma grynodeb o ffrwyth llafur y Cyngor hwn:

paratoi nifer o gyhoeddiadau dros faes eang ynglŷn ag addysg dechnegol i fod yn arweiniad i Bwyllgorau Addysg, swyddogion, athrawon, myfyrwyr a diwydianwyr;
sefydlu cyfundrefn o arholiadau, gyda chymedrolwyr allanol, ar gyfer cyrsiau rhagbaratoawl rhan-amser yn y colegau technegol a hefyd ar gyfer myfyrwyr ysgolion technegol iau.
cadw cysylltiad defnyddiol â diwydiant ar fater hyfforddi gweithwyr;
hel rhoddion ariannol gwerthfawr i gynnal ysgoloriaethau a gwaddoli gwobrau i fyfyrwyr, ac i weinyddu'r cynllun;
dwyn perswâd ar ddiwydianwyr er hwyluso rhyddhad dydd i weithwyr er mwyn iddynt allu dilyn dosbarthiadau technegol;
cadw cysylltiad gwahanol adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill megis y *City and Guilds of London Institute*, yr undebau arholi rhanbarthol, y cyrff proffesiynol a Chymdeithas Ddiwydiannol Cymry a Mynwy;
hel ystadegau a sicrhau sylw yn y wasg trwy'r wlad i lawer o agweddau ar addysg dechnegol;
bod yn fan cyfarfod i gynrychiolwyr awdurdodau addysg lleol, swyddogion, athrawon, diwydianwyr, undebau llafur ac adrannau'r llywodraeth.

Y Cyngor Ymgynghorol ar Addysg Dechnegol yng Ngogledd Cymru

Er bod sôn am Gyngor tebyg i warchod buddiannau Gogledd Cymru yn y blynyddoedd cyn yr ail ryfel byd, ni sefydlwyd y Cyngor tan 1944. Yn ei oes fer, bu'n mesur yr angen am addysg a'r cynlluniau a oedd mewn bod i ddiwallu'r angen hwn. Cyhoeddwyd y ffeithiau ynghyd ag awgrymiadau'r Cyngor er gwella'r sefyllfa mewn adroddiad yn 1947.

Bwrdd Academaidd Cymru mewn Technoleg

Gan ddilyn awgrymiadau cyngor Arglwydd Eustace Percy ar Addysg Dechnegol Uwch yn 1945, awgrymodd y Gweinidog Addysg fod y ddau Gyngor Ymgynghorol yn y De a'r Gogledd a'r Brifysgol yn sefydlu rhyngddynt Fwrdd arall. Ei bwrpas fyddai rhoi cyngor ar holl faterion datblygu a chydgysylltu astudiaethau technegol uwch yng ngholegau'r Brifysgol ac yn y colegau technegol. Felly ffurfiwyd y Bwrdd yn 1946 ac yn ystod ei eisteddiad cyntaf ar y cyntaf o Orffennaf, penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgorau Academaidd i ystyried gofynion addysgol uwch y diwydiannau a ganlyn: peirianneg (mecanyddol, trydanol a sifil); peirianneg gemegol a thechneg tanwydd; mwyngloddio; metaleg; adeiladu; masnach. Cyhoeddwyd adroddiad yn 1948 yn cynnwys argymhellion yr Is-bwyllgorau, ac erbyn hyn, gosodwyd llawer ohonynt ar waith.

Y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig

Yn 1948 derbyniodd y Gweinidog Addysg argymhellion Gweithgor a fu'n ystyried problemau gweinyddiaeth addysg yng Nghymru er 1946. Ffurfiwyd y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig drwy uno'r Bwrdd Canol Cymreig (a sefydlwyd yn 1896), Ffederasiwn Pwyllgorau Addysg (Cymru a Mynwy) a'r Cynghorau Ymgynghorol ar Addysg Dechnegol yn y De a'r Gogledd. Cyfarfu'r Pwyllgor newydd ar Hydref 1, 1948 am y tro cyntaf.

Derbyniodd y Pwyllgor newydd hwn gyfrifoldeb y ddau cyngor Ymgynghorol Technegol a chryn dipyn o eiddo'r Bwrdd Academaidd mewn Technoleg canys mae rhan 12(i) o Orchymyn y Gweinidog Addysg, yn yr is-rannau (c) a (d) yn darllen fel a ganlyn:

> '12(i) Bydd i'r Cynghorau a fydd yn penodi'r Pwyllgor drosglwyddo i sylw'r Pwyllgor y materion canlynol:—
>
> (c) darparu colegau addysg bellach gan gynnwys yn arbennig golegau'r celfyddydau a cholegau addysg oedolion;
>
> (d) cyd-gysylltu darpariaeth addysg bellach.'

Er i Ysgrifennydd Seneddol y Gweinidog Addysg yn ei anerchiad agoriadol i'r Cyd-bwyllgor ddatgan a ganlyn, 'Sicr wyf yr hoffech i mi hefyd ddatgan gobaith y Gweinidog y bydd i Fwrdd Academaidd Cymru mewn Technoleg ddal i fod yn ddolen gydiol effeithiol rhwng Prifysgol Cymru â'r Pwyllgor hwn'—eto nid felly y bu canys darfu'r Bwrdd Academaidd yn fuan ar ôl hyn oherwydd diffyg cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'i gyfansoddiad.

Tyfiant Colegau Technegol ar ôl y rhyfel

Yn y tridegau ehangwyd adeiladau Colegau Technegol Caerdydd ac Abertawe ac erbyn 1939 yr oedd pymtheg o sefydliadau mwyngloddio a thechnegol yn cynnal cyrsiau dydd a chyrsiau nos, ar wahân i'r pum coleg mawr yng Nghaerdydd, Crymlyn, Casnewydd, Abertawe a Threfforest. Yn union wedi'r rhyfel, bu cynnydd mawr yn holl feysdd addysg dechnegol a barodd anawsterau llym ynglŷn â lle a llety a bu raid i'r colegau wynebu'r broblem o ehangu'n sylweddol. Ond oherwydd y wasgfa ar adnoddau adeiladu yn union ar ôl difrod y rhyfel, ni ddechreuwyd ar raglen ymhelaethu sefydliadau addysg dechnegol hyd 1949. Ers hynny fodd bynnag bu symud diflino i ateb y gofyn am ragor o addysg dechnegol. Rhwng 1949 a 1958 codwyd 14 coleg newydd ar draul o £3,270,000 (heb gynnwys offer) a gwariwyd £1,145,000 ar helaethu y tri sefydliad ar ddeg a oedd eisoes yn bod. Yn 1959, yr oedd pum coleg newydd ychwanegol a gwaith helaethu pedwar arall yn nwylo'r adeiladwyr. Yn sesiwn 1959-60, yr oedd ar gael 45 o brif sefydliadau addysg bellach. Rhoir manylion amdanynt yn atodiad F.

Y Cynnydd yn Nifer yr Athrawon mewn Sefydliadau Addysg Bellach wedi'r Rhyfel

Yn ogystal â darparu lle ac offer, rhaid oedd wrth athrawon cymwys i gynnal y colegau. Dengys y tablau a ganlyn y cynnydd rhwng 1947 a 1957 yn nifer athrawon prif sefydliadau addysg bellach Cymru.

Athrawon Amser Llawn

Blwyddyn	Meibion	Merched	Cyfanrif
1947	179	26	205
1957	643	72	715

Athrawon Rhan-Amser

Blwyddyn	Meibion	Merched	Cyfanrif
1947	355	74	429
1957	1,122	252	1,374

Y Cynnydd Yng Ngwaith Sefydliadau Addysg Bellach wedi'r Rhyfel

Y mae ystyr arbennig i'r ymadrodd prif sefydliadau addysg bellach. Sefydliadau a cholegau technegol ydynt lle y darperir cyrsiau dydd a chyrsiau nos neu gyrsiau dydd yn unig. Gelwir hwy yn Golegau Technolegol, yn Golegau Technegol neu yn Golegau Addysg Bellach yn ôl safon a natur eu gwaith. Mae'r gwaith bron i gyd yn ymwneud â galwedigaeth arbennig y myfyriwr. Hefyd y mae sefydliadau nos lle y darperir dosbarthiadau sydd ar y cyfan yn adloniadol neu ddiwylliannol eu naws; cynhelir y rhain mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mewn Neuaddau a mewn Capeli. Yn 1938 yr oedd 885 o sefydliadau nos yng Nghymru gyda 64,365 o fyfyrwyr. Erbyn 1958, cododd y nifer i 1,362 gyda 83,474 o fyfyrwyr.

Dengys y tabl canlynol y cynnydd yn nifer myfyrwyr y prif sefydliadau addysg bellach rhwng 1947 a 1958.

Blwyddyn	Nifer y Sefydliadau	Myfyrwyr Amser-Llawn		Myfyrwyr dydd Rhan-amser		Myfyrwyr Nos		*Cyfanrif Myfyrwyr		*Cyfanrif
		Meibion	Merched	Meibion	Merched	Meibion	Merched	Meihion	Merched	
1946-47	34	879	590	7,087	801	13,060	6,752	21,026	8,143	29,169
1947-48	37	1,011	592	8,351	1,011	16,476	9,625	25,838	11,228	37,066
1948-49	36	1,152	579	10,003	1,189	15,787	9,795	26,942	11,563	38,505
1949-50	38	1,108	655	10,625	1,607	16,921	9,804	25,122	11,793	36,915
1950-51	37	1,110	692	12,268	1,694	18,495	10,816	27,143	12,952	40,095
1951-52	39	955	695	13,791	1,536	18,442	8,826	27,207	10,768	37,975
1952-53	42	937	881	15,758	1,544	19,180	9,645	29,139	11,751	40,890
1953-54	43	797	1,126	16,952	1,599	21,148	9,718	30,982	12,015	42,997
1954-55	46	878	1,284	18,135	2,107	23,417	10,244	32,866	13,248	46,114
1955-56	45	1,058	1,550	19,189	2,442	23,919	11,687	34,777	15,092	49,869
1956-57	45	1,511	1,727	21,616	2,609	25,712	11,736	38,408	15,315	53,723
1957-58	46	1,960	1,853	21,920	2,630	25,431	10,271	38,603	14,004	52,607

* Er 1949-50, cyfrifir y rhai sy'n mynychu dosbarthiadau dydd a rhai nos yn yr un sefydliad un waith yn unig ac nid ddwywaith.

Yn 1957-58, yr oedd 139,602 o fyfyrwyr yn derbyn grant ar gyfer mynychu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, gan gynnwys y prif sefydliadau, sefydliadau celfyddyd a sefydliadau min nos. Yn 1937-38, y nifer oedd 67,089.

Rhwng 1950-51 a 1953-54, lleihaodd nifer myfyrwyr amser-llawn y prif sefydliadau o 1,110 i 797. Gellir cynnig rhesymau—y ffaith bod cyn-filwyr gyda grant Cynllun Addysg a Hyfforddiant Bellach yn gorffen eu cyrsiau, a hefyd bod y cyfnod hwn yn gyfnod heb ddiweithdra. Y mae cyfnod felly bob amser yn denu bechgyn, wrth adael ysgol, i gymryd gwaith tâl mewn diwydiant yn hytrach na chychwyn ar gyrsiau amser-llawn mewn coleg technegol. Mae'n werth sylwi bod codiad o 4,684 (38 y cant) yn nifer y meibion rhan amser yn yr un cyfnod.

Rhwng 1954 a 1958 cafwyd cynnydd yn nifer y meibion amser llawn. Digon i gyfrif am hyn yw arfer prentisiaid crefft y Bwrdd Glo o dreulio eu blwyddyn gyntaf yn gyfan mewn coleg technegol a hefyd bod cyrsiau rhagbaratoawl amser-llawn i brentisiaid wedi eu sefydlu mewn rhai colegau technegol.

Mae nifer y merched a ddilynai gyrsiau amser-llawn bron yn dyblu o 1953 i 1958, canlyniad cynnydd yn rhif y cyrsiau a fyddai yn eu paratoi ar gyfer arholiadau mewn gwaith ysgrifenyddol, mewn arlwyo bwyd ac mewn nyrsio rhagbaratoawl. Er bod nifer y merched a ddilynai gyrsiau rhan amser wedi mwy na threblu rhwng 1946 a 1958, y mae o hyd yn isel i'w ryfeddu. Yn gyffredinol, mae llawer o ddosbarthiadau nos, yn arbennig rhai i ferched, heb ogwydd tuag at ofynion galwedigaeth a thebyg mai hyn yw'r rheswm am y lleihad yn nifer y myfyrwyr nos rhwng 1951 a 1952, a rhwng 1957-58 pryd y codwyd y tâl a ofynnid am ddilyn y cyrsiau.

Natur y Gwahanol Gyrsiau

Cyrsiau Rhyddhad Dydd

Fel y dengys y tabl, bu cynnydd triphlyg yn rhif mynychwyr dosbarthiadau dydd rhan-amser rhwng 1947 a 1958. Dyma un o nodweddion arbennig addysg dechnegol er 1945. Dengys ystadegau'r 38 prif sefydliad technegol mwyaf yng Nghymru fod 94·4 y cant o'r disgyblion yma yn 1958-59 yn ddisgyblion 'rhyddhad dydd'—h.y. disgyblion a ollyngwyd o'u gwaith, heb golli tâl, ar un diwrnod o'r wythnos i ddilyn cwrs. Y mae rhai diwydiannau, yn arbennig y diwydiant adeiladu, diwydiant peirianneg a'r diwydiant mwyngloddio, yn fwy parod nag eraill i gynnig y cyfle hwn i'w prentisiaid.

Cyrsiau Rhyngosod

Cafodd y rhain gryn lawer o gyhoeddusrwydd yn ddiweddar. Dyma natur a ffurf y crysiau Uwch sy'n arwain i'r Ddiploma Genedlaethol Uwch ac i'r Ddiploma mewn Technoleg. Nodwyd eisoes (tud. 74) ddarfod cychwyn cyrsiau o'r math yma yn Ysgol Fwyngloddio Trefforest yn 1913 ac yng Ngholeg Technegol Caerdydd yn 1919. Ond, er hyn, prin yw eu nifer yng Nghymru. Cynhelir y rhan fwyaf ohonynt yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru ac yng Ngholeg Technoleg Morgannwg (gweler atodiad B a C).

Cyrsiau Rhyddhad Cryno

Newydd ddyfodiad yw'r math hwn o gwrs yng Nghymru. Fel arfer bydd y cwrs wedi ei grynhoi i dri chyfnod o fis yr un y flwyddyn o astudiaeth llawn-amser. Yn ychwanegol at hyn yn ystod gweddill y flwyddyn mynychir dosbarth nos unwaith yr wythnos lle y bo modd. Pery'r cyrsiau am bedair neu bum mlynedd ac yr oeddynt ar waith yn Llandaf, Casnewydd a'r Drenewydd yn 1958-59. Y mae arwyddion o ddatblygu mawr ar y cyrsiau hyn yn y dyfodol agos.

Cyrsiau Amser-Llawn Cyn-brentisiaeth

Er 1956, y mae nifer o golegau technegol wedi cychwyn cwrs blwyddyn amser-llawn ar gyfer rhai sy'n gadael ysgolion uwchradd. Gelwir hwy yn Gyrsiau Cyn-brentisiaeth neu'n Gyrsiau Rhagbaratoawl mewn Peirianneg. Bron yn ddieithriad derbyniant fyfyrwyr o ysgolion uwchradd modern rhwng 15 a 16 oed. Yn 1958-59 yr oedd wyth cwrs felly ar gael. Mae'r maes llafur ac arholiadau pen y cwrs yn amrywio o'r naill goleg i'r llall. Nod y cwrs yw cyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant ymarferol fel rhagarweiniad i'r diwydiant arbennig a fydd maes o law yn derbyn y disgybl yn brentis. Am hynny bydd llawer o waith technegol yn y maes llafur megis ymarfer gweithdy, lluniadu technegol, gwyddoniaeth a mathemateg. Weithiau dibynnir ar arholiadau mewnol, bryd arall anelir at arholiadau allanol megis Tystysgrif Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau neu lefel Gyffredinol y Dystysgrif Addysg Gyffredinol mewn ychydig bynciau. O ddilyn y cwrs yn llwyddiannus a hefyd gael prentisiaeth, mae'r ffordd yn glir i'r myfyriwr da ddilyn blwyddyn gyntaf cwrs y Dystysgrif Genedlaethol. Gall y gweddill gwanach ddilyn cwrs crefft y *City and Guilds* neu efallai gwrs rhagbaratoawl i'r Dystysgrif Genedlaethol. Gwneir darpariaeth gyffelyb ar gyfer merched mewn llawer coleg technegol. Cynhelir cyrsiau amser-llawn, sydd fel rheol yn parhau am ddwy flynedd, mewn gwaith ysgrifenyddol, arlwyo bwyd a nyrsio.

Cyrsiau Helaethach mewn Ysgolion Uwchradd

Mae rhai ysgolion uwchradd, rhai modern yn arbennig, yn awr yn dechrau datblygu cyrsiau ar gyfer disgyblion sydd heb lawer o allu academaidd ond sydd yn dewis aros ymlaen yn yr ysgol y tu hwnt i bymtheg oed, sef yr oedran a bennwyd gan ddeddf gwlad. Gogwydd dechnegol, i baratoi bechgyn ar gyfer prentisiaeth sydd i rai ohonynt; y mae eraill yn paratoi merched ar gyfer masnach, nyrsio neu arlwyo bwyd, a cheir eraill eto sy'n fwy cyffredinol eu natur. Fel arfer arweiniant i arholiad gadael ysgol a lunir gan yr awdurdod addysg lleol ond y mae lleiafrif o'r cyrsiau yn terfynu gydag arholiad lefel Gyffredinol y G.C.E. Yn sesiwn 1958-59 gwelwyd ar ôl archwilio fod tua 40 o'r 224 ysgol fodern uwchradd yng Nghymru yn cynnal cyrsiau fel hyn.

Datblygiad Cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a'r Ddiploma wedi'r Rhyfel

Ers y rhyfel cynyddodd rhif y rhai a astudiai ar gyfer arholiadau'r Dystysgrif Genedlaethol ac arholiadau'r *City and Guilds* ym mhrif sefydliadau addysg dechnegol Cymru yn ddirfawr. Ers 1954, y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig fu'r Cotff Arholi Rhanbarthol ar gyfer arholiadau'r Dystysgrif Genedlaethol hyd at y lefel Gyffredinol. Dyma'r nifer a enillodd y dystysgrif drwy arholiadau'r Cyd-bwyllgor o 1955 i 1959.

Blwyddyn	Adeiladu	Cemeg	Masnach	Peirianneg		Metaleg	Mwyn-gloddio
				Drydanol	Fecanyddol		
1955	17 (38)	24 (41)	6 (23)	48 (132)	86 (257)	11 (35)	96 (164)
1956	19 (46)	32 (54)	12 (29)	79 (128)	111 (286)	8 (34)	83 (154)
1957	33 (66)	32 (70)	15 (27)	82 (134)	171 (332)	6 (35)	121 (206)
1958	35 (72)	34 (61)	12 (28)	102 (186)	206 (437)	14 (37)	99 (210)
1959	71 (105)	74 (130)	25 (43)	161 (283)	374 (584)	36 (66)	178 (272)

(Dengys y ffigurau mewn cromfachau gyfanrif yr ymgeiswyr)

Bu cynnydd hefyd yn nifer y colegau sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer yr un arholiadau o 1955 i 1959.

Blwyddyn	Adeiladu	Cemeg	Masnach	Peirianneg		Metaleg	Mwyngloddio
				Drydanol	Fecanyddol		
1955	4	4	4	6	6	5	7
1959	8	8	6	12	12	6	8

Yn sesiwn 1958-59, yr oedd tri Choleg Technegol yng Nghymru yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y Ddiploma Genedlaethol Uwch a deg ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol Uwch. Dyma nifer y rhai llwyddiannus yn y tair blynedd, 1950, 1955 a 1959. Dengys y tabl gynnydd ym mhob pwnc, o 1950 i 1955, ond dim ond mewn cemeg a pheirianneg gynhyrchol y gwelir newid o bwys rhwng 1955 a 1959.

Diploma Genedlaethol Uwch

Blwyddyn	Adeiladu	Peirianneg		Mwyngloddio
		Drydanol	Fecanyddol	
1950	7 (15)	4 (10)	17 (23)	—
1955	11 (16)	—	9 (19)	14 (18)
1959	3 (5)	5 (6)	18 (19)	18 (18)

Tystysgrif Genedlaethol Uwch

Blwyddyn	Ffiseg Gymhwysol	Adeiladu	Peirianneg					Metaleg	Mwyngloddio	Cemeg
			Gemegol	Sifil	Drydanol	Fecanyddol	Gynhyrchol			
1950	—	17 (19)	—	—	61 (77)	87 (122)	—	2 (2)	—	20 (25)
1955	—	29 (32)	10 (10)	—	108 (153)	139 (206)	11 (14)	16 (30)	33 (45)	48 (61)
1959	20 (25)	34 (41)	15 (15)	10 (11)	111 (187)	120 (175)	40 (50)	14 (26)	42 (60)	62 (79)

(Dengys y ffigurau mewn cromfachau gyfanrif yr ymgeiswyr.)

Ystadegau ynglŷn â Chyrsiau Adeiladu, Peirianneg a Mwyngloddio

Cyrsiau mewn adeiladu, peirianneg (drydanol a mecanyddol), a mwyngloddio yw asgwrn cefn gwaith y mwyafrif o'r colegau technegol yng Nghymru. A dyma eu maint yn sesiwn 1957-58, yn ôl nifer y myfyrwyr.

Adeiladu

Cwrs	Nifer y Colegau	Nifer y Myf.
Diploma Genedlaethol Uwch	1	25
Tystysgrif Genedlaethol Uwch	5	101
Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (S.1, S.2 a S.3)	12	508
Cyrsiau'r *City and Guilds*:		
Gwaith bric	18	763
Gwaith Plastrwyr ...	9	210
Gwaith Plymwyr ...	16	546
Gosod Offer Nwy ...	9	230
Gwaith Saer ac Asiedydd	21	1,446
Gwaith coed peiriannol	4	147
Gwaith paentwyr ac addurnwyr tai ...	7	249

Mwyngloddio

Cwrs	Nifer y Colegau	Nifer y Myf.
Diploma Genedlaethol ...	1	44
Tystysgrif Genedlaethol Uwch	3	81
Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (S.1, S.2 a S.3)	7	795
(S.1)	9	276
Tystysgrif Mecanwyr a Thrydanwyr Pyllau Glo:		
Blwyddyn gyntaf (amser-llawn)	9	361
Blynyddoedd dilynol (Mecanyddol) ...	8	182
Blynyddoedd dilynol (Trydanol)	6	178
Tystysgrif Mwyngloddio glo	5	129
Cwrs Dirprwy Reolwyr Tebygol	10	413
Cwrs Mwyngloddio i ddysgwyr (8 wythnos amser-llawn)	10	2,211

Peirianneg Fecanyddol

Diploma Dechnoleg ...	1	42
Diploma Genedlaethol Uwch	3	92
Tystysgrif Genedlaethol Uwch	9	523
Tystysgrif Genedlaethol Uwch (Cynhyrchu ...	5	141
Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (S.2 a S.3)	15	1,747
(S.1, Mec. a Thryd) ...	31	1,711
Cyrsiau'r *City and Guilds*:		
Arfer Crefft Peirianneg Fecanyddol a Pheirianneg Gweithdy Peiriant	25	1,978
Weldio	10	413
Gwaith Llenfetel ...	4	100
Tystysgrif Crefftwyr Moduron (y flwyddyn gyntaf, yr ail a'r 3edd)	13	1,023
(y flwyddyn gyntaf yn unig)	3	52

Peirianneg Drydanol

Diploma Genedlaethol Uwch	2	39
Tystysgrif Genedlaethol Uwch	7	383
Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (S.2 a S.3)	14	845
Cyrsiau'r *City and Guilds*:		
Gosod Offer Trydan ...	17	893
Cwrs Technegwyr Trydan	4	113

Ysgoloriaethau Technegol y Wladwriaeth

Gellir dal yr ysgoloriaethau hyn mewn prifysgolion neu mewn sefydliadau addysg bellach. Cynigir hwy bob blwyddyn i fyfyrwyr sydd wedi mynychu sefydliadau addysg bellach ac wedi dilyn yn llwyddiannus gwrs y Ddiploma Genedlaethol Gyffredinol, neu'r Dystysgrif Gyffredinol neu ryw gwrs tebyg o ran ei safon trwy astudiaeth ran-amser. Bydd ysgolor yn dilyn cwrs sy'n foddhaol i'r Gweinidog Addysg ac a fydd fel arfer yn arwain i radd Anrhydedd neu i'r

Ddiploma Dechnoleg. Ond weithiau, cymeradwyir cwrs sy'n arwain at gymwysterau eraill o safon deilwng.

Yn y pum mlynedd o 1955 i 1959, cynigiwyd 8, 12, 14, 15 ac 18 ysgoloriaeth yn y drefn hon, i fyfyrwyr o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Yn sesiwn 1958-59 yr oedd 51 ysgolor ym Mhrifysgol Cymru a phump yn ychwanegol mewn sefydliadau eraill yng Nghymru.

Graddio'r Colegau Technegol

Yn Nghylchlythyr 305, a ddosbarthwyd ar hirddydd haf 1956, rhoddwyd braslun o fwriadau diweddaraf y Weinyddiaeth ar drefnu addysg dechnegol. Bwriadwyd graddio'r colegau technegol yn ôl safon eu gwaith i bedair gradd —Colegau Lleol, Colegau Cylch, Colegau Bro a Choleg au Technoleg Uwch.

Pwrpas *Colegau Lleol* yw ateb gofynion lleol ac at ddibenion galwedigaeth, cynhelir ynddynt gyrsiau, rhai rhan-amser gan mwyaf, sy'n arwain i'r Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol, i arholiadau canolradd y *City and Guilds* a'r rhai Terfynol weithiau, a hefyd i arholiadau canolradd cyrff proffesiynol. Mewn llawer coleg lleol mae trefnu cyrsiau amser-llawn i'r rhai sydd wedi troi eu pymtheg oed ar droed yn awr, cyrsiau cyn-brentisiaeth i fechgyn a chyrsiau rhagbaratoawl mewn nyrsio ac arlwyo bwyd i ferched. Gelwir y rhan fwyaf o'r colegau hyn yn Golegau Addysg Bellach.

Yn ychwanegol at sicrhau peth trefniant tebyg i eiddo'r colegau lleol, rhaid i'r *Colegau Cylch* ateb gofynion eu cylchoedd am gyrsiau uwch megis rhai'r Tystysgrif Genedlaethol Uwch ac arholiadau terfynol y *City and Guilds*. Os bydd digon o ofyn, mae rhai'n cynnal cyrsiau rhyngosod ar gyfer y Ddiploma Genedlaethol Uwch.

Y mae *Colegau Bro*, yn ôl yr enw, yn ateb gofynion cylchoedd ehangach. Cyrsiau uwch yw eu prif faes, ar gyfer Diploma Genedlaethol Uwch a Thystysgrif Genedlaethol Uwch, a gwaith o gyffelyb safon, cyrsiau gweddus i dechnegwyr a thechnolegwyr o safon uchel. Ar hyn o bryd un Coleg Bro sydd yng Nghymru sef Coleg Technoleg Morgannwg yn Nhrefforest.

Y *Colegau Technoleg Uwch* yw pinacl y pyramid. Cyrsiau uwchradd yn unig yw eu maes; ni dderbyniant neb heb feddu ohonynt gymhwyster megis y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol neu lefel Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol. Fel arfer cyrsiau amser-llawn neu gyrsiau rhyngosod ar gyfer technolegwyr ydynt. Ynddynt, fel rheol, y paratoir ar gyfer y Ddiploma mewn Technoleg sydd o safon debyg i eiddo gradd anrhydedd prifysgol ym Mhrydain. Cyflwynir y Ddiploma Dechnoleg gan y Cyngor Cenedlaethol ar Ddyfarniadau Technolegol a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg yn 1955. Gan y bwriedir iddynt weithredu ar lefel gradd prifysgol ac ar lefel uwch, rhaid i'r colegau ateb gofynion arbennig o ran hwylustod eu hadeiladau, eu staff a'u cyrff llywodraethol. Un coleg o'r fath sydd yng Nghymru, sef Coleg Technoleg Uwch Cymru yng Nghaerdydd.

Pwrpas y Weinyddiaeth wrth lunio'r drefn hon oedd darparu fframwaith, ar sail oedd eisoes yn bod, y gellid ei addasu a'i ehangu i ateb gofynion y dyfodol. Gellir codi safon coleg, os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny a gobeithid y byddai yn symbyliad i golegau ehangu a chodi safon eu gwaith. Y mae llwyddiant y gyfundrefn hon yn dibynnu ar gydgysylltu'r gwaith dros rhanbarth eang. Am hynny y pwysleisiodd y Cylchlythyr mor drwm angen cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad rhwng awdurdodau lleol.

Coleg Technoleg Uwch Cymru

Pennwyd Coleg Technoleg a Masnach Caerdydd yn Goleg Technoleg Uwch ym Mis Mawrth 1957 ac ail-enwyd ef yn Goleg Technoleg Uwch Cymru. Er yr adeg honno, trosglwyddwyd cyrsiau y barnwyd bod eu safon yn rhy isel i Goleg o'r radd yma i Goleg Technegol Llandaf ac i Goleg Celfyddyd Caerdydd. Codwyd yr Adran Bobi ac Arlwyo Bwyd ar ei thraed ei hun fel sefydliad newydd y tu allan i'r coleg. Dyma nifer y myfyrwyr yng ngwahanol adrannau Coleg Technoleg Uwch Cymru yn sesiwn 1958-59.

Adran	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser dydd a nos
Pensaernïaeth	134	—	16
Adeiladu	5	25	184
Cemeg	4	3	191
Masnach	130	—	1,563
Peirianneg Drydanol	—	22	134
Saesneg	30	—	451
Mathemateg	—	—	234
Peirianneg Fecanyddol	71	66	122
Morwriaeth	177	—	6
Fferylliaeth	102	—	—
Ffiseg	50	—	30
Cyfanrif	703	116	2,931

Yn awr, dyma ystadegau blwyddyn olaf y Coleg fel Coleg Technoleg a Masnach yn 1956-57:

Amser-llawn	*Rhan-amser*	*Cyfanrif*
1,265	5,282	6,547

Y mae cneifio'r gwaith elfennol i ffwrdd felly wedi gostwng nifer y myfyrwyr amser-llawn 35 y cant a'r rhai rhan-amser 45 y cant rhwng 1957 a 1959.

Rhoddodd y Pwyllgor Cenedlaethol ar Ddyfarniadau Technolegol awdurdod i'r Coleg gynnal cyrsiau rhyngosod ar gyfer y Ddiploma Dechnoleg mewn peirianneg fecanyddol ym mis Medi 1956, mewn peirianneg drydanol (ym mis Medi 1958) ac mewn ffiseg gymhwysol ym mis Medi 1958. Mae dau gwrs arall, sef peirianneg cynhyrchol ac ystadegaeth, yn cael ystyriaeth ar hyn o bryd. Yn 1958-59, gynhaliwyd cyrsiau Diploma Genedlaethol Uwch mewn adeiladu, peirianneg drydanol, a pheirianneg fecanyddol. Y mae eisoes hawl i gychwyn Cwrs Diploma debyg mewn cemeg yn 1959-60.

Llanw'r Cyrsiau Rhyngosod Uwch

Llenwir y cyrsiau hyn yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru ac yng Ngholeg Technoleg Morgannwg gan mwyaf gan ddisgyblion ysgolion gramadeg a fu'n llwyddiannus mewn pynciau pwrpasol yn arholiadau lefel Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol. Y mae rhai ohonynt eisoes mewn diwydiant a gollyngir hwy i fynd i'r coleg am chwe mis bob blwyddyn (seiliad gwaith); daw eraill yn syth i'r coleg o'r ysgol ac ânt allan o'r coleg am gyfnodau o ymarfer diwydiannol (seiliad coleg). Fel arfer telir ei gyflog i fyfyriwr seiliad gwaith pan fo yn y coleg, ond beth bynnag am hyn, gall myfyriwr anghenus, boed fyfyriwr seiliad gwaith neu seiliad coleg, ofyn am gymorth dros ei amser yn y coleg oddi wrth awdurdod addysg lleol. (Gweler Memorandwm Gweinyddol 567 y Weinyddiaeth Addysg, yr 22ain o Ebrill, 1958). Y mae 71 o fyfyrwyr wedi eu gollwng o'u gwaith heb golli cyflog yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru yn awr; daw 27 ohonynt o ddiwydiannau a genedlaetholwyd, a 44 o ddiwydiannau preifat. Yng Ngholeg Technoleg Morgannwg daw 88 tebyg o ddiwydiannau a genedlaetholwyd a 22 o rai preifat.

Tra siomedig, hyd yn hyn, fu nifer y myfyrwyr a chanddynt Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol a gychwynnodd ar gyrsiau'r Ddiploma Dechnoleg. Yn arholiadau'r Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn 1958, enillodd 33 o fyfyrwyr colegau technegol Cymru y cymhwyster angenrheidiol i ddilyn cwrs y Ddiploma Dechnoleg mewn peirianneg drydanol ond dengys atodiad A nad ymunodd un dyn byw ohonynt â'r cwrs pwrpasol ym mis Medi 1958 yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru. Yr un modd mewn peirianneg fecanyddol, o'r 69 posibl dim ond tri a ymunodd. Nid ymunodd neb a chanddo na chymhwyster Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol na llwyddiant ar lefel Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol â chwrs y Ddiploma Dechnoleg mewn ffiseg gymhwysol ym mis Medi 1958 yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru.

Siomedig yn yr un modd yw'r nifer sy'n dilyn cyrsiau'r Ddiploma Genedlaethol Uwch mewn peirianneg fecanyddol a thrydanol yng Nghymru. Enillodd 97 y cymhwyster i wneud hyn mewn peirianneg drydanol yn arholiadau'r Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn 1958, ond dim ond un ohonynt a ymunodd â'r cwrs ym mis Medi 1958. Felly hefyd mewn peirianneg fecanyddol—tri yn unig o blith 146 a ymunodd.

Y Cynnydd yn Narpariaeth y Prifysgolion

I ateb y gofyn cynyddol am wyddonwyr a thechnolegwyr cymerwyd camau breision yn ystod y blynyddoedd olaf hyn i ddarparu hyfforddiant i rai y bernid eu bod yn addas ac yn alluog i ennill cymwysterau o radd uchel ac arbenigol ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg. Awgrymwyd yn Adroddiad Pwyllgor Cyflenwad Gwyddonwyr, y Cyngor Ymgynghorol ar Bolisi Gwyddonol yn 1956 'y byddai'n rhaid wrth gynnydd yn rhif y rhai a enillai gymhwyster bob blwyddyn mewn gwyddoniaeth a pheirianneg, o dua 10,000 yn 1954-55 i dua 20,000 yn 1970 . . . . os yw'r tyfiant yn economi'r wlad a fernir yn angenrheidiol i ddatblygu'n ddigon buan.' Y 'cymhwyster' y meddyliai'r Pwyllgor amdano yn ei Adroddiad oedd gradd Prifysgol mewn gwyddoniaeth neu beirianneg neu rywbeth cyfwerth â hynny.

Mi dyfodd y prifysgolion gryn dipyn ar ôl y rhyfel. Argymhellodd Pwyllgor Barlow a benodwyd yn 1945, wrth ystyried problem cyflenwad o weithwyr ym maes gwyddoniaeth, y dylid dyblu nifer y sawl a fyddai'n graddio mewn gwyddoniaeth y cyfle cyntaf posibl. Pedair blynedd yn unig a gymerodd hi i'r prifysgolion sicrhau hyn. Yn ei adroddiad yn 1952, serch hynny, dywedodd Pwyllgor Cyflenwad Gwyddonwyr fod prinder gwyddonwyr a pheirianwyr hyfforddedig o bob math bron yn debyg o barhau er gwaethaf y cynnydd ers y rhyfel. Yna paratowyd cynlluniau i gryfhau adrannau peirianneg a gwyddoniaeth amryw o brifysgolion, ac y mae'r cynnydd yn y cyfeiriad hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Prifysgol Cymru

Yn ystod ein hymchwiliad cawsom wybod am raglen ddatblygu uchelgeisiol Cyfadrannau Gwyddoniaeth Bur a Chymhwysol Prifysgol Cymru a chyfarfuasom ag amryw o benaethiaid adran. Nid hwn yw'r lle priodol i adolygu neu i bwyso a mesur yr hyn a wneir yn awr ac felly fe'n cyfyngwn ein hunain i sylw byr ar y sefyllfa. Digwyddodd datblygiadau trawiadol. Gorffennwyd adeiladau newydd, mae eraill ar waith a chynllunir ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol. Bydd yr adeiladau hyn yn sicrhau cynnydd sylweddol yng ngallu'r Brifysgol i gynnig hyfforddiant mewn gwyddoniaeth a thechnoleg ar gyfer gradd ac ar gyfer gwaith ar ôl graddio.

Cododd rhif myfyrwyr y gwahanol adrannau gryn dipyn er bod nifer y myfyrwyr disglair yn tueddu i aros yr un. Mae hyn i'w ddisgwyl gan y byddai'r rhain hyd yn oed cyn y rhyfel wedi ennill ysgoloriaeth o ryw fath neu'i gilydd i ddod i'r Brifysgol. Cytunai y rhan fwyaf o benaethiaid adran fod lle yn y Brifysgol i'r myfyriwr cymedrol ei allu, y myfyriwr a allai ennill gradd gyffredin dda. Credai rhai y medrai mwy o ddisgyblion y chweched dosbarth nag a ddeuai i'r Brifysgol yn awr, elwa ar gwrs fel hynny. Ar y llaw arall, credai eraill mai o'r braidd yr oedd rhif y rhai a geisiodd gael eu derbyn ar gyfer cwrs gradd (rhai a chanddynt gymwysterau boddhaol yn hytrach na'r lleiafswm a oedd yn angenrheidiol) yn uwch na rhif y lleoedd a oedd ar gael ar eu cyfer. Mynegodd rhai adrannau eu bod yn fodlon ar ansawdd y myfyrwyr yn eu dosbarthiadau anrhydedd ond cytunent na ellid disgwyl cynnydd mawr yn rhifedi'r categori arbennig hwn a bod tuedd i fyfyrwyr disglair ddal i fynd i'r hen brifysgolion.

Ceir cydweithrediad agos rhwng yr ysgolion a'r Brifysgol sy'n fanteisiol i'r naill a'r llall, yn arbennig i'r plant ysgol ac y mae'n dda gan y Cyngor nodi y cynhelir nifer o gynadleddau i hyrwyddo'r cydweithrediad hwn.

Mae cynnydd yn rhif y myfyrwyr o allu cymedrol a ddaw i'r Brifysgol yn tueddu i beri bod rhif y rhai sy'n methu yn arholiadau'r Brifysgol yn uwch na'r hyn oedd yn y cyfnod cyn y rhyfel. Yr oedd penaethiaid adrannau yn poeni ynglŷn â'r agwedd hon ar dyfiant y Brifysgol ac y maent yn gwylio'r sefyllfa'n ofalus. Fe gytunid yn gyffredinol y byddai'n werth lleihau maes llafur y Dystysgrif Addysg ar y lefel Uwch mewn amryw o'r gwyddorau er mwyn rhoi hêr i allu meddyliol disgybl yn y chweched dosbarth yn hytrach na llwytho ei gof.

Dylid nodi y gall myfyrwyr sy'n graddio mewn gwyddoniaeth bur, os mynnant hynny, gael eu trosglwyddo i adrannau gwyddoniaeth gymhwysol i gael rhagor o hyfforddiant ac i gychwyn ar waith ymchwil. Mae hon yn ffordd i ddechrau ar yrfa gwyddonydd diwydiannol a all yn hawdd ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol. Fe ofelir am gyswllt personol rhwng gwahanol adrannau a diwydiant a rhoddir pob cyfle i'r myfyrwyr ennill profiad pwrpasol mewn diwydiant yn ystod eu gyrfa yn y Brifysgol. I lawer y mae profiad felly yn rhan anhepgorol o'u cwrs.

At y prifysgolion y bydd yr ysgolion a'r colegau technegol yn naturiol yn edrych am gyflenwad di-baid o athrawon a chanddynt gymwysterau boddhaol. Mae'r prinder athrawon mathemateg a gwyddoniaeth eisoes yn effeithio ar ansawdd y myfyrwyr a ddaw i'r prifysgolion ac ar ansawdd y gwyddonwyr a dderbynnir i ddiwydiant. Ni ellir gorbwysleisio difrifoldeb y sefyllfa a dylid delio â'r broblem yn ddi-drugaredd a chyda chryn ddychymyg os am gadw'r safonau rhag gostwng ymhellach fyth.

Ystadegau ynglŷn â Chyrsiau Colegau Prifysgol Cymru mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Gymhwysol

Rhestrir ffigurau parthed nifer myfyrwyr amser-llawn colegau Prifysgol Cymru o 1937-38 i 1957-58 yn atodiad D. Bu cwymp ar ddechrau'r cyfnod; cyrhaeddwyd isafbwynt adeg y rhyfel ac yna dringwyd i uchafbwynt yn 1948-50 drwy ddychweliad cyn-filwyr. Yna bu cwymp hyd 1953-55 a chodiad cyson wedyn hyd 1958. Dyma'r patrwm a ddaw i'r golwg o gyfrif myfyrwyr a oedd yn darllen ar gyfer gradd ym mhynciau gwyddoniaeth a'r celfyddydau. Mewn cyrsiau gwyddoniaeth gymhwysol cododd y nifer o 1937 i 1942, yna cwympodd ychydig cyn codi i uchafbwynt yn 1948-49 gan gwympo eilwaith hyd 1953-54 ac yna godi'n sylweddol.

O gymharu ffigurau sesiwn 1957-58 â sesiwn 1937-38, canfyddir y cynnydd a ganlyn:

Cyrsiau'r celfyddydau—49 y cant; Cyrsiau gwyddoniaeth—163 y cant; Cyrsiau gwyddoniaeth gymhwysol—316 y cant.

Dyma ddosbarthiad o ffigurau y flwyddyn 1957-58:

Prifysgol	Cyfartaledd o'r holl fyfyrwyr yn darllen y celfyddydau (cyn graddio ac ar ôl hynny)	Cyfartaledd o'r holl fyfyrwyr yn darllen gwyddoniaeth (cyn graddio ac ar ôl hynny)	Cyfartaledd o'r holl fyfyrwyr yn darllen gwyddoniaeth gymhwysol (cyn graddio ac ar ôl hynny)
Prifysgol Cymru	37 y cant	30 y cant	12 y cant
Holl Brifysgolion Prydain ynghyd	42 y cant	22 y cant	14·7 y cant

Dangosir y cynnydd yn nifer graddedigion Prifysgol Cymru mewn gwyddoniaeth a gwyddoniaeth gymhwysol rhwng 1938 a 1958 yn y tabl canlynol:

Blwyddyn	Nifer y graddau cyntaf mewn gwyddoniaeth a gwyddoniaeth gymhwysol	Nifer y graddau anrhydedd mewn gwyddoniaeth	Nifer y graddau anrhydedd mewn gwyddoniaeth gymhwysol
1937-38 ...	230	125	10
1947-48 ...	462	160	76
1957-58 ...	493	203	64

Prifysgol Cymru yw un o'r ychydig iawn o brifysgolion sy'n barod i dderbyn cymwysterau'r Dystysgrif Genedlaethol yn lle'r matric arferol. Felly mae'r Brifysgol yn derbyn ceisiadau am dderbyniad, yn enwedig i adrannau peirianneg, o bob rhan o Brydain. Dywed yr adrannau hyn fod y goreuon o'r myfyrwyr a dderbynnir fel hyn gystal yn eu gwaith â'r rhai a ddaw yn union o ysgolion gramadeg. O'r deuddeg gradd anrhydedd dosbarth cyntaf a gyflwynwyd yn ddiweddar gan adrannau peirianneg un o'r colegau, aeth pump i fyfyrwyr a ddaeth o golegau technegol gyda'r Dystysgrif Gyffredinol. Mewn coleg arall, enillwyd tair allan o bump gradd yn y dosbarth cyntaf gan y math yma o fyfyriwr. Y mae'n dda gan y Cyngor nodi llwyddiant y myfyrwyr hyn a gobeithia y bydd i Ddiwydiant a'r Brifysgol ddal ati i gefnogi'r drefn hon.

Gwragedd a Merched yn Dilyn Cyrsiau Colegau Technegol

Cododd nifer y rhain hefyd yn sylweddol rhwng 1948 a 1958 ym mhrif sefydliadan technegol Cymru. Dengys y tabl ar dudalen 77, i'r rhai amser llawn gynyddu o 592 i 1,853, y rhai rhan-amser o 1,011 i 2,630 a rhai dosbarthiadau nos o 9,625 i 10,271. O'r 4,483 a ddilynai gyrsiau dydd yn ystod blwyddyn golegol 1957-58, yn fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser, yr oedd 3,196, sef 1,681 amser-llawn a 1,515 rhan-amser, yn dilyn cyrsiau a weddai yn bendant i alwedigaethau arbennig. O blith y cyrsiau amser-llawn, y ddau grwp mawr oedd cyrsiau masnach (1,175 myfyriwr, 70 y cant) a chyrsiau meddygol cynorthwyol (257 myfyriwr, 15 y cant). O'r cyrsiau rhan-amser (1,515 myfyriwr), yr oedd masnach yn rhoi cyfrif am 565 (37 y cant), pynciau tŷ am 446 (31 y cant), a chemeg am 126 (8 y cant). Yn ôl pob arwydd, bydd cynnydd eto yn nifer y merched a fydd yn dilyn cyrsiau amser-llawn fel y datblygir cyrsiau newydd rhagbaratoawl mewn nyrsio ac arlwyaeth ac fel yr â'r gofyn cynyddol am ychwaneg o hyfforddiant mewn pynciau masnach ar gynnydd.

Dyma ddosraniad o rif y merched a ddilynai gyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a chyrsiau tebyg mewn technoleg ym mhrif sefydliadau technegol Cymru yn sesiwn 1957-58. Dosrennir hefyd yn ôl galwedigaeth rhai ohonynt.

Cwrs	Nifer y Merched	Galwedigaeth	Nifer
B.Sc. (Cyffredinol)	2	Technegwyr labordy	181
O.N.C. (Cemeg)	85	Radiograffwr	19
H.N.C. Cemeg	5	Lluniadures	17
O.N.C. Ffiseg Gymhwysol ...	7	Trêswr	16
A.R.I.C.	14	Cynorthwywr Swyddfa Lluniadu	4
O.N.C. Peirianneg Fecanyddol...	40	Technegwr (Peirianneg Drydanol)	3
H.N.C. Peirianneg Fecanyddol...	1	Peiriannydd Cynorthwyol (Trydan)	2
O.N.C. Peirianneg Drydanol ...	3	Prentis (Peirianneg Drydanol) ...	2
O.N.C. Metaleg	4	Mesurwr Maint Iau	2
O.N.C. Adeiladu	5	Swyddog Gwyddonol (Bwrdd Glo)	2
O.N.C. Defnydd wedi ei wau ...	9	Prentis (Peirianneg Radio) ...	1
Technegwyr labordai meddygol	52	Cyfrifiannwr	1
Llindrêswr	5		
Technegwyr Labordai	8		
Trwsio Teledu	1		
Technoleg Plastig	1		
Radiograffeg	19		
Fferylliaeth	1		
Diploma Peirianneg Drydanol ...	1		
Cyfanrif	263	Cyfanrif	250

Addysg Mewn Pynciau Masnach

Mae mwyafrif y colegau technegol yn cynnig hyfforddiant mewn pynciau masnach megis llaw-fer, teipio a gwaith cyffredinol ysgrifennydd. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith hwn mewn dosbarthiadau nos ond y mae cynnydd o hyd yn nifer y dosbarthiadau amser-llawn i rai rhwng 15 a 17 oed sydd wedi gadael ysgol ond heb gael gwaith. Ychydig iawn o ryddhad i fynychu dosbarthiadau dydd a gafwyd yn gyffredin yn y maes hwn hyd yn hyn.

Dim ond mewn rhai colegau technegol y cynhelir cyrsiau uwch megis y rhai sy'n arwain i Dystysgrifau Cenedlaethol mewn Pynciau Masnach, Diploma mewn Astudiaethau Rheolaeth Gwaith ac arholiadau sefydliadau proffesiynol megis y *Chartered Institute of Secretaries*, yr *Institute of Bankers*, a'r *Association of Certified and Chartered Accountants*. Mewn dosbarthiadau nos y gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith hwn befyd (er yr amlygwyd tuedd bendant i ganiatáu rhyddhad dydd ar gyfer mynychu'r cyrsiau hyn yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf). Y mae adroddiad y Cyngor Ymgyngborol ar Addysg Bellach mewn Masnach (Chwefror 1959) yn annog cynnig rhyddhad dydd yn fwy cyffredinol ac yn awgrymu y dylai rhif presennol y rhai sy'n dilyn dosbarthiadau'r lefel ganolradd mewn dosbarthiadau dydd (tua 20,000) godi i 50,000 erbyn 1964 y fan bellaf. Yr ydym yn cyd-fynd yn fras â hyn.

Ysgolion Technegol Iau ac Uwchradd

Er i'r ysgolion a sefydlwyd trwy Ddeddf Addysg Ganolraddol 1889, gynnwys y gair 'technegol' yn eu henw, ar dir ymarferol ni chafodd yr agwedd hon o'u gwaith fawr o sylw. Yn 1916 yr agorwyd yr ysgol dechnegol iau gyntaf yng Nghymru yng Nghasnewydd o fewn muriau Coleg Technegol Casnewydd. Y flwyddyn ddilynol cydnabuwyd ysgol o'r fath gan y Bwrdd Addysg yng Ngholeg Technegol Caerdydd; yr oedd wedi ei sefydlu rai blynyddoedd cyn hyn. Yr oedd ynddynt ogwydd dechnegol tuag at beirianneg, adeiladu a chrefftau tebyg. Agorwyd ysgol forwriaeth dechnegol iau yng Nghasnewydd yn 1918, ac yn 1921 agorwyd ysgol debyg i 22 o fechgyn yng Ngboleg Technegol Caerdydd, drwy haelioni Syr William Reardon Smith ac eraill. Yr oedd 200 o fechgyn yn y pedair ysgol yn 1922-23 fel y canlyn:

Ysgol Dechnegol Iau Caerdydd...	44
Ysgol Forwriaeth Iau Smith	53
Ysgol Dechnegol Iau Casnewydd	64
Ysgol Forwriaeth Iau Dechnegol Casnewydd ...	39

Agorwyd ysgol dechnegol iau yn y Pentre, Rhondda, yn 1924 gyda 90 o fechgyn. Yn ystod y flwyddyn, caewyd Ysgol Forwriaeth Dechnegol Casnewydd. Arddelwyd dwy ysgol dechnegol iau arall gan y Bwrdd Addysg yn 1926, sef dwy ysgol fasnach, un yng Ngholeg Technegol Caerdydd a'r llall yng Ngholeg Technegol Casnewydd. Yn y chwe ysgol a oedd ar gael yn 1927-28 yr oedd 659 o ddisgyblion.

Agorwyd 14 yn rhagor ohonynt rhwng 1929 a 1937, y rhan fwyaf ohonynt yn y sefydliadau mwyngloddio a thechnegol a godid gan y pwyllgorau addysg lleol gyda chymorth Cronfa Les y Glowyr. (Gweler atodiad E.) Yng Nghaerdydd rhoddwyd pen ar yr ysgolion technegol iau (peirianneg a masnach) yn y Coleg Technegol yn 1931 a disgyblion y rhain oedd cnewyllyn Ysgolion Canolradd newydd Cathays. Trefnwyd meysydd llafur i ateb eu gofynion arbennig hwy. Yn 1937-38 yr oedd 1,521 yn y deunaw ysgol dechnegol iau yng Nghymru.

Rhoddwyd iddynt enw newydd—Ysgolion Technegol Uwchradd—ar ôl Deddf Addysg 1944. Aeth eu nifer ar gynnydd, ac yn 1947, yr oedd 24 ohonynt yng Nghymru, 19 i fechgyn (gyda 2,295 disgybl), 1 i ferched (gyda 99 disgybl) a 4 i fechgyn a merched gyda'i gilydd (679 o fechgyn a 277 o ferched). Yr oedd ynddynt, felly, 3,350 o ddisgyblion. Er 1947 agorwyd dwy yn ychwaneg ond caewyd wyth. Ymddengys yn awr y daw rhwng chwech a deg arall i ben eu rhawd yn y pum mlynedd nesaf. Ym mhob achos ymron, y rheswm am hyn yw newid polisi ysgolion gramadeg ac ysgolion modern yr ardal. Byddant yn derbyn dwy ffrwd o ddisgyblion a thrwy hynny'n cofleidio gwaith ysgolion technegol ac yn newid i fod yn ysgolion gramadeg-technegol neu yn ysgolion modern-technegol.

I bob un ond pedair o'r ysgolion uwchradd technegol sydd ar gael yn awr, derbynnir plant yn dair-ar-ddeg oed ar sail arholiad ysgrifenedig. Yng Nghaerdydd, y Drenewydd ac yn Abertawe, derbynnir plant yn un-ar-ddeg oed ar sail arholiad '11+.' Mae llawer yn gadael yn bymtheg oed ond bydd rhai sydd am baratoi ar gyfer arholiadau yn aros ymlaen nes eu bod yn un-ar-bymtheg neu fwy. Cynhelir arholiadau y Dystysgrif Dechnegol Uwchradd mewn peirianneg, adeiladu a masnach. Arholiadau mewnol ydynt, gyda chymedrolwyr allanol a sicrheir gan y dystysgrif, rhyddhad, mewn rhai amgylchiadau, o arholiad S.1 y Dystysgrif Genedlaethol yn y pwnc.

Dyma ystadegau perthnasol i'r arholiad bwn yn 1958:

Tystysgrif	Nifer yn cynnig	Nifer llwyddiannus	Cyfartaledd llwyddiant
Peirianneg	305	169	55·0
Adeiladu...	16	12	75·0
Masnach...	6	2	33·3
Gwyddoniaeth	32	21	65·6

Y mae rhai o'r ysgolion technegol uwchradd byn yn paratoi'r disgyblion sy'n fwy galluog na'r cyffredin ar gyfer Arholiad lefel Gyffredinol y *G.C.E.* ac y mae pedair ohonynt yn paratoi ar gyfer y lefel Uwch befyd. Yn ddiweddar, enillodd un o'r disgyblion Ysgoloriaeth y Wladwriaetb. Y mae llawer disgybl a fu'n llwyddiannus yn arholiadau lefel Gyffredinol y *G.C.E.* wedi eu symud i ysgolion gramadeg er mwyn paratoi ar gyfer arholiadau'r lefel Uwcb.

Diau y bydd y duedd bresennol i ddatblygu ysgolion gramadeg technegol dwy-ochrog yn peri i blant yn y ffrwd dechnegol gael eu paratoi ar gyfer arholiad lefel Gyffredinol y *G.C.E.* Os mai felly y bydd, fe fydd llai o ofyn am y Dystysgrif Dechnegol Uwchradd. Yr un pryd, bydd nifer o feysydd llafur newydd yn arholiad Gyffredinol y *G.C.E.* a fydd yn rhoi mwy o le i wedd ymarferol amryw o bynciau.

PENNOD II

Y Cefndir Diwydiannol

Datblygiadau Cynnar Diwydiant Haearn, Platiau Alcam a Glo

Ychydig weithio diwydiannol ar raddfa eang a welwyd yng Nghymru cyn canol y ddeunawfed ganrif. Tynnodd y galw am baearn yn ail hanner y ganrif haearnwyr o Saeson i flaenau cymoedd y de ddwyrain lle y ceid carreg haearn, carreg galch, coed a dŵr yn cydorwedd gyda digonedd o lo. O'r ardal hon, lledaenodd gwaith cynhyrchu haearn i froydd eraill yn Ne Cymru ac yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd De Cymru gyda'r canolfannau cynhyrchu haearn mwyaf yn y byd.

Tua chanol y ganrif, dechreuodd dur gymryd lle haearn gyr a haearn bwrw a chan nad oedd yn bosibl newid dulliau'r hen weithiau haearn, bu raid eu cau. Felly bu llai o gyfle i gael gwaith yn y diwydiant haearn, ond daeth cyfle newydd yn y glofeydd a oedd yn tyfu'n gyflym. Yn 1720, dyfeisiodd Hanbury ffyrdd newydd o rolio platiau haearn a daeth ardal Pont-y-pŵl yn ganolfan gwneud platiau alcam ac erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd y diwydiant hwn wedi ei sefydlu yn llawer mwy eang, yng Nghaerdydd, Casnewydd, y Forest of Dean ac yn rhan orllewinol De Cymru.

Bu newid hefyd yn y diwydiant glo, yn arbennig ddefnyddio golosg glo yn lle coed i doddi haearn. Tynnodd y diwydiannau glo, dur a phlatiau alcam lawer o weithwyr o ardaloedd amaethyddol cyfagos yng Nghymru a De Orllewin Lloegr, ac, erbyn dau-ddegau'r ganrif bresennol, yr oedd yn Ne Cymru boblogaeth ddiwydiannol fawr yn dibynnu am eu bara ar waith cynhyrchu a chario glo, dur a phlatiau alcam.

Y Dirwasgiad Diwydiannol

Bu galw mawr am lo a dur drwy gyfnod y rhyfel byd cyntaf, a blodeuodd y diwydiannau hyn yn Ne Cymru fel ym mhobman arall. Ar ddechrau'r dau-ddegau y cychwynnodd nychdod y fasnach allforio, yn arbennig mewn glo. Daeth diweithdra eang i Dde Cymru. Yn 1923, cyflogid 52 y cant o'r gweithwyr yswiriedig yn y diwydiant glo ond erbyn 1935 yr oedd y rhif hwn wedi cwympo i 37 y cant. Trwy gydol y cyfnod rhwng y ddau ryfel, yr oedd cyfartaledd diweithdra De Cymru yn ddwywaith cymaint â chyfartaledd Prydain gyfan; yr oedd 3 o bob 10 heb waith. Mewn rhai ardaloedd glofaol yr oedd un o bob dau felly.

Yn y dau-ddegau a'r tri-degau ymfudodd llawer iawn o Gymry a'u teuluoedd i ardaloedd llewyrchus yn Lloegr, yn arbennig i'r canoldir ac i gyffiniau Llundain. Amcangyfrifir i ryw 400,000 fynd rhwng 1921 a 1938.

Arweiniodd y dirwasgiad i'r hyn y gallwn ei alw yn Ail Chwyldro Diwydiannol. Gwreiddyn y dirwasgiad oedd llwyr ddibyniaeth economaidd ar ychydig ddiwydiannau trymion. Y feddyginiaeth a'r warant rhag dyfod dirwasgiad o'r un math eto oedd sefydlu diwydiannau newydd amrywiol. Dangoswyd hyn yn glir mewn archwiliad diwydiannol gan Goleg y Brifysgol, Caerdydd yn 1931.

Deddf Ardaloedd Arbennig

Yn 1934 daeth De Cymru, ymhlith ardaloedd dirwasgedig eraill ym Mhrydain, yn rhan o faes cyfrifoldeb Comisiynwr Ardaloedd Arbennig. Ei dasg oedd arfer 'moddion i gynorthwyo datblygiad economaidd a gwelliant cymdeithasol' yr ardaloedd arbennig hyn gyda chymorth cronfa a ddarparwyd dan Ddeddf yr Ardaloedd Arbennig. Un o ganlyniadau ei ymdrechion oedd sefydlu ystad fasnach yn Nhrefforest, ryw saith milltir o Gaerdydd. Adeiladwyd yno ffatrïoedd modern i'w gosod i ddiwydianwyr a oedd rhy llwm eu cyfalaf i wynebu'n hawdd adeiladu'n breifat. Cychwynnwyd adeiladu tua diwedd 1936 ac agorwyd y ffatrïoedd cyntaf yn haf 1937. Yr oedd dros hanner cant o ffyrmiau yno erbyn 1939, llawer ohonynt yn ddiwydianwyr wedi eu herlid o'u gwledydd eu hunain ar y cyfandir. Daethant â dulliau newydd i gynhyrchu nwyddau newydd gan hyfforddi eu gweithwyr, tua 2,000 ohonynt, mewn llawer medr a thechneg newydd.

Yn ychwanegol at ystad Trefforest, agorwyd ffatrïodd bob yn un ac un mewn ardaloedd fel Dowlais, Treorci, Llantarnam, Cwmbrân, Pont-y-pŵl, Caerffili ac

Aberdâr. Cynhyrchwyd ynddynt nwyddau yn amrywio o hosanau sidan a botymau pren i wydr plât a chablenni trydan. Yn y Gogledd, ni bu cynnydd diwydiannol ac eithrio ar lannau Dyfrdwy. Yno, cynyddodd y diwydiant defnydd gwau fel yr enillodd reon ei blwyf. Hefyd, tyfodd cynhyrchu platiau dur yno i gyfateb i'r tyfiant yng ngwaith newydd enfawr Glynebwy yn y De.

Adferiad Cyfnod y Rhyfel

Yr oedd mwy na 100,000 heb waith yng Nghymru yn 1939, sef 15 y cant o'r boblogaeth yswiriedig. Ond prysurodd y rhyfel adferiad economaidd. Daeth galw eto am lo a dur, codwyd ffatrïoedd arfau brenhinol a symudwyd cryn lawer o weithiau i Gymru o ardaloedd mwy peryglus. Erbyn 1943, blwyddyn uchafbwynt cynhyrchu'r rhyfel, yr oedd 130,000 o leiaf o Gymry, yn ddynion a gwragedd, yn gweithio yn eu gwlad eu hunain mewn ffatrïoedd newydd a godwyd oblegid y rhyfel. Yr oedd digon o waith am y tro cyntaf ers chwarter canrif.

Dathlygiadau wedi'r Rhyfel dan nawdd y Ddeddf Dosharthu Diwydiant

Wedi dyfod heddwch yn 1945, collwyd llawer o'r gwaith a dyfodd adeg y rhyfel ac ymddangosodd diweithdra eto yn 1946. Cymerodd Deddf Dosbarthu Diwydiant 1945 le deddfwriaeth yr Ardaloedd Arbennig, a rhoddwyd i'r Bwrdd Masnach y dasg o oruchwylio ail-lunio diwydiant. Nodwyd ardaloedd lle y gellid rhagweld diweithdra difrifol fel Ardaloedd Datblygu, ac, yn ôl y Ddeddf, rhoddwyd i'r Bwrdd Masnach ac i adrannau eraill o'r Llywodraeth yr hawl i godi yn yr ardaloedd hyn ffatrïodd i'w gosod yn rhad i ddiwydianwyr. Ceisiwyd hefyd lesteirio tyfiant pellach diwydiant mewn bröydd gorlawn megis Llundain a Chanolbarth Lloegr trwy wahardd hyd y flwyddyn 1953 godi adeiladau newydd heb drwydded. Haws oedd cael trwydded i adeiladu mewn ardaloedd dathlygu nag mewn ardaloedd gorlawn. Rhaid oedd hefyd i ddiwydianwyr a oedd yn bwriadu adeiladu roi gwybod i'r Bwrdd Masnach. Felly rhoddwyd siawns i'r Bwrdd egluro manteision a gofynion yr Ardaloedd Datblygu i bob un ohonynt.

Newidiwyd y ddwy ffatri Arfau Brenhinol yng Nghymru, y naill yn Hirwaun a'r llall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i fod yn ystadau masnach. Felly'n union gydag un lai yn Wrecsam, ac adeiladwyd ystad fasnach newydd sbon yn Fforestfach, ger Abertawe. Dosbarthwyd llawer o sefydliadau rhyfel llai y Llywodraeth rhwng diwydianwyr. Trwy hyn a hefyd trwy adeiladu ffatrïoedd newydd ar gost y Llywodraeth ar safleoedd arbennig hwnt ac yma, cywirwyd i raddau helaeth, brinder adeiladau diwydiannol a gostyngwyd diweithfdra i lefel isel erbyn dechrau'r pum-degau.

Yr oedd Ystadegau Diwydiannol Cymry a Mynwy Cyf., wedi adeiladu ac addasu 13,838,723, o droedfeddi sgwâr o lawr ffatri erbyn 1959. Sefydlwyd y corff hwn yn 1936 dan nawdd Comisiynwr yr Ardaloedd Arbennig a thrwy Ddeddf Dosbarthu Diwydiant 1945 daeth i weithredu fel cynrychiolydd y Bwrdd Masnach. Cyflogai'r 343 o ffyrmiau diwydiannol a ddaliai'r ffatrïoedd hyn tua 61,000 o bersonau. Yr oedd 932,000 troedfedd sgwâr yn rhagor o lawr ffatri ar waith gan yr adeiladwyr yng Ngorffennaf 1959.

Yn ogystal â'r newid a ddilynai'r cyfle a roddwyd i gael gwaith mewn gwneud nwyddau amrywiol o fath newydd, gwelodd blynyddoedd wedi'r rhyfel newid dirfawr hefyd yn yr hen ddiwydiannau, sef y diwydiant glo a dur a phlatiau alcam.

Datblygiadau wedi'r Rhyfel yn y Diwydiant Glo

O ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tyfodd y diwydiant glo yn gyson nes cyrraedd pen-llanw yn 1913 yng Nghymru. Yn y flwyddyn honno, trwy lafur 275,000 ym meysydd glo De Cymru, cloddiwyd tua 57 o filiynnau o dunelli o lo ac allforiwyd tua 35 o filiynnau o'r rhain. Erbyn 1946, cwympodd nifer mintai'r llafurwyr i tua 100,000 a'u cynnyrch i 20 o filiynnau o dunelli; collwyd y fasnach allforio bron yn llwyr. Cenedlaetholwyd y diwydiant glo yn 1947; lluniwyd rhaglen dros bymtheng mlynedd i ail-drefnu'r diwydiant yng Nghynllun 1950 y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Yn 1956 adolygwyd y sefyllfa gyffredinol mewn cyhoeddiad arall—'Buddsoddi mewn Glo'—ac yn hwn hysbyswyd bwriad y Bwrdd Glo i wario £1,000,000,000 hyd 1965 i ail-drefnu pyllau Prydain. Yr oedd y ddegfed ran o hyn wedi ei neilltuo ar gyfer meysydd glo De Cymru, mwy nag ar gyfer unrhyw faes glo arall ym Mhrydain.

Eisoes, dan y cynlluniau newydd, y mae dros 70 o byllau De Cymru wedi eu cau, pyllau lle yr oedd codi'r glo yn ôl barn y Bwrdd yn rhy ddrud. Cychwynnwyd pyllau newydd a diwygiwyd dulliau gwaith rhai eraill drwy ddefnyddio cloddio gorwel a thechnegau modern eraill. Peirianeiddiwyd y pyllau yn fwyfwy, i wneud y cloddio a'r cludo'n haws; crynhowyd gweithwyr i'r mannau gorau i gael yr elw mwyaf o ddyn a pheiriant; dyfeisiwyd cynlluniau i dderbyn a hyfforddi'r ifanc mewn maes glo a redwyd am flynyddoedd ar lafur rhai hŷn. Bwriedir codi cynnyrch y maes i 26 o filiynnau o dunelli erbyn 1965. Yn 1958, cloddiwyd 23,280,000 tunnell ym maes glo De Cymru a 2,470,000 ym maes Gogledd Cymru; amcangyfrifwyd bod 119,550 o weithwyr yswiriedig ym meysydd y De a'r Gogledd, sef lleihad o 14,580 er 1948.

Cynhyrchu Dur a Phlatiau Alcam wedi'r Rhyfel

Y mae dulliau cynhyrchu dur a phlatiau alcam wedi eu gweddnewid er y rhyfel trwy ddyfodiad melinau strip di-dor a pheiriannau rhydwytho oer. Y mae gweithiau dur a phlatiau alcam enfawr Cwmni Dur Cymru ym Margam (Aberafan), Trostre (Llanelli) a Felindre (ger Abertawe) gyda'r datblygiadau unigol mwyaf yn Ewrop er y rhyfel. Yn y canolfannau dur, Glynebwy, Dowlais, Caerdydd a Chasnewydd a Glannau Dyfrdwy, y mae cynlluniau moderneiddio ar waith neu wedi ei gorffen. Yn 1958, cyflogwyd 59,626 yn y diwydiant dur a haearn (heb gyfrif platiau alcam), cynnydd o 32·4 y cant er 1948. Heb gyfrif platiau alcam eto, cynhyrchwyd 9,111,041 tunnell o ddur a haearn yn 1958, cynnydd o 83·6 y cant er 1948. Yn 1958, daeth 89 y cant o gynnyrch Prydain o ddur llafn o Dde Cymru, 21 y cant o blatiau dur a 29 y cant o ddur amrwd.

Rhwng y ddau ryfel, bu newid sylweddol yn nhrefn y diwydiant platiau alcam gan i nifer o gwmnïau bach, a arferai weithio ar wahân gyfuno. Cychwynnodd melin strip llydan gyntaf Prydain ar waith yng Nglynebwy yn 1938, a dyma, ynghyd â melinau rhydwytho oer i wneud sitennau a phlatiau alcam, oedd dechrau diwedd defnyddio yr hen ddulliau traddodiadol o wneud platiau alcam. Erbyn hyn, y mae'r hen felinau llaw bron wedi llwyr ddiflannu. Ni allent gyd-fyw â gweithiau enfawr Margam, Trostre a Felindre a gweithiau eraill a ehangwyd. Y mae'r dulliau newydd wedi codi maint y cynnyrch yn sylweddol, er cyflogi llai o weithwyr. Rhwng 1948 a 1958 cododd cynnyrch platiau alcam 44·8 y cant i 1,036,200 tunnell y flwyddyn ond cwympodd nifer y gweithwyr 41·5 y cant i 9,910. Daeth 99 y cant o blatiau alcam Prydain o Gymru yn 1958.

Alwminiwm ac Aloeon Ysgafn

Yn fuan ar ôl i waith toddi alwminiwm cyntaf Prydain ddechrau ar waith yn yr Alban, codwyd gwaith tebyg yn Nolgarrog ger Conwy a dechreuwyd toddi alwminiwm a chynhyrchu llen-fetel yno yn 1908. Felly y bu hyd ail hanner y tri-degau pryd y tyfodd y galw am offer alwminiwm ac y bu symud ymlaen yn Ne Cymru. Fel y llyncai arfau rhyfel fwy o'r metal ac o'i aloeon, cododd y cynnyrch ac erbyn diwedd y rhyfel yr oedd chwe gwaith alwminiwm wedi codi yn Ne Cymru. Erbyn hyn, y maent oll wedi ehangu a chyda'r mwyaf llewyrchus ym Mhrydain. Cynyddodd y galw am alwminiwm a'i aloeon ar ôl y rhyfel—o 1948 i 1958 cododd cynnyrch Cymru 63 y cant i 86,787 tunnell, 40 y cant o holl gynnyrch Prydain.

Peirianneg

Tyfodd y diwydiannau ysgafn peirianegol hefyd ar ôl y rhyfel, gan gynnwys peirianneg drydanol. Cychwynnwyd rhai ffatrïoedd newydd i wneud offer tai a chegin ac y mae rhagor yn cael eu codi yn awr. Y mae un cwmni offer trydan a ddechreuodd weithio yn Ne Cymru gyda 30 o ddynion yn 1941 yn awr yn cyflogi 1,800 ac yn derhyn 80 prentis y flwyddyn. Cyflogir 3,500 gan ddau gwmni gwneud offer tŷ a chegin a ddaeth i Gymru ar ôl y rhyfel. Yn y Gogledd Ddwyrain, newydd ddyfodiad pwysig yw'r diwydiant gwneud awyrennau. Cychwynnwyd yn 1948 gyda 120 o weithwyr ond yn awr cyflogir dros 5,000.

Diwydiannau Cemegol a'u Tebyg

Tyfodd y diwydiannau hyn yn rhyfeddol yng Nghymru yn yr ugain mlynedd diwethaf. Yn 1937, yr oedd eu mintai waith dipyn yn llai na 10,000 ond erbyn 1948 cododd i 19,700 ac i 25,110 yn 1958. Bu gweithiau mân, yma a thraw, yn gwneud cemicalau yng Nghymru ers canrif ond yn ddiweddar y tyfodd y mân weithiau yn ddiwydiant pwysig a llewyrchus. Er 1945, tyfodd yr hen weithiau a chychwynnwyd llawer gwaith newydd. Y mae un ohonynt yn ymledu dros gan cyfer o dir yn y Barri ym Morgannwg ac yn un o'r ffatrïoedd plastig crai mwyaf ym Mhrydain. Gan fod dulliau cemegol yn gwreiddio'n ddyfnach o hyd yng nghraidd poh math o ddiwydiant hron, mae'n dehyg y dyry y diwydiant cemegol gadernid cynyddol i drefn ddiwydiannol Cymru.

Dechreuwyd puro olew yn Llandarcy ger Castell-nedd yn 1922, mewn purfa fawr, y gyntaf ym Mhrydain i drin olew amrwd. Yn y dau-ddegau cynnar, gweithiai'r hurfa yn rhannol ar olew amrwd ac yn rhannol ar olew hanner coeth a gludwyd o Bersia i'w ail-ddistyllu'n hylif pur megis gwirod modur a cherosîn. Yn ddiweddarach, codwyd gwaith i gynhyrchu gwell gwirod modur a mwy ohono a hefyd gwaith i gynhyrchu olew iro. Yn 1939, cynhyrchai'r hurfa tua 360,000 tunnell y flwyddyn. Ar ôl y rhyfel i ateb gofynion cartref cynyddol, ehangwyd i drin 2,500,000 tunnell o ddefnydd crai y flwyddyn a chodwyd hyn eto i 3,000,000 tunnell. Gweithiaï 2,500 yno o gymharu â 1,000 ar ddechrau'r rhyfel. Y mae cynlluniau puro ac ystorio olew yn Aherdaugleddau yn mynd i achosi codi eto gynnyrch a nifer gweithwyr y diwydiant hwn.

Y Diwydiant Defnydd Gwau

Erbyn hyn y mae 1·7 y cant o holl weithwyr Cymru yn y diwydiant hwn. Y mae'r diwydiant hwn wedi gweld cymaint tro ar fyd ag un yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf yn wyneh dathlygu'r amrywiaeth o edefyn gwneud. Yn 1958 yr oedd 11,500 (70 y cant) o weithwyr y diwydiant gwau yn nyddu a gwau edefyn gwneud a dim ond 730 yn trin brethyn gwlân. Mae hyn yn arwydd o'r newid a'r tyfiant. Erbyn hyn y mae'r diwydiant yn llanw 4,500,000 troedfedd sgwâr o lawr ffatri.

Y Newid yn ystod yr Ugain Mlynedd Diwethaf

Mae treigliad ugain mlynedd wedi gweld lleihau'n gyson gyfartaledd llafurwyr diwydiannau trwm, glo, dur, haearn, a chodi nifer llafurwyr diwydiannau gwneud nwyddau. Yn atodiad G. rhoddir amcangyfrif o'r manylion. Dyma yn awr rai enghreifftiau o fesur y cynnydd yn nifer y gweithwyr:

> Peirianneg adeiladu, 96 y cant; gwneud setiau derbyn darlledu a theledu, 162 y cant; gwneud a thrwsio clociau a watsis, 128 y cant; gwneud rhwber, 579 y cant; cynhyrchu pwer trydan, 70 y cant; trwsio ceir a gwaith garej, 30 y cant; gwneud papur, 47 y cant; masnach dosbarthu, 13 y cant; gwasanaethau proffesiynol, 31 y cant.

Cyn yr ail ryfel byd, enillai tua 40 y cant o weithwyr yswiriedig Cymru eu bywoliaeth yn y diwydiannau trymion a thua 12 y cant mewn diwydiannau cynhyrchu. Yn 1948, y ddau ffigur oedd 22 a 20 y cant, yn 1958 21 a 24 y cant. Felly cyn y rhyfel ceid tri mewn diwydiant trwm am bob un mewn diwydiant cynhyrchu ond yn 1958 yr oedd mwy yn gweithio ar waith cynhyrchu nag yn y diwydiannau trymion. Y mae cynnydd y diwydiannau cynhyrchu, sydd yn awr yn rhoi ei fara beunyddiol i bron un o bob pedwar o weithwyr Cymru, yn arwydd o lwyddiant polisi'r Ardaloedd Arbennig a'r Ardaloedd Datblygu.

Yn yr un cyfnod edwinodd rhai o'n diwydiannau, yn arbennig gwaith adeiladu, y diwydiant llechi a masnach y dociau. Mewn adeiladu cyflogwyd 79,480 yn 1938, 66,030 yn 1948 a 62,060 yn 1958. Yn y chwareli llechi gweithiai 8,490, 4,680 a 3,330 yn yr un blynyddoedd hyn a gostyngodd eu cynnyrch o 219,000 tunnell i 106,000 tunnell ac i 69,000 tunnell. Triniwyd 24,790,000 tunnell o nwyddau yn nociau mwyaf Cymru yn 1938, cwympodd i 13,461,000 tunnell yn 1948 ond cododd i 16,934,000 tunnell yn 1958, yn bennaf oblegid cynnydd ym masnach dociau Abertawe.

Yn yr un tair blynedd, dyma ffigurau masnach y porthladdoedd mewn glo ac olew sef 19,433,000, 6,752,000, 3,444,000 tunnell o lo a 524,000, 1,241,000 a 3,830,000 tunnell o olew. Erbyn hyn, felly, cludir mwy o olew nag o lo trwy borthladdoedd Cymru.

Rhan Gwragedd mewn Diwydiant

Cymerodd gwragedd Cymru ran sylweddol yn nhyfiant diwydiannol yr ugain mlynedd olaf hyn. Pan gyrhaeddodd cynhyrchu rhyfel ei uchafbwynt, yr oedd 125 y cant o wragedd yn fwy na chyn y rhyfel yn gweithio yng Nghymru. 30 y cant oedd cyfartaledd cyfatebol Prydain ben baladr. Creodd gofynion rhyfel felly fintai waith o wragedd Cymru sydd yn llawer mwy na chyn y rhyfel. Yn 1937, dim ond dwy wraig a geid ymhlith pob 17 o weithwyr yswiriedig Cymru ond yn 1958 ceid dwy o bob saith. Pwysig nodi fod y cynnydd yng nghyfanrif gweithwyr yswiriedig Cymru rhwng 1948 a 1958, sef 32,470, yn cynrychioli cwymp o 1,780 o ddynion ar y naill law, a chynnydd o 34,250 o wragedd ar y llaw arall.

Yr oedd cyfanrif y gwragedd a oedd mewn gwaith yswiriedig yng Nghymru yn 1958 yn 269,000 o blith 952,000 o weithwyr yswiriedig. Dyma fel y rhannwyd y nifer hwn rhwng gwahanol adrannau diwydiant. Dengys y ffigur mewn cromfachau gyfartaledd y gwragedd yn y diwydiant arbennig hwnnw:

> diwydiannau gwneud nwyddau, 70,000 (31 y cant); gwahanol wasanaethau, 51,600 (76 y cant); masnach ddosbarthu, 50,400 (54 y cant); gwasanaethau proffesiynol, 50,000 (66 y cant); Llywodraeth Genedlaethol a lleol, 16,400 (25 y cant).

Er yr holl gynnydd, amharod yw diwydiant i gynnig i ferched holl gyfle a gobaith bechgyn sy'n fedrus fel crefftwyr, technegwyr neu dechnolegwyr. Er enghraifft, y mae'r diwydiant cemegol, a'i debyg, yn derbyn merched cymwys fel technegwyr labordai neu gynorthwywyr mewn labordai ymchwil, ond ychydig o siawns a gobaith sydd iddynt godi i swyddi cyfrifol fel rheolwyr neu arolygwyr. Yn y diwydiant peiriannol derbynnir rhai merched fel lluniadwyr neu dreswyr. Ychydig iawn o sylw difrifol a roddwyd hyd yma i dderbyn merched gyda'r bwriad o'u paratoi ar gyfer cymwysterau proffesiynol mewn peirianneg.

Mewn cyfnod o gryn siarad am brinder rhai cymwys mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i ateb gofynion diwydiannau sy'n ehangu ac adrannau gwyddonol y llywodraeth, oni ddylid rhoi mwy o sylw i'r stôr o allu gwyddonol a thechnolegol sydd eto heb ei ddatblygu ymhlith merched? Er bod rhai meistri gwaith yn barod i gynnig i ferched yr un cyfle ag i fechgyn i fynychu colegau technegol i ennill cymwysterau technegol, mae'n amheus a yw hyd yn oed y rhain yn annog merched o ddifrif i gymryd y camre hyn.

Mae'n debyg mai un rheswm am agwedd fel hon, sydd heb fod yn frwd nac yn oer, yw'r 'gwastraff' o safbwynt diwydiant sydd yn dilyn priodi. Dywedodd un diwydiannwr wrth y Cyngor mai cyfartaledd hyd oes merch mewn diwydiant oedd tair blynedd ac am hynny fod gwario arian ar gynlluniau i hyfforddi merched yn wario i bwrpas ansicr. Barn gibddall yw hon yn sicr. Canys y mae'n debyg y byddai llawer merch yn ail-gydio mewn gwaith proffesiynol ar ôl i'w phlant dyfu fel y mae gwragedd priod yn awr yn ail-ddechrau fel athrawesau ysgol.

Efallai nad yw'r merched eu hunain yn awyddus i geisio gwaith medrus a chyfrifol mewn diwydiant, gwaith sydd yn gofyn prentisiaeth a hyfforddiant, oblegid y gred draddodiadol mai lle dynion yw uchelfannau diwydiant. Gwir hyn yn arbennig felly yng Nghymru oblegid hyd yn ddiweddar diwydiannau trymion oedd yma heb lawer o le ynddynt i wragedd. Erbyn hyn y mae gwell cyfle ac y mae mwy o wragedd mewn gwaith diwydiannol. Ond o hyd y mae eu hagwedd at eu gwaith yn aros yn wahanol i agwedd arferol dynion o gyraeddiadau tebyg. Y mae dyn ieuanc yn disgwyl ac yn bwriadu dod yn ei flaen mewn diwydiant. Y mae'r rhan fwyaf o ferched ieuanc yn fodlon ar lanw amser. Credwn ni y gellid newid eu hagwedd o newid yn gyntaf y farn gyffredinol ddi-sylwedd a rhagfarnllyd honno sydd yn tybio na all merched elwa ar addysg wyddonol a thechnegol gan gymryd yn ganiataol fod merched yn astudio pynciau'r Celfyddydau gyda mwy o lwyddiant na phynciau Gwyddonol. Ond yn bwysicach na dim, fe ddigwyddai'r newid hwn pe ceid llawer iawn mwy o athrawon o radd uchel mewn gwyddoniaeth a mathemateg mewn ysgolion merched. Yn ddios, y mae prinder a diffyg athrawon addas mewn gwyddoniaeth a mathemateg mewn ysgolion gramadeg i ferched wedi peri i nifer y merched sydd yn dilyn y cyrsiau yma i lefel Gyffredinol a lefel uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol aros yn isel. Yn atodiad N, gwelir fod chwe gwaith cymaint o fechgyn ag o ferched wedi eistedd Arholiad Uwch y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig yn 1958 mewn mathemateg a ffiseg. Gellid gwella tipyn ar hyn pe ceid gwell cydweithrediad rhwng ysgolion gramadeg i fechgyn a rhai i ferched mewn ardaloedd cyfagos lle y byddai'n gyfleus i uno dosbarthiadau'r chweched dosbarth yn y pynciau hyn ac o bosibl mewn pynciau eraill hefyd.

Os oes datblygu i fod ar y ffynhonnell hon o allu gwyddonol a thechnolegol i ateb gofynion y wlad, bydd yn rhaid i ddiwydianwyr newid eu ffyrdd a'u holl agwedd ynglyn â derbyn gwragedd a merched. Bydd yn rhaid i ysgolion hefyd annog rhagor o ferched i ddarllen mathemateg a gwyddoniaeth fel eu prif bynciau, yn enwedig merched â'u bryd ar fod yn athrawon.

Yr Angen am fwy o Amrywiaeth

Gwelodd yr ugain mlynedd diwethaf hyn, felly, newid llwyr yng nghorff diwydiannol Cymru. Ail-wampiwyd diwydiannau glo, dur a phlatiau alcam a'u dwyn i gyflwr newydd effeithiol a modern, ac ychwanegwyd atynt lu o ddiwydiannau gwneud, sydd trwy eu hamrywiaeth yn cryfhau economi'r wlad. Pe gellid amrywio mwy, drwy ddenu diwydiant sydd â lle go fawr ynddo i lafur medrus, megis gwneud moduron ac awyrennau, byddai'r economi ar sail dipyn cadarnach.

Gellir cefnogi hyn nid yn unig ar sail economaidd ond hefyd ar sail gymdeithasol. Canys nid yw Cymru'n brin o ddynion a chanddynt grefft a medr—yn hytrach cynigir cyfle rhy brin i'r rhain fyw eu bywyd yng Nghymru. Gyda mwy o amrywiaeth diwydiannol, gallai'r ieuainc a feddai'r gallu i dderbyn hyfforddiant fel technegwyr a thechnolegwyr ddisgwyl gwaith yng Nghymru heb orfod ymfudo i chwilio amdano. Canlyniad hyn yn awr yw fod Cymru'n colli nid yn unig fedr a gallu ond arweinwyr naturiol amrywiol gylchoedd ei bywyd, anadl einioes ei chymdeithas.

Y mae llawer wedi cymryd rhan yn y gwaith a wnaethpwyd eisoes i lywio'r ail Chwyldro Diwydiannol hwn; Adrannau arbennig o'r Llywodraeth; Awdurdodau Lleol; Aelodau Seneddol a chyrff fel Bwrdd Diwydiant Cymru, Cymdeithas Ddiwydiannol Cymru a Mynwy, Pwyllgor Cenedlaethol Datblygu Diwydiannol Cymru a Mynwy a Chyngor Datblygu Economaidd Cymru.

PENNOD III

Patrwm Addysg Dechnegol Heddiw

Y mae diwydiant yn datblygu'n fwy-fwy cymhleth a dulliau'n newid dan bwys cyson techneg newydd. Am hynny rhaid wrth weithwyr ystwyth eu gallu i feistroli'r newid. Bydd newid dulliau cynhyrchu, megis trwy automatiaeth, o bosibl yn gofyn am ad-drefnu'r fintai waith. Mae mecaneiddio ac automatiaeth yn lleihau'r galwad am waith peiriannol, digyfnewid sy'n cael ei wneud yn bennaf gan weithwyr anfedrus neu lled-fedrus. Ar y llaw arall, y mae'r peiriannau eu hunain yn gofyn am grefftwyr medrus i'w trin a'u trwsio. Am hynny, tuedd y datblygiad yma yw codi'r gofyn am weithwyr medrus ar draul y gofyn am rai anfedrus. Ar lefel uwch, rhaid i'r peirianwyr a'r gwyddonwyr sydd yn llunio a datblygu'r peiriannau cymhleth wrth fedr a dyfais arbennig iawn. Felly pwysig odiaeth yw i gyfansoddiad y fintai waith adlewyrchu cydbwysedd teg rhwng ymchwil, datblygu a chynhyrchu. A dylai trefn addysg roi sicrwydd, hyd y gall system roi sicrwydd, fod gweithwyr diwydiannol yn ddigon ystwyth eu gallu i feistroli'r newid mewn techneg ac mewn dulliau cyffredinol.

Y mae categorïau gwahanol o weithwyr medrus mewn diwydiant. Dyma'r dosbarthiad arferol:

technolegwr, technegwr, crefftwr, gweithydd.

Rhoddwyd llawer cynnig ar ddiffinio'r categorïau hyn. Rhaid i ninnau, er mwyn bod yn glir, sylwi'n fanwl ar y gwahanicaethau rhyngddynt. Felly nodwn ddiffiniadau'r Papur Gwyn ar Addysg Dechnegol o dechnolegwr a thechnegwr.

> ‘Bydd gan *dechnolegwr* gymwysterau a phrofiad o'r safon sy'n angenrheidiol i fod yn aelod o sefydliad proffesiynol. Bydd y rhan fwyaf o raddedigion prifysgol mewn peirianneg a gwyddorau ymarferol eraill a chyfran dda o rai a enillodd Ddiploma neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch neu gymwysterau tebyg, yn dyfod yn dechnolegwyr. Mae technolegwr wedi astudio egwyddorion sylfaenol ei dechnoleg ddewisol a dylai fedru defnyddio'i wybodaeth a'i brofiad i roi datblygiadau ymarferol ar droed. Disgwylir iddo dderbyn cyfrifoldeb go fawr ac yn aml ehangu terfynau gwybodaeth yn ei faes arbennig ef ei hun.
>
> Y mae *technegwr* yn gwymwys, yn rhinwedd ei addysg a'i brofiad o waith ymarferol, i weithio'n uniongyrchol dan gyfarwyddyd cyffredinol technolegwr. Felly rhaid fod ganddo wybodaeth drwyadl o wyddoniaeth ac o fathemateg, sy'n berthnasol i'w briod faes. Mae cynllunwyr cynorthwyol a rheolwyr iau ar lawr y gwaith yn enghreifftiau o dechnegwyr yn y ffatri Hyfforddir *crefftwr* yn nhechneg safonol diwydiant. Y mae'n wahanol i weithydd mewn dau beth o leiaf. Rhaid iddo ddeall pam yn ogystal a gwybod sut y mae peiriannau'n rhedeg. Rhaid iddo hefyd fedru gwneud rhannau o beiriant a'u cydosod heb gymorth mwy na disgrifiad technegol neu luniadau peirianegol ohonynt. Ei gymhwyster sylfaenol yw bwrw ei brentisiaeth, ond y mae'r gofyn ar gynnydd mewn rhai diwydiannau am dystiolaeth ar bapur megis tystysgrifau'r *City and Guilds*.
>
> Trin peiriannau unigol a pheiriannau rhes yw priod waith *gweithydd*—gwaith sydd heb ofyn medr crefftwr na'i ddysg a'i brofiad. Y mae safon medr a hyd cwrs hyfforddiant gweithydd yn amrywio'n fawr o'r naill ddiwydiant i'r llall.

Yn ychwanegol at dderbyn profiad ymarferol mewn diwydiant, bydd y technolegwr a'r technegwr wedi mynychu cyrsiau addysgol mewn colegau technegol cyn cyrraedd eu braint. Mae cyrsiau felly yn cyd-redeg â hyfforddiant ymarferol mewn diwydiant ond y mae rhai technolegwyr yn dilyn cyrsiau gradd prifysgol cyn dechrau ar hyfforddiant ymarferol.

Da yw nodi fod erbyn hyn fwy o duedd i grefftwyr hefyd ddilyn cyrsiau mewn coleg technegol. Ond yn anaml y digwydd hyn i'r gweithydd er bod rhai enghreifftiau yn y diwydiannau glo, haearn, dur a chemeg.

Gelwir gweithiwr sydd dan hyfforddiant mewn diwydiant ar gyfer bod yn grefftwr neu dechnegwr neu dechnolegwr yn brentis crefft neu'n brentis heb raddio neu'n brentis graddedig, yn y drefn hon.

Prentisiaid Crefft

Derbyniad

Derbynnir prentisiaid crefft fel arfer rhwng pymtheg a dwy ar bymtheg oed i brentisiaeth sy'n ymestyn dros bum mlynedd. Mae safon eu deall a'u medr yn amrywio cryn lawer, felly befyd safon ac ansawdd yr hyfforddiant ymarferol a gynigir iddynt mewn diwydiant. Yn sicr y mae amrywiaeth mawr rhwng safon medr gwahanol ddiwydiannau ond ychydig sylw a gaiff y ffaith ganolog hon yn newisiad, neu hyfforddiant neu statws terfynol y crefftwr.

Gwir fod cyflogwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gwasanaeth Cyflogi Ieuenctid nag o'r blaen, ond eto mae lle i gredu bod llawer ohonynt heb unrhyw wybodaeth o'r cymorth a rydd y Gwasanaeth hwn, drwy ddod â chyfle a rhagolygon diwydiant modern i sylw'r disgybl pan fo'n gadael ysgol a thrwy gasglu enwau a hanes rhai addas i'w derbyn yn brentisiaid crefft.

Wrth gwrs y mae a fynno nifer y prentisiaid crefft a dderbynnir gan gwmni neu gorfforaeth â pharodrwydd y cwmni i wynebu'r draul hyfforddi ac â hwylustod darpariaeth hyfforddi y cwmni. Ni all rhai cwmnïau bychain gynnal prentisiaid. Felly edrychant am grefftwyr cyflawn a hyfforddwyd gan eraill. Mewn rhai ardaloedd osgowyd yr anawsterau hyn trwy gychwyn cynlluniau prentisiaeth grŵp. Mewn cynllun felly bydd nifer o ffyrmiau yn cyd-weithio i roi hyfforddiant cynhwysfawr i brentisiaid drwy eu danfon o un gwaith i'r llall a thrwy hyn elwa ar ymarfer mwy eang nag ymarfer unrbyw un o'r gweithiau ar ei ben ei hun. Gweithredir y rhan fwyaf o gynlluniau felly yng nghanoldir Lloegr a chyffiniau Llundain. Nid oes cynllun o'r fath yng Nghymru eto. Buasai rhai ardaloedd, megis ardaloedd ag ystad fasnach yn gnewyllyn ynddynt, i bob golwg yn aeddfed i gynllun o'r math hwn.

Gall rhwystr arall godi oblegid rheolau Undebau Llafur a fydd yn cyfyngu ar nifer y prentisiaid a dderbynnir ac yn pennu uchafrif. Pwrpas rheolau fel hyn yw amddiffyn y fintai waith fedrus a phrofiadol rhag y nycbdod a'r gwendid a ddilynai dderbyn prentisiaid yn ddi-rwystr a chymryd mantais ohonynt. Bernir hefyd y byddai derbyn gormod yn llesteirio hyfforddiant teilwng a disgyblaeth ddigonol. Felly, ni chaiff ffyrm dderbyn yn brentisiaid mewn galwedigaeth arbennig fwy na chyfran benodedig o'r holl grefftwyr medrus neu weithwyr yn ôl y dydd a gyflogir gan y ffyrm yn yr alwedigaeth bonno. Mae'r cyfartaledd penodedig yn amrywio o un alwedigaeth i'r llall ac y mae cyfartaledd arbennig yn cael ei phennu ar gyfer ffyrm arbennig ac nid ar gyfer galwedigaeth yn gyffredinol dros yr holl wlad. Pwysig hyn, canys nid yr un fyddai'r cyfartaledd pe seilid ef ar ystadegau'r wlad trosti yn gyfan.

Danfonwyd gennym holiadur at feistri gwaith Cymru sydd yn cyflogi cant neu fwy o weithwyr ac i gyfran sef 25 y cant o'r rhai sy'n cyflogi rhwng deg a chant (gweler Atodiad M). Dyma'r atebion:

Diwydiannau Preifat (h.y. heb eu cenedlaetholi)

Nifer y Cyflogwyr y danfonwyd atynt ...	628
Y Nifer a atebodd	350

	1955	1956	1957
(i) Nifer y lleoedd i brentisiaid crefft	1,320	1,329	1,323
(ii) Nifer a dderbyniwyd i'w llenwi	1,280	1,301	1,319

(iii) Amcangyfrif o'r derbyniad blynyddol yn ystod 1958-62 697

Diwydiannau a Genedlaetholwyd

Y nifer y danfonwyd atynt	10
Y nifer a atebodd	10

		1955	1956	1957
(i) Nifer y lleoedd i brentisiaid crefft		421	481	581
(ii) Nifer a dderbyniwyd i'w llenwi		404	481	559
(iii) Amcangyfrif o'r derbyniad blynyddol yn ystod 1958-62	325			

Y mae'r cynnydd yn nifer lleoedd gwag diwydiannau a genedlaetholwyd yn y cyfnod 1955-57 i'w briodoli i'r Bwrdd Glo sy'n derbyn hanner holl brentisiaid crefft y diwydiannau hyn.

Ni all yr amcangyfrif uchod o ofyniadau'r dyfodol fod yn fanwl gywir o du'r diwydiannau preifat gan na chafwyd ateb i'r cwestiwn hwn gan bawb. (Er enghraifft derbyniodd diwydiant adeiladu yn Ne Cymru 556,514 a 414 o brentisiaid yn 1955, 56 a 57, ond ni roddodd yr atebion amcangyfrif am y dyfodol). Er hyn, dengys yr atebion fod yn rhaid disgwyl cwymp sylweddol yn rhif y prentisiaid crefft a dderbynnir yn flynyddol yn ystod 1958-62 o gymharu â 1955-57. Yr un oedd byrdwn tystiolaeth bersonol dros gant o ddiwydianwyr a fu'n siarad â'r Cyngor ac am hynny y mae'n wir am holl faes diwydiant Cymru.

Hyfforddiant

Y mae prentis yn derbyn hyfforddiant ymarferol ei grefft yn y gwaith ac yn cael dysgu technoleg ei grefft a phynciau perthnasol yn y coleg technegol. Yn y cwrs coleg fel rheol, bydd hyfforddiant ymarferol perthnasol i'r cwrs wedi ei drefnu a'i ddethol yn ofalus i ateb gofynion crefft arbennig gan y *City and Guilds of London Institutes* neu gan Gorff Arholi Rhanbarthol megis *The Union of Lancashire and Cheshire Institutes*. Gwneir hyn oll gyda chydweithrediad diwydiant. Bydd rhai diwydiannau, er mai ychydig ydynt yng Nghymru, yn cynnal Ysgolion Hyfforddi Gwaith lle y dilyn y prentisiaid gyrsiau amser llawn o ddysgu ac o hyfforddiant ymarferol am gyfnod cyntaf o tywle rhwng chwe mis a dwy flynedd. Fel arfer cânt hefyd ryddhad dydd i ddilyn cyrsiau coleg technegol yn ystod yr amser hwn.

Rhaid sylwi'n arbennig ar drefn y Bwrdd Glo, trefn a gychwynnwyd yn 1954 ar gyfer peirianwyr pwll a thrydanwyr pwll. Treulir blwyddyn gyntaf prentisiaeth o bum mlynedd yn llwyr mewn coleg technegol. Am hanner yr amser hwn, sef dau ddiwrnod a hanner yr wythnos, bydd y coleg technegol yn gweithredu fel Ysgol Hyfforddi Gwaith ac am yr hanner arall dysgir egwyddorion sylfaenol y grefft a phynciau addysgol cyffredinol. Yn yr ail flwyddyn, bydd y prentis yn y coleg ddeuddydd yr wythnos ac ar un o'r ddau caiff hyfforddiant ymarferol. Am dair blynedd ymhellach, sef gweddill ei brentisiaeth, bydd yn y coleg am undydd yr wythnos ac weithiau un noson hefyd yn paratoi ar gyfer arholiad y *City and Guilds* neu'r Dystysgrif Genedlaethol. Bydd y Bwrdd Glo yn talu'r awdurdod addysg lleol am ran ddiwydiannol ac ymarferol cwrs y prentis yn y coleg.

Erbyn hyn y mae'r rhan fwyaf o ffyrmiau yn cynnig rhyddhad dydd heb golli cyflog i'w prentisiaid fel y gallont ddilyn cwrs pwrpasol mewn coleg technegol am un dydd yn yr wythnos. Weithiau caniateir hyn hyd nes y bo'r prentis yn 21 oed, weithiau daw i ben pan fo'n 18 oed. Datblygiad diweddarach yw rhyddhad cryno (gweler tudalen 78). Dan y drefn hon bydd prentis yn mynychu cwrs amser llawn mewn coleg am ddau neu dri chyfnod gwahanol mewn blwyddyn o fis yr un. Yng Nghymru, cychwynnwyd hyn yn Sefydliad Amaethyddiaeth Brynbuga yn 1948 i brentisiaid o ofaint. Symudwyd y cwrs i Sefydliad Dechnegol y Drenewydd yn 1953. Gan fod y nifer yng Nghymru'n fychan, rhy ddrud yw trefnu cwrs rhyddhad dydd mewn colegau technegol lleol ym mhob rhyw ardal ac am hynny trefnir cwrs cryno yn y Drenewydd er mwyn Cymru gyfan. Bydd prentisiaid yno yn dilyn cwrs amser-llawn am ddau gyfnod o fis yr un ym mhob un o flynyddoedd eu prentisiaeth.

Yn 1954 cychwynnwyd cwrs cryno yng Ngholeg Technegol Llandaf i brentisiaid Gwresogi ac Awyru. Cyn hyn cynhelid cwrs rhyddhad dydd yng Ngholeg Technegol Caerdydd, ond nid oedd hyn yn gyfleus gan fod eu gwaith beunyddiol yn dwyn y prentisiaid ymhell o Gaerdydd. Yn awr byddant yn dilyn cwrs amser-llawn yn Llandaf am fis ymhob tymor am bedair blynedd. Cychwynnodd deg ar y cwrs ym mis Medi 1954 a'i gwblhau ym mis Mehefin 1958. Buont oll yn llwyddiannus yn arholiad Tystysgrif Derfynol y *City and Guilds*. Yr oedd hyn yn welliant sylweddol ar ganlyniadau blynyddoedd cynt cyn sefydlu'r cwrs fel cwrs cryno.

Er i drefn cwrs cryno gael ei chynllunio ar y cyntaf i hel at ei gilydd nifer cymharol fychan o fyfyrwyr o ardaloedd gwasgaredig, y mae i'r math hwn o gwrs fanteision addysgol o'i gyferbynnu â'r cwrs dydd, pan fo darpariaeth ar gyfer parhau gydag astudiaeth yn ystod y bwlch rhwng cyfnodau o waith yn y Coleg. Y mae rhai diwydianwyr yn gweld hyn, ac am hynny cychwynnwyd pum cwrs tebyg yn ychwanegol yn Llandaf ym mis Medi 1958 a hefyd un yng Ngholeg Technegol Casnewydd a Mynwy. Trefnir astudiaeth ddi-dor yn ystod y bwlch rhwng dau gyfnod o astudio amser-llawn yn y Coleg trwy ddilyn cwrs coleg technegol am un noson bob wythnos neu yntau trwy osod rhaglen waith i'r myfyrwyr ar gyfer adegau felly.

Y Meysydd Llafur

Y mae cyrsiau crefft colegau technegol yn arwain fel arfer i arholiadau tebyg i rai'r *City and Guilds* neu'r Dystysgrif Genedlaethol. Y mae'r Dystysgrif yn gofyn am gyraeddiadau academaidd uwch na'r *City and Guilds* ac y mae derbyn y Dystysgrif Genedlaethol Uwch yn codi'r prentis o safle crefftwr i safle technegwr neu efallai dechnolegwr. Dyma lwybr hunan-wellhad felly sydd yn rhoi pwys mawr ar y Dystysgrif Genedlaethol. Y mae llawer prentis yn cychwyn ar y llwybr hwn yn uchel ei obeithion ond heb fawr o sail i'w hyder. Mae llawer yn methu hyd yn oed yn arholiad y flwyddyn gyntaf (S.1). O'r rhai sydd yn llwyddiannus yn hwyr neu'n hwyrach yn S.1, dim ond cyfartaledd bychan sydd yn ennill y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol.

Mae'r ffigurau yn amrywio yn ôl y pwnc ond dyma amcangyfrif bras a haelionus o ganlyniadau Cymru:

(a) llwyddiannus yn S.1 ar y cynnig cyntaf—40 y cant.

(b) rhai'n cychwyn gyda chwrs S.1 ac yn dilyn yr yrfa i'r pen a derbyn y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol heb orfod ail ddilyn cwrs unrhyw flwyddyn oherwydd methiant—10 y cant o'r rhai a ddechreuodd gydag S.1.

(c) rhai'n cychwyn gyda chwrs S.1 ac yn dilyn yr yrfa i'r pen gan dderbyn y Dystysgrif Genedlaethol Uwch heb orfod ail ddilyn cwrs unrhyw flwyddyn oherwydd methiant—3 y cant o'r rhai a ddechreuodd gydag S.1.

Y mae'r tabl canlynol yn dangos gyrfa grwp o fyfyrwyr (o gyrsiau dydd rhanamser a chyrsiau nos) a gychwynnodd gyda blwyddyn gyntaf cwrs y Dystysgrif Genedlaethol mewn Peirianneg Fecanyddol a Thrydanol mewn coleg technegol yng Nghymru ym mis Medi 1950. Cred y Cyngor fod hwn yn fraslun teg o'r sefyllfa yn gyffredinol yng Nghymru.

1950-51				1951-52				1952-53				1953-54			
Yn eistedd yr arholiad		Ll.	M.	Ail Gynnig		Ll.	M.	Ail Gynnig		Ll.	M.	Ail Gynnig		Ll.	M.
S.1	147	66	81	S.2	57	27	30	S.3	27	9	18	A.1	6	5	1
				S.1	27	10	17	S.2	34	13	21	S.3	27	13	14
								S.1	4	1	3	S.2	11	3	8
												S.1	Nil	–	–

1954-55				1955-56				1956-57			
Ail Gynnig		Ll.	M.	Ail Gynnig		Ll.	M.	Ail Gynnig		Ll.	M.
A.2	5	2	3	A.2	8	6	2	A.2	1	1	0
A.1	10	4	6	A.1	4	1	3	A.1	2	0	2
S.3	11	5	6	S.3	2	2	0	S.3	Nil	–	–
S.2	4	1	3	S.2	Nil	–	–	S.2	Nil	–	–
S.1	Nil	–	–	S.1	Nil	–	–	S.1	Nil	–	–

O'r 147 a geisiodd ar S.1:

enillodd 2 (1·4 y cant) y Dystysgrif Genedlaethol Uwch (*H.N.C.*) heb ail ddilyn blwyddyn;

enillodd 9 (6·1 y cant) y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (*O.N.C.*) heb ail ddilyn blwyddyn;

enillodd 9 (6·1 y cant) y Dystysgrif Genedlaethol Uwch (*H.N.C.*) o'r diwedd;

enillodd 19 (12·9 y cant) y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol (*O.N.C.*) o'r diwedd.

gadawodd 15 (10·2 y cant) y cwrs ar ôl ennill S.2;

gadawodd 33 (22·4 y cant) y cwrs ar ôl ennill S.1;

gadawodd 70 (47·6 y cant) heb ennill unrhyw gymhwyster dan drefn y Dystysgrif Genedlaethol.

Mae'n ddiau i rai a fu'n aflwyddiannus yng nghyrsiau'r flwyddyn gyntaf neu'r ail adael cyrsiau'r Dystysgrif er mwyn dilyn cyrsiau'r *City and Guilds*, ac iddynt bod yn llwyddiannus yn y cyrsiau hyn gan ennill cymwysterau crefft.

Y mae nifer y rhai aflwyddiannus yng nghyrsiau'r *City and Guilds* yn peri'r un pryder. Ond nid oes unrhyw gwrs haws i dderbyn y rhai sy'n methu yn y cyrsiau crefft.

Y mae'r mwyafrif mawr o arholiadau'r *City and Guilds* mewn pynciau crefft yn dilyn patrwm deublyg—arholiad canolradd ar ben tair blynedd yn y coleg ac arholiad terfynol ar ben pum mlynedd. Mewn rhai pynciau eisteddir yr arholiadau yma ar ben yr ail a'r bedwaredd flwyddyn. Cyflwynir Tystysgrifau Canolradd a Thystysgrifau Terfynol i'r rhai llwyddiannus. Cyflwynir 'Tystysgrifau Technoleg Llawn,' enw camarweiniol bellach, i fyfyrwyr yn y rhan fwyaf o bynciau os ydynt yn llwyddiannus yn arholiad terfynol eu pwnc a hefyd yn boddhau'r Sefydliad ynglyn â'u gwybodaeth am adrannau perthnasol gwyddoniaeth neu gelfyddyd, a'u profiad o ymarfer eu crefft, a'u bod wedi troi eu hun-ar-ugain oed.

Mewn llawer pwnc gofynnir am allu academaidd a weddai'n well i safon technegwr. Mae llu yn methu, hyd yn oed yn y safon Ganolradd, oblegid ansawdd academaidd yr arholiad. Mae'r *City and Guilds of London Institute* wedi cydnabod yn ddiweddar nad yw arholiadau rhai pynciau yn addas i brentisiaid crefft o gyraeddiadau academaidd mor amrywiol. Er enghraifft, mewn peirianneg fecanyddol cychwynnwyd arholiad newydd a elwir yn ymarfer crefft peirianneg fecanyddol fel ail ddewis yn lle yr arholiad arferol, sef arholiad peirianneg gweithdy. Rhoddir mwy o bwyslais ar waith ymarferol a llai ar allu academaidd yn yr arholiad newydd nag yn yr un arferol. Mae trefniant tebyg ar droed ar gyfer arholiadau crefft adeiladaeth.

Prentisiaid Heb Raddio

Derbyniad

Edrychir ar brentisiaid heb raddio fel un o ffynonellau technolegwyr neu dechnegwyr â champ arnynt. Mae telerau derbyn yn amrywio o un diwydiant i'r llall, o lwyddiant mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn arholiad lefel Gyffredinol y Dystysgrif Addysg (*G.C.E.*) i lwyddiant mewn matbemateg, ffiseg a chemeg yn y lefel Uwch. Weithiau codir prentisiaid crefft i fod yn brentisiaid heb raddio os bydd eu gwaith yn arholiad y Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn ddigon da. Daw mwyafrif y prentisiaid heb raddio o ysgolion gramadeg pan fônt rhwng 16 a 18 oed.

Cododd eu nifer yn gyson yn niwydiannau Cymru yn ddiweddar. Dyma grynodeb o'r atebion a gafwyd i'r holiadur a ddanfonwyd yn enw'r Cyngor at ddiwydianwyr (Gweler atodiad M):—

Diwydiannau Preifat

Y Nifer y danfonwyd atynt	628			
Y Nifer a atebodd	350			
Y nifer o'r rhai a atebodd sy'n derbyn prentisiaid heb raddio	42			
		1955	1956	1957
(i) Nifer y lleoedd gwag i brentisiaid heb raddio		157	188	255
(ii) Y nifer a dderbyniwyd i'r safleoedd hyn ...		145	179	242
(iii) Amcangyfrif o'r derbyniad blynyddol yn ystod 1958-62	202			

Diwydiannau a Genedlaetholwyd

Y Nifer y danfonwyd atynt	10			
Y Nifer a atebodd	10			
Nifer y rhai sy'n derbyn prentisiaid heb raddio	6			
		1955	1956	1957
(i) Nifer y lleoedd gwag...		57	82	103
(ii) Nifer y lleoedd a lanwyd		49	65	74
(iii) Amcangyfrif o'r derbyniad blynyddol yn ystod 1958-62	79			

Dylid nodi mai yn 1957 y dechreuodd y Bwrdd Glo dderbyn brentisiaid heb raddio, a'r flwyddyn honno, derbyniodd y Bwrdd 32 er bod 44 o leoedd gwag. Felly yr oedd y naw diwydiant arall a genedlaetholwyd yn cynnig llai o leoedd gwag (59) yn 1957 nag yn 1956 (82). Yr un oedd hanes y nifer a dderbyniwyd, 42 yn 1957 a 60 yn 1956. Mae amcangyfrif pob diwydiant o'u gofynion yn ystod y cyfnod 1958-62, sef 281, yn llai nag yn 1957, sef 358. Efallai mai'r rheswm am ragolygon mor ddu fel ateb i'r holiadur oedd i'r Cyngor ei ddanfon allan yng nghanol argyfwng economaidd 1958.

Hyfforddiant a Chyrsiau

Y mae'r brentisiaeth yn estyn dros gyfnod sy'n amrywio o dair i bum mlynedd yn ôl cymwysterau academaidd y prentis a'r math o gwrs technegol a fydd yn rhan o'i brentisiaeth.

Gall prentis a fu'n llwyddiannus yn lefel Uwch y *G.C.E.* mewn pynsciau perthnasol ddilyn cwrs gradd prifysgol neu gwrs rhyngosod coleg technegol sy'n arwain i'r Ddiploma Genedlaethol Uwch neu i'r Ddiploma Dechnoleg. Bydd ei ddewis yn dibynnu ar ei gymwysterau ac ar bolisi addysgol ei feistr gwaith. Mae cwrs gradd yn gofyn rhyddhad o ddiwydiant am dair blynedd o leiaf. Mae cwrs rhyngosod ar gyfer Diploma yn gofyn rhyddhad am chwe mis bob blwyddyn dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

Ar hyn o bryd, bydd prentis a fu'n llwyddiannus ar lefel Gyffredinol y *G.C.E.*, neu gwrs o safon tebyg, yn dilyn cwrs y Dystysgrif Genedlaethol ar drefn rhyddhad dydd. Dyna, o leiaf, yw'r ffasiwn arferol yn awr. Ond yn ôl ei gymwysterau y mae'n ddigon teilwng i fanteisio ar gyfleusterau a gynigir gan ychydig o'r colegau technegol i ddilyn cwrs dwy flynedd ar gyfer Diploma Genedlaethol Gyffredinol neu gwrs rhag-baratoawl ar gyfer Diploma, cwrs un blwyddyn neu ddwy. Cyrsiau rhyngosod a fyddai'r rhain. Byddai llwyddiant yn un ohonynt yn arwain i'r Ddiploma Genedlaethol Uwch neu efallai i'r Ddiploma Dechnoleg. Eto, fel y dywedwyd, cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol sy'n denu'r mwyafrif ac iddynt hwy, o fod yn llwyddiannus, y mae o leiaf bedwar llwybr pellach:

(a) cwrs yn arwain i'r Dystysgrif Genedlaethol Uwch;

(b) gallant gael eu derbyn i rai prifysgolion, gan gynnwys Prifysgol Cymru, os bydd Saesneg ar lefel 'pasio' yn un o'u pynciau yn arholiad lefel Gyffredinol y *G.C.E.*, ac os byddant hefyd wedi cael profiad tair blynedd mewn diwydiant;

(c) gallant ddilyn cwrs Diploma Genedlaethol Uwch os cafwyd marc o 50 y cant neu fwy ym mhob papur yn arholiad y Dystysgrif Genedlaethol Uwch;

(d) gallant ddilyn cwrs Diploma Dechnoleg ar delerau (c) uchod, dim ond bod eisiau marc o 60 y cant neu fwy.

Nid ei gymwysterau a'i gyraeddiadau yn unig sy'n penderfynu pa gwrs a ddilynnir gan berson arbennig. Dibynna hyn hefyd ar bolisi ei feistr gwaith, ei bolisi ŷnglyn â hyfforddiant a chynnig rhyddhad i ddilyn cwrs. Dengys y ffigurau isod mai cyfran fechan o'r rhai a allai wneud hynny a barnu yn ôl safon eu Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol, sydd mewn gwirionedd yn dilyn cyrsiau gradd a diploma. Mae'r mwyafrif yn dal i ddilyn cwrs Uwch y Dystysgrif Genedlaethol, drwy waith undydd neu dair noson yr wythnos mewn coleg technegol.

Rhoddir cyfrif o gyrsiau sesiwn 1958-59 a ddilynwyd gan Gymry a feddai'r

Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn atodiad A. Sylwer ar y canlynol:

(i) Nifer a dderbyniodd Dystysgrifau Cenedlaethol Cyffredinol yn 1958	800
(ii) Nifer a gafodd farc gwell na 60 y cant yn yr arholiadau hyn	172
(iii) Nifer a gafodd farc rhwng 50 y cant a 60 y cant	244
(iv) Nifer a aeth i goleg prifysgol ym mis Medi 1958	10
(v) Nifer y rhai o (ii) a gychwynnodd ar gwrs Diploma Dechnoleg ym mis Medi 1958	3
(vi) Nifer y rhai o (ii) a (iii) a gychwynnodd ar gwrs Diploma Genedlaethol Uwch ym mis Medi 1958	17
(vii) Nifer y rhai o (ii) a ddilynodd gwrs Tystysgrif Genedlaethol Uwch yn 1958-59	122
(viii) Nifer y rhai o (iii) a ddilynodd gwrs Tystysgrif Genedlaethol Uwch yn 1958-59	193

Dylai'r ffigurau hyn beri pryder canys nid ydynt gyson â'r galw diddiwedd am gynnydd yn rhif technolegwyr y wlad. Sylwer yn arbennig ar y ffeithiau a ganlyn:

(a) o 172 cymwys i gychwyn ar gwrs Diploma Dechnoleg yn ôl eu Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol, dim ond 3, hyd y gellir gweld, a wnaeth hynny ym mis Medi 1958;

(b) yr oedd o leiaf 244 yng Nghymru yn gymwys yn ôl eu Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol, i ddechrau ar gwrs Diploma Genedlaethol Uwch. Dim ond 17 ohonynt a wnaeth hyn ym mis Medi 1958.

Dyma ffaith arall a ddylai ddyfnhau'r pryder. Derbyniodd diwydiannau Cymru 316 myfyriwr brentis newydd yn 1957 gyda llwyddiant digonol yn arholiadau'r Dystysgrif Addysg (*G.C.E.*). Ym mis Medi yn yr un flwyddyn, ychydig dros gant yn unig o'r rhain a gychwynnodd ar gyrsiau rhyngosod uwch yn arwain i'r Ddiploma Dechnoleg (14) neu'r Ddiploma Genedlaethol Uwch (91).

Fel arfer bydd prentisiaid sy'n dilyn cwrs uwch amser-llawn neu gwrs rhyngosod yn derbyn eu cyflog pan fônt yn y coleg. Os na fyddant yn ei dderbyn, gallant ofyn i'w hawdurdodau addysg lleol am grant i'w cadw, fel y sylwyd yma eisoes.

Yn y mwyafrif o gynlluniau gwaith prentisiaid heb raddio, dechreuir yr hyfforddiant ymarferol gyda chwrs yn egwyddorion sylfaenol y grefft er mwyn cynefino'r prentis â hwy. Fel arfer bydd hyn yn ymestyn dros flwyddyn gyntaf neu ddwy flynedd gyntaf y brentisiaeth. O hyn ymlaen, bydd natur yr hyfforddiant ymarferol yn dibynnu ar adnoddau'r diwydiant arbennig. Mewn un cynllun a ddangoswyd i'r Cyngor, dechreuwyd gydag ymarfer yn y swyddfa luniadu, yna mewn gwaith cynllunio a datblygu, yna mewn adran ariannol yn cyfrif cost, ac yn olaf, mewn adran i drefnu gorchwyl arbennig lle y byddai holl agweddau'r gwaith yn asio gyda'i gilydd. Mewn cynllun arall, bwriai'r prentis gyfnod ei hyfforddiant ymarferol bron yn llwyr yn y swyddfa luniadu.

Y mae'r asio naturiol hwn rhwng hyfforddiant ymarferol mewn diwydiant a chwrs addysg y coleg technegol yn un o brif rinweddau'r cynllun rhyngosod. Rhaid i ddiwydiant a choleg chwarae eu rhan briodol os yw'r prentis i gael y gorau o'i gwrs. Ni ellir edrych arnynt ar wahân.

Prentisiaid Graddedig

Bydd rhai cwmniau diwydiannol wrth dderbyn graddedigion yn syth o'r brifysgol heb fod ganddynt unrhyw brofiad diwydiannol, yn cynnig iddynt ddwy flynedd o hyfforddiant ychwanegol yn yr hyn sy'n bwrpasol i waith y diwydiant. Y pryd hwn, gelwir ef yn brentis graddedig. Y mae mwyafrif y cyrff proffesiynol yn gweld gwerth yn yr hyfforddiant hwn ac yn ei arddel drwy dderbyn y prentis graddedig yn aelod o'r corff ar ôl iddo fwrw ei brentisiaeth yn foddhaol a chael profiad mewn diwydiant ar ôl hynny.

Dyma grynodeb o'r atebion i holiadur y Cyngor ynglŷn â prentisiaid graddedig:

Diwydiannau Preifat

Derbynnir prentisiaid graddedig gan ... 14

	1955	1956	1957
Nifer y lleoedd gwag	20	35	52
Y nifer a dderbyniwyd	16	27	42

Amcangyfrif o ofyn cyfnod 1958-62 ... 39

Diwydiannau a Genedlaetholwyd

Derbynnir prentisiaid graddedig gan ... 2

	1955	1956	1957
Nifer y lleoedd gwag	11	11	11
Y nifer a dderbyniwyd	3	4	7

Amcangyfrif o ofyn y cyfnod 1958-62 ... 7

Mae gan y Bwrdd Glo gynllun a elwir yn gynllun Hyfforddiant Ymarfer o dan Gyfarwyddyd (Directed Practical Training). Ei bwrpas yw rhoi hyfforddiant trefnus i reolwyr ac uchel swyddogion y dyfodol Derbynnir graddedigion a hefyd rai a chanddynt gymwysterau o safon debyg mewn pynciau pwrpasol ac fe'u hyfforddir i fyny hyd at dair blynedd dan y cynllun hwn. Yn 1955, 56 a 57, yr oedd 60 o leoedd gwag gan adran orllewin y Bwrdd Glo, ac yn 1958, 47 ohonynt. Derbyniwyd i'w llenwi yn y pedair blynedd hyn 35, 58, 58 a 40.

Anaml iawn y rhyddheir prentisiaid graddedig i fynychu coleg technegol gan y tybir eu bod eisoes wedi gorffen eu hastudiaeth academaidd. Ond os dewisir rhai ohonynt ar gyfer gwaith gweinyddu a rheoli, gellir eu rhyddhau hwy i ddilyn cwrs mewn astudiaethau rheolaeth gwaith naill ai mewn coleg technegol neu yn y diwydiant ei hun.

PENNOD IV

Sylwadau Ac Argymhellion

Yn sicr y mae'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gyfer addysg dechnegol yn fwy na digonol a barnu wrth ofynion diwydiant ac wrth nifer a gallu'r rhai sy'n ei derbyn. Bydd yn werth i ni ystyried yn nes ymlaen a oes llinyn mesur arall. Y mae'r awdurdodau addysg lleol wedi gwneud yn rhagorol trwy ddarparu lle a chynnig staff i ateb gofynion cynyddol diwydiant er 1945 am hyfforddiant i weithwyr o bob safon. Efallai yn wir iddynt wneud gormod weithiau fel bod y ddarpariaeth yn fwy na'r gofyn. Yn awr, gan fod y gofyn taer am ragor o le i addysgu wedi ei ateb i raddau helaeth, gobeithia'r Cyngor hwn y bydd i'r awdurdodau addysg lleol ganolbwyntio ar wella cyfleusterau myfyrwyr yn y colegau, lle mae eisiau gwella, a sylwi hefyd â diddordeb ar y ffaith fod capel coleg yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru.

Ar hyn a bryd, y mae gan holl gynllun addysg dechnegol gysylltiad agos iawn â gofynion uniongyrchol diwydiant. Os pery hyn, bydd newid yng ngofynion diwydiant yn rhwym o fagu newid yn y drefn addysgol. Mewn cyfnod o newid mor chwim mewn gwybodaeth dechnegol a'r ymarfer ohoni, amhosibl yw rhagweld gofynion newydd hyd yn oed dros ddeng mlynedd. Ond gellir dweud un peth, a'i ddweud yn groyw. Rhaid i gnewyllyn a sylwedd trefn addysg dechnegol fod yn ystwyth i ateb y newid. Nid gofynion diwydiant yn unig y mae'n rhaid eu hateb. Y mae grym yn y gosodiad nad llawforwyn diwydiant yw addysg dechnegol. Yn hytrach y mae addysg dechnegol yn hawlio braint a rhyddid cyfundrefn addysgol a saif ar ei thraed ei hun. Dylid arddel ei swyddogaeth fel cyfrwng datblygu gallu a ffrwythlondeb meddwl a grea berson byw, ystwyth ei gerddediad, gyda'r awydd i wynebu'r newydd a meistroli'r rhyfedd. Rhaid gwahaniaethu'n ofalus rhwng addysg dechnegol yn yr ystyr eang a chyfarwyddyd technegol yn yr ystyr gyfyng o ymarfer a datblygu medr a chrefft arbennig. Yn y cyntaf ceir cyfanrwydd nad yw'r ail ond rhan ohono yn unig. Tra bo'r ail yn gyfrwng gosod person ieuanc ar ben ei gwys, cwys ddigon esmwyth a rhwydd ei rhediad, y mae'r cyntaf yn malio am fwy na dilyn cwys arbennig, sef am gynhyrchu person ystwyth ei feddwl. Felly ni ddylid hyfforddi crefftwyr yn unig i feistroli crefftau arbennig. Rhaid ceisio gwneud mwy fel y byddant fedrus yn eu hamser i feistroli dulliau newydd a fydd yn dilyn techneg newydd. Felly dylai addysg prentis crefft fod yn llai arbenigol a chyfyng nag ydyw ar hyn o bryd; dylid talu mwy o sylw i egwyddorion sylfaenol a chefndir gwyddonol ei grefft arbennig a chrefftau tebyg. Dylai blwyddyn gyntaf cwrs gael ei gwario ar waith mwy cyffredinol, wedi ei ddethol yn dra gofalus, i feithrin y ddisgyblaeth nodweddiadol honno sy'n hogi a rhoi min ar feddwl.

Fel y gwelwn ni bethau, nid oes unrhyw anghysondeb rhwng angen presennol diwydiant am grefftwyr medrus ag angen cymdeithas am addysg a fo'n gyfrwng nid yn unig i greu crefftwyr medrus ond i greu personau a fydd yn byw bywyd llawn. Rhaid i rywbeth sydd mor agos ei perthynas â'r unigolyn â threfn ei addysg gael ei asio yn y lle cyntaf ag anghenion hanfodol y person fel dyn gyda'i gyfrifoldeb cymdeithasol, teuluol a dynol. Nid yw hynny'n golygu gweithiwr gwael; dylai cyfundrefn addysg ofalus gyfarfod â'r ddau angen. Hyd yn oed yn awr, fe sylweddolwyd hyn i raddau helaeth yn y cyrsiau rhyngosod uwch, lle mae pynciau technolegol y coleg a'r gwaith ymarferol mewn diwydiant wedi eu huno, a chyda'i gilydd yn ffurfio cwrs cyfan. Mae'n arferol dweud hefyd fod astudiaethau diwylliannol yn rhan hanfodol o'r cyrsiau hyn. Rhaid diffinio yr hyn a olygir —ansawdd meddwl ydyw a ddyry liw ac anadl einioes i waith y coleg a'r gweithdy. Oddi mewn i'r dechnoleg ei hunan y mae hau'r had—pensaernïaeth oddi mewn i dechnoleg adeiladu, hanes technoleg oddi mewn i beirianneg. Nid digon yw neilltuo rhai oriau yn yr wythnos ar gyfer pynciau diwylliannol, fel y gelwir hwy, canys ar wahân ac oddi allan i gyfanrwydd y cwrs yr arhosant. Anos yw gweithredu ar egwyddorion fel y rhain mewn cyrsiau rhyddhad dydd uwch a mewn cyrsiau crefft oherwydd prinder amser a hefyd am fod y cwlwm rhwng gwaith y coleg a'r gweithdy yn rhy llac.

Prentisiaid Crefft

Derbyniad

Bu raid i'r Cyngor estyn ei ymchwil dros gyfnod cymharol faith a sylwyd fod barn diwydianwyr am ansawdd y rhai a dderbyniwyd fel prentisiaid crefft yn amrywio'n fawr yn ystod y cyfnod hwn. Ddechrau 1956 yr oedd llawer o gwyno am safon addysg ac ansawdd personol llawer o'r ymgeiswyr am brentisiaeth a chwynwyd fod diwydianwyr yn gorfod derbyn rhai, anfoddhaol i lenwi'r bylchau. Ond yn 1957 a 1958 yr oedd pethau'n gwella a chan fod bellach fwy o ymgeiswyr, gallai'r diwydianwyr ddewis a dethol. Dengys atodiad M fod nifer yr ymgeiswyr am brentisiaeth crefft yn y sefydliadau a atebodd ein holiadur wedi codi o 4,559 yn 1955 i 5,505 yn 1947, h.y. yn ôl 21 y cant. O'r rhain derbyniwyd 1,684 yn 1955 a 1,878 yn 1957, cynnydd o 12 y cant. Y Bwrdd Glo oedd yn gyfrifol am 95 y cant o'r cynnydd. Er nad oes ffigurau am 1958 gennym, mae lle i gredu fod nifer yr ymgeiswyr eto wedi codi a nifer y rhai llwyddiannus wedi gostwng. Ffigurau'r Weinyddiaeth Lafur am nifer bechgyn yn cychwyn 'prentisiaeth i grefftau medrus' yng Nghymru yn 1957 a 1958 yw 2,894 a 2,706, ac am ferched 393 a 382. (Gweler Atodiadiau H, J, K, L). Gyda mwy o gryn dipyn yn gadael ysgol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf hyn, yn ôl ystadegau geni y blynyddoedd a ddilynodd y rhyfel, bydd nifer yr ymgeiswyr am brentisiaid yn sicr o godi bob blwyddyn. Eto, er hyn, efallai nad mwy o leoedd gwag fydd i'w llanw yng Nghymru ond llai. (Gweler Atodiad M.)

Y mae holl drefn derbyn i brentisiaeth crefft, ac y mae hyn yn golygu holl drefn hyfforddiant yn y crefftau, yn llwyr yn nwylo'r gwahanol ddiwydiannau. Y maent hwy gan mwyaf yn derbyn yn ôl eu gofynion eu hunain o ddydd i ddydd yn hytrach na'u gwir ofynion dros gyfnod o amser neu ofynion y diwydiant yn gyfan neu ofynion cyffredinol y wlad am brentisiaid. Trwy hap a damwain yn unig y gall cyfundrefn fel hyn ateb angen y wlad am gronfa ddigonol o weithwyr medrus. Mae newid yn y dymheredd economaidd yn union yn peri newid yn y galw am brentisiaid. O ganlyniad, derbynnir prentisiaid yn ôl y galw am lafur medrus yr adeg y derbynnir hwy, yn hytrach na'r gofyn mewn pedair neu bum mlynedd pan fyddant yn barod at waith. Eithriad ymhlith meistri gwaith yw'r un a gymer olwg bell ymlaen ar ei ofynion llafur ac a drefna i dderbyn prentisiaid yn unol â hyn. Fel rheol, ymlhith y cyrff diwydiannol mawr y gwelir yr eithriadau hyn.

Mewn gwaith neu ffatri arbennig, y mae'r undebau llafur yn pennu ffigur arbennig fel uchafrif nifer y prentisiaid i'w cynnal ymhob crefft. Rhif yw hwn sydd yn gyfartaledd penodedig o nifer y gweithwyr profiadol a gyflogir yn y gwaith arbennig yn y grefft arbennig. Y mae'r rheol hon yn sicr yn rhwystr i waith a fynn ehangu'n gyflym. Canlyniad arall i'r drefn hon, fel y gweithredir hi yn awr, yw fod cyfanrif y prentisiaid mewn crefft arbennig dros yr holl wlad yn llawer llai na'r cyfartaledd penodedig o gyfanrif gweithwyr profiadol y grefft, o gyfrif dros yr holl wlad. Canys y mae llawer gwaith neu ffatri yn derbyn llai nag a ganiateir iddynt gan yr Undebau ond nid yw'n bosibl i unrhyw ffyrm dderbyn mwy. Felly byddai'n dda o beth pe gallai ffyrmiau sy'n ewyllysio derbyn mwy wneud hynny gyda'r amod na thorrir rheol cyfartaledd penodedig yr Undebau o gyfrif dros yr holl wlad.

Gallai Cynlluniau Grwp i brentisiaid yng Nghymru yn hawdd godi nifer prentisiaid crefft ac hefyd gynnig well safon hyfforddi nag a gynigir gan lawer ffyrm yn awr. Yn naturiol, llwm yw adnoddau hyfforddi llawer ffyrm fach ac am hynny ni dderbynnir prentisiaid crefft gan lawer ohonynt. Mae'n debyg y gwnaent pe bai Cynlluniau Grwp ar gael.

A barnu oddi wrth y dystiolaeth a roddwyd i'r Cyngor mewn sgwrs ac ar bapur, nid oes llawer o argoel am unrhyw godiad yn y nifer a dderbynnir i brentisiaeth crefft yng Nghymru yn y dyfodol agos. Felly prin fydd cyfraniad diwydiannau Cymru i nod y Llywodraeth o ychwanegu at nifer crefftwyr medrus Prydain yn y blynyddoedd nesaf hyn. Os yw angen hir-amser y wlad yn fwy nag amcangyfrif diwydiant ynglŷn â'u hangenion hwy rhaid digoni'r angeniannau naill ai trwy ddenu diwydianwyr i hyfforddi mwy nag a dybiant y bydd eu heisiau arnynt neu ynteu trwy gynnal cyfundrefn hyfforddi genedlaethol neu rywbeth tebyg. Byddai cynllun felly hefyd yn cynnig hyfforddiant gwell ac ehangach na llawer cynllun hyfforddi a geir ar hyn o bryd.

Y mae'n amheus a yw diwydianwyr yn talu sylw digonol i'r broblem o ddewis prentisiaid er mwyn sicrhau dewisiad da. Y mae rhai sefydliadau yn cymryd gofal mawr trwy astudio adroddiadau prifathrawon, nodiadau Swyddogion Cyflogi Ieuenctid, ac hefyd ddefnyddio ffordd safonol o ddethol a didoli. Ond yn rhy aml o lawer penderfynir ar bwys ffactorau eraill llai perthnasol. Yn sicr fe gytunai'r Cyngor hwn fod lle mawr i draddodiad teuluol mewn crefft er mwyn ennyn brwdfrydedd a balchder yn eu crefft ymhlith ieuenctid. Ond ar yr un pryd credwn na ddylid dewis trwy roi ffafr i blant gweithwyr y gwaith, nag i neb arall ar gymhelliad personol, os na fydd cymwysterau digonol o ran addysg ac ansawdd personol yn yr ymgeiswyr.

Hyfforddiant

Yn ôl rheolau'r undebau llafur, y mae prentisiaeth crefft yn awr yn estyn dros bum mlynedd yn ddieithriad, beth bynnag fo'r grefft, a rhaid i'r brentisiaeth orffen pan fo'r prentis yn 21 oed. Bu hyn, sef gorffen yn 21, yn rheol erioed, ond y mae hyd prentisiaeth wedi amrywio gydag oed gadael ysgol. Yn y ganrif ddiwethaf, yr oedd cyfnod hyfforddiant o saith mlynedd yn beth cyffredin, ond, fel y cododd oed gadael ysgol ddechrau'r ganrif hon, cododd hefyd oed dechrau prentisiaeth a gostyngodd ei hyd. Yn awr, 15½ i 16½ yw oed cychwyn prentisiaeth yn y rhan fwyaf o grefftau. Drwy ddal ymlaen yn yr ysgol, naill ai i astudio pwnc a fydd o fudd iddo yn ei alwedigaeth neu i sefyll arholiad y Dystysgrif Addysg Gyffredinol, y mae llawer bachgen wedi colli'r cyfle i'w brentisio i grefft am iddo fynd yn rhy hen. Hefyd, er mwyn derbyn prentisiaeth, mae llawer yn awr yn gadael ysgol yn rhy gynnar er eu lles eu hunain. Mae dal i lynu wrth yr hen reolau hyn yn milwrio yn erbyn barn llawer fod cyfnod llai o brentisiaeth yn ddigon mewn llawer crefft ac hefyd yn erbyn yr holl ymdrech i gadw plant yn yr ysgol cyhyd ag y bydd gwneud gwaith ysgol o les iddynt.

Ar fater hyfforddiant rhag-baratoawl i brentisiaid, sylwa'r Cyngor gyda diddordeb ar gychwyn cyrsiau un flwyddyn amser-llawn mewn colegau technegol. Yn ogystal â rhoi hyfforddiant trwyadl mewn egwyddorion techneg ac hefyd ei gychwyn ar ei grefft ddewisol, gall cyrsiau fel hyn roi i fachgen gyfle i ymgynefino â ffyrdd a dulliau coleg technegol. Pan ddaw'n ôl eto mewn blwyddyn fel myfyriwr rhyddhad dydd, bydd ei brofiad o waith coleg yn help mawr iddo. Gyda staff cymwys ac offer pwrpasol, gellid anelu at hyfforddiant rhag-baratoawl fel hyn mewn ysgolion uwchradd modern a byddai datblygu cyrsiau '15+' o fantais cyffredinol i'r ysgol hefyd. Lle na byddai galw digonol i gyfiawnhau hyn ymhob ysgol uwchradd fodern, y mae'r Cyngor o'r farn y dylid dewis rhai ysgolion arbennig i ateb yr alwad dros ardal benodedig drwyddi draw.

Y mae llawer i'w ddweud dros gynllun prentisiaeth sy'n cynnwys blwyddyn amser-llawn mewn coleg technegol (er enghraifft, cynllun y Bwrdd Glo i beirianwyr a thrydanwyr pwll), neu mewn Ysgol Hyfforddiant Gwaith (ynghyd â rhyddhad dydd i ddysgu egwyddorion y grefft mewn coleg technegol). Yn ei flwyddyn gyntaf caiff prentis hyfforddiant ymarferol eang a diogel a rydd iddo sylfaen i adeiladu arni feistrolaeth ar ei grefft ym mlynyddoedd dilynol ei brentisiaeth.

Er nad yw'r cwrs rhyddhad cryno eto ond yn ei fabandod, mae'r Cyngor yn ffyddiog ynglŷn â chymeradwyo'r modd y mae'n rhagori ar gwrs rhyddhad dydd i bob diwydiant lle gellir rhyddhau prentisiaid am gyfnodau o gymaint â mis ar y tro dair gwaith y flwyddyn. Y mae'n gobeithio y datblygant ymhellach yng Nghymru, oblegid, yn ogystal a rhagoriaethau addysgol, y maent yn arbennig o hwylus i brentisiaid sy'n rhy bell i ffwrdd i elwa ar gyrsiau rhyddhad dydd. Ond rhaid bod yn ofalus fod eu trefniant yn ateb galluoedd academaidd prentisiaid crefft a gweithyddion. Y mae mis o amser-llawn yn rhoi mwy o gyfle i astudio cyson ond byddai rhoi gormod o sylw i theori, drwy gyfrwng darlithiau, heb lefain digonol o waith ymarferol mewn labordy yn debyg o beri 'diffyg traul academaidd' mewn cyfnod o astudio clos fel hyn.

Nid oes cysondeb ynglŷn â thâl prentis pan fo mewn coleg gan fod newid mawr yn hyn o beth rhwng arfer y naill ddiwydiant a'r llall. Caiff prentisiaid rhai diwydiannau ryddhad hyd un-ar-hugain oed ac weithiau yn hwy, eraill hyd ddeunaw oed ac y mae rhai diwydiannau'n gwrthod rhyddhad o gwbl, gyda chyflog neu hebddo. Mae'r Cyngor yn annog diwydianwyr i unioni'r anghysondeb yma drwy gynnig rhyddhad gyda chyflog i brentisiaid drwy holl gyfnod eu prentisiaeth, cyhyd ag y dilynant eu cyrsiau'n foddhaol.

Y Meysydd Llafur

Gellir rhannu cyrsiau prentisiaid crefft mewn colegau technegol yn fras i ddau gategori—cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol a chyrsiau crefft ar gyfer arholiadau'r *City and Guilds of London Institute.* Fel y sylwyd eisoes, y mae cymwysterau'r Dystysgrif Genedlaethol yn uchel eu parch mewn diwydiant. Am hynny, gan eu bod yn allwedd i wellhad personol, y mae llawer prentis yn ceisio dilyn cyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol er na pherthyn iddo'r gallu academaidd na'r dyfalbarhad i ateb gofynion y Dystysgrif. Y mae llawer yn diffygio ym mlwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn y cwrs mewn siomiant a diflastod. Bydd llawer o'r rhai siomedig wedyn yn croesi i gwrs y *City and Guilds.* Hen arfer wael iawn yw hon ym marn y Cyngor. Rhaid wrth wastraff a siom am ddwy flynedd er mwyn argyhoeddi'r prentisiaid eu hunain ac efallai eu meistri a'u hathrawon nad yw eu gallu'n ddigonol ac mai cyrsiau crefft sydd addas iddynt.

Y mae ffigurau'r gwastraff hwn yn ddigon i beri pryder. (Rhoddwyd enghraifft eisoes ar dudalen 101). Nid yw'n broblem arbennig Gymreig gan fod ffigurau tebyg dros Brydain ben baladr. Credwn fod mwy nag un rheswm dros y gwastraff a dyma rai.

(a) sylw annigonol i allu academaidd myfyriwr cyn ei dderbyn i mewn i flwyddyn gyntaf y cwrs. Gan fod cwrs Tystysgrif Genedlaethol yn gofyn cryn dipyn o allu academaidd, barna'r Cyngor y dylid newid cymwysterau derbyn a rhoi yn eu lle rai sy'n nodi'n decach wir allu academaidd y myfyriwr. Felly awgryma'r Cyngor roi terfyn ar dderbyn ar sail Tystysgrif Genedlaethol Ragbaratoawl ac hefyd cwrs blwyddyn gyntaf (S.1). Dylid yn hytrach dderbyn i mewn i gwrs Tystysgrif Genedlaethol ar lefel cwrs presennol yr ail flwyddyn sef S.2. Byddai'r cwrs wedyn yn gwrs dwy flynedd i lefel Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol a dwy flynedd ymhellach i'r lefel Uwch. Yn fwy na hyn, awgrymir y dylid mynnu llwyddiant lefel pasio mewn pedwar pwnc pwrpasol yn Arholiad Gyffredinol y *G.C.E.*, a hynny ar y cynnig cyntaf neu'r ail, fel amod lleiaf derbyniad. Ym marn y Cyngor byddai cymhwyster o'r safon weddol uchel hon a gydnabyddir drwy'r wlad yn gyfan ac a ddilynai waith mewn ysgol neu goleg technegol yn well prawf diagnosdig na'r arholiad S.1. bresennol. Hefyd, os methiant fyddai rhan y myfyriwr yn ei yrfa bellach tuag at Dystysgrif Genedlaethol, byddai cymhwyster G.C.E. yn fwy gwerthfawr iddo na llwyddiant yn S.1., pe dymunai symud i feysydd eraill. Dylid dal at y drefn bresennol o groesi o gyrsiau crefft i gyrsiau Tystysgrif Genedlaethol ar lefelau priodol;

(b) prinder athrawon gyda chymwysterau addas. Gan fod diwydiant wedi llyncu cymaint o wyddonwyr a thechnolegwyr er y rhyfel, y mae'r colegau technegol wedi dioddef gan brinder athrawon teilwng. Ar hyn o bryd, er bod gan athrawon colegau technegol gymwysterau academaidd yn y pynciau a ddysgant yno, nid yw llawer ohonynt wedi derbyn hyfforddiant o gwbl mewn dulliau dysgu. Un o argymhellion y Pwyllgor ar Hyfforddiant a Chyflenwad Athrawon Colegau Technegol, a gyhoeddwyd ym Mai 1957, oedd y dylid cynnal mwy o gyrsiau byrion a chyrsiau rhan-amser gan awdurdodau addysg lleol a Chynghorau Rhanbarthol Ymgynghorol ar Addysg Bellach. Rhoddai'r rhain gyfle i athrawon colegau technegol, lle byddai gofyn, dderbyn hyfforddiant mewn egwyddorion dysgu ac yn arbennig ddysgu pynciau technegol. Yng Nghymru yn 1958-59, cynhaliwyd dau gwrs o'r fath. Cwrs preswyl o wythnos oedd un ar ddysgu mathemateg mewn colegau technegol; cynhaliwyd ef dan nawdd y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig. Cwrs rhan-amser ar egwyddorion cyffredinol dysgu oedd y llall. Fe'i cynhaliwyd yng Ngholeg Technegol Wrecsam a threfnwyd ef gan adran addysg Coleg y Gogledd, Bangor. Yn haf 1957, trefnodd pwyllgor addysg Sir Fflint, gyda chydweithrediad Coleg Hyfforddi Athrawon yn Bolton, gwrs wythnos ar egwyddorion cyffredinol a dulliau arbennig dysgu technegol yng Ngholeg Technegol Sir Fflint. Fel rhan o raglen eu Hysgol Haf flynyddol i athrawon, bydd awdurdod addysg Sir Gaerfyrddin yn cynnig cwrs ar ddulliau dysgu pynciau technegol, ar gyfer athrawon colegau technegol. Ym Medi 1953, cychwynnwyd cyrsiau rhan-amser yng Ngholeg Technegol a Masnachol Caerdydd, bellach Coleg Technoleg Uwch Cymru, baratoi ar gyfer Tystysgrif Athro Technegol y *City and Guilds*. Tystysgrif yw hon ar gyfer athrawon rhan-amser mewn sefydliadau addysg bellach neu rai a'u bryd ar waith dysgu rhan-amser o'r fath. Mae'n agored hefyd i athrawon amser-llawn mewn ysbytai, diwydiant, sefydliadau addysg dechnegol, etc.—athrawon sydd heb dderbyn hyfforddiant mewn addysgu fel y cyfryw. Cynigir dau gwrs rhan-amser, un a gynhelir ar un prynhawn ac un noson bob wythnos am flwyddyn, ac un arall a gynhelir ar un noson bob wythnos am ddwy flynedd. Deallir mai nifer siomedig o isel sydd wedi ymateb trwy ddilyn y cyrsiau hyn. Os arwydd o hunanfodlonrwydd yn y colegau technegol yw hyn, yn sicr rhaid ei ddileu.

Tra noda'r Cyngor y ceisiadau hyn gyda pharch y mae'n barnu nad ydynt yn ddigonol o bell ffordd i ateb gofynion y dydd. Felly mae'n annog awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethol colegau technegol a'u prifathrawon hefyd i roi pob gewyn ar waith i gynnal cyrsiau ac i roi rhwydd hynt i athrawon rhan-amser ac amser-llawn i'w dilyn trwy gynnig rhyddhad a help ariannol yn ôl y gofyn. Deallwn fod y Cyd-hwyllgor Addysg Cymreig wedi cychwyn ar gynllun i gynnal cyrsiau yn nhymor yr haf yng Ngholeg Technolegol Uwch Cymru er mwyn athrawon sydd eisoes yn dysgu mewn colegau technegol. Gobeithiwn y rhoddir i'r cais hwn gefnogaeth lwyr awdurdodau addysg lleol ac y caiff poh athro yn y colegau, heb dderbyn hyfforddiant mewn dysgu, gynnig mynd yno;

(c) cydweithrediad annigonol rhwng diwydiant a'r colegau technegol. Rhaid wrth y cydweithrediad hwn i ddiogelu buddiannau gorau'r myfyrwyr. Dylai diwydiant a choleg ofalu am sicrhau fod pob myfyriwr yn dilyn y cwrs mwyaf addas iddo. Mae lle i gredu fod rhai ffyrmiau'n disgwyl i'w prentisiaid ddilyn cwrs Tystysgrif Genedlaethol lle byddai cwrs *City and Guilds* yn fwy buddiol. Efallai mai rhyw rodres sydd wrth wraidd hyn neu efallai ddiffyg gwybodaeth am safon y cwrs ac am fodolaeth cwrs arall mwy pwrpasol. Beth bynnag fo'r gwir reswm amdano, dyma fater sy'n gofyn am sylw gofalus yn fuan. Gall camgynghori esgor ar ganlyniadau difrifol i'r prentis. Y mae'n gyfrifoldeb arbennig ar Swyddogion Addysg ac Hyfforddiant cwmnïau diwydiannol i gydweithio gyda phrifathrawon colegau technegol i warchod gwir fuddiannau'r myfyrwyr;

(ch) diogi a diffyg dyfal-barhad rhai myfyrwyr. Mae llawer ohonynt yn dilyn cyrsiau, heb unrhyw wir awydd i wneud hynny, ar orchymyn eu meistri yn unig. Gan nad yw methiant yn y cwrs yn lleihau eu siawns i fwrw prentisiaeth yn llwyddiannus, ac nad yw llwyddiant yn gwarantu dyrchafiad personol neu godiad ariannol, ni wêl prentis sydd heb lawer o uchelgais, bwrpas mewn dal ati. Byddai cadw llygad arnynt gan rieni, swyddogion gwaith a swyddogion coleg yn gymorth mawr i symud y difaterwch sydd mor nodweddiadol o agwedd rhai prentisiaid at eu cyrsiau;

(d) ansawdd wasgarog a thoredig yr hyfforddiant, sydd ynghlwm o reidrwydd wrth gyrsiau rhyddhad-dydd. Y mae wythnos rhwng pob gwers ac y mae hyn yn rhwystr arbennig i fyfyrwyr gwan. Ni fedr gydio mewn pwynt; rhaid gwario llawer gormod o amser ar ddechrau gwers i ail-adrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes. Yn y fan yma y gwelir rhagoriaeth rhyddhad cryno yn amlwg; y mae cyfle i astudio yn ddi-fwlch mewn cwrs felly ac hefyd gyfle i ymhêl â phynciau ar wahân i'r rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer yr arholiad. Er mai newydd yw'r cyrsiau yma, y mae'n harod le i gredu fod eu canlyniadau mewn arholiad yn rhagori ar rai cwrs rhyddhad-dydd. Dyma ffigurau o Goleg Technegol Llandaf yn 1958-59:

Pwnc	Llwyddiant mewn Arholiadau	
	Cwrs Cryno	Cwrs Rhyddhad-dydd
Peirianneg Fecanyddol (*O.N.C.*)	83 y cant	76 y cant
Peirianneg Gweithdy Peiriant (Canolradd)	62 y cant	30 y cant
Gosod Offer Trydan—Cwrs C	88 y cant	65 y cant

(vi) cyfle tecach i blant ardaloedd gwledig, gan roi iddynt gystal cyfle i dderbyn prentisiaeth â phlant tref a dinas yn yr ardaloedd diwydiannol.

Gŵyr y Cyngor yn dda nad hawdd fyddai newid y drefn bresennol a rhoi trefn genedlaethol yn ei lle, a chodai llawer problem anodd ynglŷn â gweinyddu trefn felly. Un broblem ganolog fyddai dod o hyd i nifer digonol o athrawon gyda'r cymwysterau angenrheidiol. Y cam pwysig cyntaf i ddatrys y broblem hon fyddai sefydlu cwrs i athrawon, a'u bryd ar waith fel hyn, yn un o golegau hyfforddi Cymru. Gŵyr y Cyngor hefyd na fyddai gobaith am lwyddiant heb gymorth parod y Llywodraeth, diwydiant a'r undebau llafur. Ond er yr holl anawsterau, y mae'r Cyngor yn bendant o'r farn fod yn rhaid wrth y newid hwn. Yn hyn o beth nid yw'r Cyngor yn cydfynd â chasgliadau adroddiad Carr *Training for Skill** ac adroddiad y Cyngor Canol ar Addysg Lloegr 15 *to* 18.†

Rhaid edrych ar bolisi fel hwn fel polisi dros hir amser gan nad oes modd sefydlu canolfannau hyfforddi ar amrantiad (hyn ymhlith pethau eraill). Yn y cyfamser, ac fel ail ddewis os gwrthodir trefn genedlaethol, mae'r Cyngor yn argymell gostwng hyd prentisiaeth crefft o'r pum mlynedd presennol i dair blynedd gan gymryd yn ganiataol y byddai'r prentisiaid a dderbynnid gan ddiwydiant rhwng 17 ac 18 oed wedi derbyn dwy flynedd o addysg amser llawn yn y pynciau sy'n sylfaenol ar gyfer addysg dechnegol. Cwrs arbennig dwy flynedd fyddai hwn mewn sefydliadau addysg addas, o ran staff ac o ran darpariaeth gyffredinol. Gallai fod mewn ysgol wedi ei dewis i wasanaethu ardal neu mewn coleg addysg bellach yn ôl amgylchiadau lleol. Dechreuai ar gyfer rhai rhwng 15 a 16 oed gan barhau hyd at arholiad arbennig i rai rhwng 17 ac 18 oed. Arholiad allanol fyddai orau, yng Nghymru o dan nawdd y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig. Byddai diwydianwyr yn gweld ymgeiswyr am brentisiaeth ddiwydiannol yn nhymor olaf y cwrs ac yn eu dewis yn derfynol ar ôl cwpláu'r cwrs.

Pynciau sylfaenol cwrs amser-llawn felly fyddai'r rhai arferol ym mhob rhan o ddiwydiant ymron, sef Saesneg, mathematig, ffiseg, cemeg, lluniadu peirianegol ynghyd â chwrs helaeth mewn ymarfer gweithdy a thechnoleg. Byddai pob maes llafur yn arddel gofynion cyffredinol diwydiant a byddai'n pwysleisio cymhwyso ymarferol. Mewn rhai ardaloedd gellid caniatáu gogwydd at ddiwydiant arbennig a hynny er mantais pe gwneid hyn heb newid ansawdd a safon yr hyfforddiant. Hefyd, dylid ymwneud â phynciau eraill a fyddai o werth diwylliannol i ddinasyddion y dyfodol.

Gŵyr y Cyngor na fyddai pawb ar ôl dilyn y cwrs yn derbyn prentisiaeth ond ychydig fyddai'r rhain, gobeithio, a dylai diwydiant fod yn barod i gydweithredu drwy dderbyn pawb a fyddai yn llwyddiannus i swydd bwrpasol os nad i brentisiaeth. Fodd bynnag, ni allai'r safon uwch o hyfforddiant addysgol a gyflwynid i gymaint fwy o brentisiaid lai na dylanwadu'n llesol ar gymdeithas. Byddai trefnusrwydd newydd mewn addysg dechnegol. Byddai'n achub llawer o blant ysgol rhag y benbleth anodd o orfod dewis, pan fyddant rhwng pymtheg ag un-ar-bymtheg oed, rhwng derbyn prentisiaeth a rhoi'r gorau i arholiad y *G.C.E.* ar y naill law ag aros yn yr ysgol i eistedd yr arholiad a cholli prentisiaeth oherwydd eu hoed ar y llaw arall. Canys er mai ar gyfer arholiad prentisiaeth y bwriedid y cwrs, gallai plant a ddilynai'r cwrs hwn eto eistedd arholaid y *G.C.E.* yn ôl eu dewis ar yr adeg briodol.

---

* para. 18 'dylai'r cyfrifoldeb am hyfforddiant diwydiannol prentisiaid orwedd yn bendant ar ysgwyddau diwydiant.' Gwasg ei Mawrhydi, 195.

† *Loc. cit.*

Cyrsiau Uwch

Darpariaeth Ychwanegol mewn Colegau Technegol

Cyflwynodd y Llywodraeth raglen datblygu colegau technegol y wlad ym Mhapur Gwyn 1956 ar Addysg Dechnegol. Ymhlith pethau eraill, dyrchafwyd nifer o golegau i fod yn golegau technoleg uwch a gosodwyd nod newydd, sef codi nifer disgyblion cyrsiau uwch colegau technolegol o 9,500 i 15,000. Pwysleisiodd y Papur Gwyn yn arbennig werth cyrsiau rhyngosod. Gofynnodd i ddiwydianwyr ac awdurdodau lleol roi pob cymorth i fyfyrwyr gyda'r gallu i ddilyn cwrs uwch, yn arbennig cwrs amser-llawn neu gwrs rhyngosod.

Ymateb Siomedig Cymru i Gyrsiau Rhyngosod Uwch

Siomedig iawn hyd yma fu'r ymateb yng Nghymru i'r apel. Y mae cyrsiau mewn Peirianneg Fecanyddol ac mewn Peirianneg Drydanol, wedi eu cymeradwyo eisoes ar gyfer Diploma mewn Technoleg yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru. Hyd yn hyn ychydig a'u dilynodd (gweler tudalen 104). Er i'r Coleg gael hawl i gynnal cyrsiau mewn Ffiseg Gymhwysol ym Medi 1958, ni bu digon o ofyn hyd yn awr (Ionawr 1960) i roi cychwyn arnynt. Isel hefyd fu'r nifer a gofrestrwyd i Gyrsiau'r Ddiploma Genedlaethol Uwch yn y Coleg hwn ac yng ngholegau technegol eraill Cymru. O'r rhai a dderbyniodd Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn 1958 ac a feddai felly'r cymwysterau, ymunodd llai na 2 y cant â chwrs Diploma Dechnoleg ym Medi 1958. Byddai 7 y cant yn amcangyfrif hael, fel ffigur cyfatebol o'r nifer a ymunodd â chwrs Diploma Genedlaethol Uwch. Anodd deall ffigurau fel hyn yn y sefyllfa bresennol. Ar un llaw y mae gofyn taer drwy'r wlad am wyddonwyr a thechnolegwyr cymwys ac y mae'r cyfleusterau hyfforddi yn bod mewn colegau technegol arbennig. Ar y llaw arall, o'r rhai a enillodd Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol mewn cyrsiau rhyddhad dydd ac a ddangosodd drwy hyn y gallent elwa ar gyrsiau rhyngosod ar gyfer ennill cymwysterau uwch, ychydig sy'n dilyn y cyrsiau hyn. Parhânt, y mwyafrif mawr ohonynt, gyda chyrsiau rhyddhad dydd ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol Uwch. Yn sicr, gall y llwybr yma arwain at statws technolegwr ond rhaid sylwi ar eisiau'r Papur Gwyn ar Addysg Dechnegol: 'fel y datblyga technolegau yn fwyfwy cymhleth gan beri bod yn rhaid i'r technolegwr yntau fod yn fwy amryddawn, bydd straen ceisio cyrraedd safon uchel trwy astudio min nos neu ddiwrnod neu ddau'r wythnos, yn mynd yn llymach'. Mae'r Cyngor o'r farn mai cwrs rhyngosod uwch diploma yw'r llwybr priodol i statws technolegwr, ar wahân i gwrs gradd prifysgol, a dylid cydnabod hyn yn gyffredinol. Yn yr un modd, dylid cydnabod y Dystysgrif Genedlaethol Uwch fel cymhwyster priodol i dechnegwr o radd uchel. Llwybr i'r lleiafrif ac nid i'r mwyafrif fel yn awr, i gyrraedd statws technolegwyr y dylai'r Dystysgrif Genedlaethol fod. I leiafrif o rai cymwys wedi ennil Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol dylai ddal yn llwybr ar yr amod fod y lleiafrif hyn yn cael eu rhyddhau o'u gwaith am yspeidiau mwy sylweddol i ddilyn y cwrs.

I raddau helaeth iawn, y mae'r allwedd i broblem darparu ar gyfer gofynion diwydiant am ddynion a chanddynt gymwysterau uchel yn nwylo'r diwydianwyr eu hunain. Y mae darpariaeth hyfforddi eisoes yn bod. Ond er fod diwydianwyr yn gyffredinol yn barod i ganiatáu rhyddhad dydd, ni chynigir yn gyffredinol gyfle i ddilyn cyrsiau rhyngosod uwch. Mae'r Cyngor yn mawr obeithio mai rhywbeth dros dro yw'r diffyg hwn. Rhaid cofio mai newydd-ddyfodiaid yw'r cyrsiau rhyngosod. Dylai diwydianwyr, prifathrawon colegau technegol ac awdurdodau addysg lleol wneud eu gorau glas i roi pob cyfle i rai cymwys i'w dilyn.

(vi) cyfle tecach i blant ardaloedd gwledig, gan roi iddynt gystal cyfle i dderbyn prentisiaeth â phlant tref a dinas yn yr ardaloedd diwydiannol.

Gŵyr y Cyngor yn dda nad hawdd fyddai newid y drefn bresennol a rhoi trefn genedlaethol yn ei lle, a chodai llawer problem anodd ynglŷn â gweinyddu trefn felly. Un broblem ganolog fyddai dod o hyd i nifer digonol o athrawon gyda'r cymwysterau angenrheidiol. Y cam pwysig cyntaf i ddatrys y broblem hon fyddai sefydlu cwrs i athrawon, a'u bryd ar waith fel hyn, yn un o golegau hyfforddi Cymru. Gŵyr y Cyngor hefyd na fyddai gobaith am lwyddiant heb gymorth parod y Llywodraeth, diwydiant a'r undebau llafur. Ond er yr holl anawsterau, y mae'r Cyngor yn bendant o'r farn fod yn rhaid wrth y newid hwn. Yn hyn o beth nid yw'r Cyngor yn cydfynd â chasgliadau adroddiad Carr *Training for Skill** ac adroddiad y Cyngor Canol ar Addysg Lloegr 15 *to* 18.†

Rhaid edrych ar bolisi fel hwn fel polisi dros hir amser gan nad oes modd sefydlu canolfannau hyfforddi ar amrantiad (hyn ymhlith pethau eraill). Yn y cyfamser, ac fel ail ddewis os gwrthodir trefn genedlaethol, mae'r Cyngor yn argymell gostwng hyd prentisiaeth crefft o'r pum mlynedd presennol i dair blynedd gan gymryd yn ganiataol y byddai'r prentisiaid a dderbynnid gan ddiwydiant rhwng 17 ac 18 oed wedi derbyn dwy flynedd o addysg amser llawn yn y pynciau sy'n sylfaenol ar gyfer addysg dechnegol. Cwrs arbennig dwy flynedd fyddai hwn mewn sefydliadau addysg addas, o ran staff ac o ran darpariaeth gyffredinol. Gallai fod mewn ysgol wedi ei dewis i wasanaethu ardal neu mewn coleg addysg bellach yn ôl amgylchiadau lleol. Dechreuai ar gyfer rhai rhwng 15 a 16 oed gan barhau hyd at arholiad arbennig i rai rhwng 17 ac 18 oed. Arholiad allanol fyddai orau, yng Nghymru o dan nawdd y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig. Byddai diwydianwyr yn gweld ymgeiswyr am brentisiaeth ddiwydiannol yn nhymor olaf y cwrs ac yn eu dewis yn derfynol ar ôl cwpláu'r cwrs.

Pynciau sylfaenol cwrs amser-llawn felly fyddai'r rhai arferol ym mhob rhan o ddiwydiant ymron, sef Saesneg, mathematig, ffiseg, cemeg, lluniadu peirianegol ynghyd â chwrs helaeth mewn ymarfer gweithdy a thechnoleg. Byddai pob maes llafur yn arddel gofynion cyffredinol diwydiant a byddai'n pwysleisio cymhwyso ymarferol. Mewn rhai ardaloedd gellid caniatáu gogwydd at ddiwydiant arbennig a hynny er mantais pe gwneid hyn heb newid ansawdd a safon yr hyfforddiant. Hefyd, dylid ymwneud â phynciau eraill a fyddai o werth diwylliannol i ddinasyddion y dyfodol.

Gŵyr y Cyngor na fyddai pawb ar ôl dilyn y cwrs yn derbyn prentisiaeth ond ychydig fyddai'r rhain, gobeithio, a dylai diwydiant fod yn barod i gydweithredu drwy dderbyn pawb a fyddai yn llwyddiannus i swydd bwrpasol os nad i brentisiaeth. Fodd bynnag, ni allai'r safon uwch o hyfforddiant addysgol a gyflwynid i gymaint fwy o brentisiaid lai na dylanwadu'n llesol ar gymdeithas. Byddai trefnusrwydd newydd mewn addysg dechnegol. Byddai'n achub llawer o blant ysgol rhag y benbleth anodd o orfod dewis, pan fyddant rhwng pymtheg ag un-ar-bymtheg oed, rhwng derbyn prentisiaeth a rhoi'r gorau i arholiad y *G.C.E.* ar y naill law ac aros yn yr ysgol i eistedd yr arholiad a cholli prentisiaeth oherwydd eu hoed ar y llaw arall. Canys er mai ar gyfer arholiad prentisiaeth y bwriedid y cwrs, gallai plant a ddilynai'r cwrs hwn eto eistedd arholaid y *G.C.E.* yn ôl eu dewis ar yr adeg briodol.

---

* para. 18 'dylai'r cyfrifoldeb am hyfforddiant diwydiannol prentisiaid orwedd yn bendant ar ysgwyddau diwydiant.' Gwasg ei Mawrhydi, 195.

† *Loc. cit.*

Cyrsiau Uwch

Darpariaeth Ychwanegol mewn Colegau Technegol

Cyflwynodd y Llywodraeth raglen datblygu colegau technegol y wlad ym Mhapur Gwyn 1956 ar Addysg Dechnegol. Ymhlith pethau eraill, dyrchafwyd nifer o golegau i fod yn golegau technoleg uwch a gosodwyd nod newydd, sef codi nifer disgyblion cyrsiau uwch colegau technolegol o 9,500 i 15,000. Pwysleisiodd y Papur Gwyn yn arbennig werth cyrsiau rhyngosod. Gofynnodd i ddiwydianwyr ac awdurdodau lleol roi pob cymorth i fyfyrwyr gyda'r gallu i ddilyn cwrs uwch, yn arbennig cwrs amser-llawn neu gwrs rhyngosod.

Ymateb Siomedig Cymru i Gyrsiau Rhyngosod Uwch

Siomedig iawn hyd yma fu'r ymateb yng Nghymru i'r apel. Y mae cyrsiau mewn Peirianneg Fecanyddol ac mewn Peirianneg Drydanol, wedi eu cymeradwyo eisoes ar gyfer Diploma mewn Technoleg yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru. Hyd yn hyn ychydig a'u dilynodd (gweler tudalen 104). Er i'r Coleg gael hawl i gynnal cyrsiau mewn Ffiseg Gymhwysol ym Medi 1958, ni bu digon o ofyn hyd yn awr (Ionawr 1960) i roi cychwyn arnynt. Isel hefyd fu'r nifer a gofrestrwyd i Gyrsiau'r Ddiploma Genedlaethol Uwch yn y Coleg hwn ac yng ngholegau technegol eraill Cymru. O'r rhai a dderbyniodd Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol yn 1958 ac a feddai felly'r cymwysterau, ymunodd llai na 2 y cant â chwrs Diploma Dechnoleg ym Medi 1958. Byddai 7 y cant yn amcangyfrif hael, fel ffigur cyfatebol o'r nifer a ymunodd â chwrs Diploma Genedlaethol Uwch. Anodd deall ffigurau fel hyn yn y sefyllfa bresennol. Ar un llaw y mae gofyn taer drwy'r wlad am wyddonwyr a thechnolegwyr cymwys ac y mae'r cyfleusterau hyfforddi yn bod mewn colegau technegol arbennig. Ar y llaw arall, o'r rhai a enillodd Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol mewn cyrsiau rhyddhad dydd ac a ddangosodd drwy hyn y gallent elwa ar gyrsiau rhyngosod ar gyfer ennill cymwysterau uwch, ychydig sy'n dilyn y cyrsiau hyn. Parhânt, y mwyafrif mawr ohonynt, gyda chyrsiau rhyddhad dydd ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol Uwch. Yn sicr, gall y llwybr yma arwain at statws technolegwr ond rhaid sylwi ar eisiau'r Papur Gywn ar Addysg Dechnegol: 'fel y datblyga technolegau yn fwyfwy cymhleth gan beri bod yn rhaid i'r technolegwr yntau fod yn fwy amryddawn, bydd straen ceisio cyrraedd safon uchel trwy astudio min nos neu ddiwrnod neu ddau'r wythnos, yn mynd yn llymach'. Mae'r Cyngor o'r farn mai cwrs rhyngosod uwch diploma yw'r llwybr priodol i statws technolegwr, ar wahân i gwrs gradd prifysgol, a dylid cydnabod hyn yn gyffredinol. Yn yr un modd, dylid cydnabod y Dystysgrif Genedlaethol Uwch fel cymhwyster priodol i dechnegwr o radd uchel. Llwybr i'r lleiafrif ac nid i'r mwyafrif fel yn awr, i gyrraedd statws technolegwyr y dylai'r Dystysgrif Genedlaethol fod. I leiafrif o rai cymwys wedi ennil Tystysgrif Genedlaethol Gyffredinol dylai ddal yn llwybr ar yr amod fod y lleiafrif hyn yn cael eu rhyddhau o'u gwaith am yspeidiau mwy sylweddol i ddilyn y cwrs.

I raddau helaeth iawn, y mae'r allwedd i broblem darparu ar gyfer gofynion diwydiant am ddynion a chanddynt gymwysterau uchel yn nwylo'r diwydianwyr eu hunain. Y mae darpariaeth hyfforddi eisoes yn bod. Ond er fod diwydianwyr yn gyffredinol yn barod i ganiatáu rhyddhad dydd, ni chynigir yn gyffredinol gyfle i ddilyn cyrsiau rhyngosod uwch. Mae'r Cyngor yn mawr obeithio mai rhywbeth dros dro yw'r diffyg hwn. Rhaid cofio mai newydd-ddyfodiaid yw'r cyrsiau rhyngosod. Dylai diwydianwyr, prifathrawon colegau technegol ac awdurdodau addysg lleol wneud eu gorau glas i roi pob cyfle i rai cymwys i'w dilyn.

Rhaid nodi'n arbennig ddiffyg cefnogaeth i gyrsiau rhyngosod uwch mewn cemeg a chemeg ddiwydiannol yn Ne Cymru, oblegid y mae yma bellach doreth o ddiwydiannau cemegol. Saith myfyriwr, sef pedwar mewn cwrs amser-llawn a thri mewn cwrs rhyngosod, a ddilynai'r cyrsiau hyn yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru yn 1958-9. Pedwar yn unig, bob un yn syth o ysgol ramadeg, a geisiodd gychwyn cwrs Diploma Genedlaethol Uwch yn y Coleg ym Medi 1959; ni chynhaliwyd y cwrs am fod y nifer mor fychan. Heb ymateb gwell, fe ddaw adeg efallai pan fydd bodolaeth cyrsiau eraill mewn perygl. Y mae hyn oll yn wyneb y ffaith fod nifer helaeth o'r rhai a enillodd Dystysgrif Genedlaethol Uwch mewn Cemeg yn 1958 a 1959 wedi gwneud yn ddigon da i fedru'n deg obeithio bod yn ŵr gradd o'r *Royal Institute of Chemistry*, a bwrw eu bod yn cael cyfle. Byddai'n bosibl iddynt wneud hyn trwy arholiad Rhan I ar ôl cwrs rhyngosod tair blynedd ac yna Rhan II ar ôl cwrs rhyngosod pellach am ddwy flynedd neu gwrs amser-llawn am flwyddyn. Teg yw barnu na fyddai diwydiant yn llyncu cymaint o raddedigion prifysgol pe byddai diwudianwyr yn cefnogi o ddifrif addysg a hyfforddiant myfyrwyr addawol cwrs y Dystysgrif Genedlaethol. Fe fyddai cefnogi egniol yn debyg o lacio problem prinder athrawon graddedig mewn Gwyddoniaeth yn yr ysgolion.

Os bydd diffyg cefnogaeth i gyrsiau uwch mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yng Ngholeg Technoleg Uwch Cymru yn parhau, yna yn sicr bydd yn bryd gofyn yn ddifrifol a oes lle yng Nghymru i goleg o'r safon yma. Mae rhai o ffyrmiau mwyaf Cymru yn llwyr anwybyddu cyfleusterau'r Coleg trwy ddanfon eu prentisiaid i gyrsiau rhyngosod uwch mewn colegau technolog uwch a cholegau technegol eraill yn Lloegr. Am hynny nid yw llawer o'r gefnogaeth a ddisgwylid pan sefydlwyd y Coleg Technegol Uwch yng Nghaerdydd wedi dod i'r golwg. Er hyn y mae'r Cyngor o'r farn y ceid digon o gefnogaeth i roi rhwydd hynt i'r Coleg ar y tri amod a ganlyn.

(a) rhaid i ddiwydiant fod yn barod i ryddhau rhai cymwys am y cyfnodau gofynnol o chwe mis i ddilyn cyrsiau rhyngosod Diploma Dechnoleg a chyrsiau uwch eraill;

(b) rhaid i brifathrawon colegau technegol gynghori a chymell y rhai sy'n rhagori yn arholiadau'r Dystysgrif Genedlaethol Gyffredinol i ddilyn cyrsiau rhyngosod uwch yn hytrach na dal ymlaen gyda chyrsiau'r Dystysgrif Genedlaethol Uwch. Rhaid iddynt hefyd egluro i fyfyrwyr fod grantiau awdurdodau addysg lleol ar gael i'w cynnal os bydd eu meistri gwaith yn gwrthod cymorth ariannol.

(c) rhaid cynllunio cyrsiau uwch y Coleg Technoleg a cholegau eraill i osgoi dyblu a chydredeg cyrsiau yn ddianghenraid.

Coleg Technoleg Uwch Cymru a Phrifysgol Cymru

Yr oedd yn rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried y berthynas a allai fod rhwng Coleg Technoleg Uwch Cymru a Phrifysgol Cymru. Rhoddwyd braslun o waith y Coleg Technoleg a rhai o'i broblemau yma yn barod; rhoddwyd hefyd fraslun o gynlluniau'r Brifysgol ar gyfer gwyddoniaeth gymhwysol. Teg yw gofyn a oes cydweithrediad a chyd-ddealltwriaeth rhwng y Coleg Technoleg ac adrannau'r Brifysgol yn unol â gobaith y Papur Gwyn ar Addysg Dechnegol*. Oblegid teg fyddai disgwyl cydweithrediad rhwng rhai sy'n cyflwyno addysg dechnegol o gyfryw safon er bod y naill yn delio â chyrsiau rhyngosod Diploma Dechnoleg a'r llall â chyrsiau amser-llawn ar gyfer gradd prifysgol.

---

* para. 75, Papur Gwyn Addysg Dechnegol 1956:
'Disgwylir i'r rhain (Colegau Technoleg Uwch) a phob coleg arall sy'n trin gwaith uwch glosio'n agos at y prifysgolion priodol. Gwneir hynny heddiw yn uniongyrchol a hefyd trwy Fyrddau Academaidd Rhanbarthol ar gyfer addysg dechnegol, lle y cydeistedda cynrychiolwyr awdurdodau addysg lleol, colegau technegol a diwydiant. Mae'n bur debyg y byddai'n bosibl cydffrwyno adnoddau prifysgolion a cholegau ar gyfer mwy o ymdrech nag a geir weithiau ar hyn o bryd'.

Ymddengys i'r Cyngor fod y Cymry at ei gilydd yn priodoli i addysg brifysgol fraint ac urddas sy'n fwy o lawer nag a briodolir i addysg dechnegol. Efallai na chafodd Coleg Technoleg Uwch Cymru yng Nghaerdydd eto'r amser i ennill ei blwyf ac na roddodd diwydianwyr Cymru iddo y gefnogaeth sy'n ddyledus iddo. Efallai bod eto ymhlith rhieni ac athrawon ysgolion gramadeg ragfarn yn erbyn addysg dechnegol y cymer amser i'w dileu. Efallai bod traddodiad a thymer meddwl Cymry yn gogwyddo tuag at ddysg llyfr a gysylltir â'r brifysgol yn hytrach nag at astudiaethau ymarferol y colegau technegol. Boed hyn fel y bo, ymddengys i'r Cyngor fod eisiau dangos i'r Cymry, yn athrawon, rhieni, diwydianwyr a disgyblion ysgol, fod addysg dechnegol o radd uchel y tu allan i'r brifysgol yn cynnig o ran disgyblaeth meddwl, rhyddid dewis a chyfle galwedigaeth gymaint ag addysg prifysgol ac mewn gwisg sy'n llawer mwy addas i aml un.

Cam pwysig tuag at greu y meddylddrych yma fyddai creu cysylltiad agos rhwng Coleg Technoleg Uwch Cymru a Phrifysgol Cymru. Nac anghofir fod Siarter ac Ystadudau Prifysgol Cymru yn cynnwys sylwadau manwl ar astudiaethau technegol ac efallai mai dyma'r adeg briodol i gyflawni bwriadau diymwâd rhai o sylfaenwyr y Brifysgol ac yn enwedig Coleg Caerdydd. Yn eu tyb hwy, yr oedd addysg dechnegol yn rhan o faes prifysgol. Er yr amser hwnnw, y mae'r Brifysgol wedi amgyffred fwyfwy ei chyfrifoldeb i'r gymdeithas ddiwydiannol sydd o'i hamgylch. Byddai'n cyfaddef heddiw yn fwy nag erioed o'r blaen fod pob gwybodaeth yn rhan o'i maes, boed wybodaeth ymarferol ddefnyddiol ai peidio, ymhell oddi wrth fywyd pob dydd neu yn rhan annatod ohono, ac mai'r unig amod y dylid ei chydnabod yw fod cyfle i chwilio pob gwybodaeth mewn rhyddid ac ar lefel uchaf cyraeddiadau meddwl dyn. Gellid dadlau fod y Prifathro Viriamu Jones a'i debyg, pan amlygodd ddiddordeb arbennig mewn addysg dechnegol, yn synio am rywbeth tra gwahanol i addysg dechnegol yn y wisg a adwaenwn ni heddiw. Dadleuwyd ger ein bron mai dod at wyddoniaeth trwy ymarfer ac arbrofi oedd y nod yn hytrach na pheri i'r Brifysgol ymdrechu'n fwriadol i gydweithio â diwydiant ym maes hyfforddiant ar y lefel uchaf i weithwyr diwydiannol. Anodd derbyn hyn, canys y mae Siarter y Brifysgol yn sôn am ffurfio Bwrdd Technoleg yn y Brifysgol. Y mae erthygl XXVI yn dweud, 'Bydd y Llys, ar argymhelliad y Cyngor, yn sefydlu Bwrdd, yn dwyn yr enw Bwrdd Technoleg y Brifysgol, i'r pwrpas o hyrwyddo addysg ac ymchwil dechnolegol ac i gynnal ymholiadau i'r pwrpas o wella dulliau diwydiannol a masnachol a bydd yn gosod allan, trwy Ystadud, gyfansoddiad, dyletswyddau ac awdurdad y Bwrdd hwn'.

Mae'r Siarter yn darparu hefyd ar gyfer Cyfadran Dechnoleg gyda'r graddau o faglor, meistr a doethor mewn Technoleg. Yn ôl y Siarter, un o ddyletswyddau'r Gyfadran fyddai 'rhoi cyngor i'r Bwrdd Academaidd ac i'r Cyngor ar ddatblygiad addysg ac ymchwil dechnolegol yng Nghymru'.

Dywedwyd digon i gadarnhau'r farn nad yw'r apêl am uniad closiach rhwng y Coleg Technolegol Uwch a'r Brifysgol yn anghyson â bwriadau'r Brifysgol yn ôl ei Siarter a'i Hystadudau. Yn sicr, dylid astudio'r holl fater yn fanwl. Nid oes amheuaeth na fyddai ieuad o ryw fath fel hyn yn esgor ar fanteision pendant. Byddai mwy o fri ar astudiaethau technegol yng Nghymru. Credwn y byddai mwy yn dilyn cyrsiau uwch gyda chefnogaeth barotach oddi wrth gyflogwyr. Yn ddiau, byddai anawsterau gweinyddol a phersonol ar y dechrau ond tyfai trefn hwylusach a rhatach gogyfer ag offer a staff a byddai myfyrywr ar eu hennill o gael addysg fwy amrywiol a mwy cyfoethog. Mantais arall go fawr a ddeilliai o hyn fyddai'r llinell derfyn gliriach ac amlycach a wahanai'r Coleg Technoleg oddi wrth y colegau technegol eraill sy'n darparu cyrsiau uwch. Byddai hefyd yn gam tuag at ddatblygu patrwm cliriach i sefydliadau addysg technegol yng Nghymru, patrwm y sylwyd arno eisoes yma.

Rhanbartholi Cyrsiau Uwch

Ar ddechrau'r bennod, sylwyd fod darpariaeth rhai sefydliadau yn fwy na'r gofyn. Dyma enghraifft: Yn sesiwn 1959-60, allan o 528 o gyrsiau uwch mewn 24 coleg technegol yng Nghymru, y mae nifer mynychwyr 384 o'r cyrsiau yn llai na'r nifer y bernir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer rhedeg cyrsiau uwch yn foddhaol yn ôl Memorandwm Gweinyddu 545 y Weinyddiaeth (Mawrth laf, 1957). Gan fod offer angenrheidiol i gyrsiau uwch yn ddrud, a staff cymwys yn brin, mae hyn yn beth gresynus. Mewn nifer o achosion, bydd dau, neu hyd yn oed dri, dosbarth a fo'n cynrychioli gwahanol flynyddoedd mewn cwrs arbennig yn cydweithio fel un dosbarth er mwyn ceisio cael nifer digonol. Mae'n ddigon posibl y gall y gwastraff hwn arwain yn y pen draw i ymyrraeth o du'r Weinyddiaeth Addysg a gwanhau, o ganlyniad, reolaeth yr awdurdodau lleol. Oni fyddai'n deg disgwyl i awdurdodau addysg lleol wynebu'r problemau hyn gyda rhagolwg ehangach, ac o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol yn hytrach nag o safbwynt lleol? Mae peirianwaith trefnu dros ardal fwy eang yn bod gan fod cyfrifoldeb cyfanu'r gwaith ar y lefel yma wedi ei osod ar y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig. Ond nid hawdd setlo'r broblem. Er bod darpariaeth leol yn achosi gwastraff, mae'n debyg hefyd o ddenu mwy o fyfyrwyr. Canys byddai llai o gyrsiau yn gofyn am barodrwydd i deithio ac yn wir yn gofyn yn gyffredinol am fwy o ymdrech gan fyfyrwyr. Canlyniad hyn fyddai llai ohonynt. Yn naturiol, mae awdurdodau addysg lleol yn awyddus i ddarparu ar gyfer gofynion myfyrwyr lleol hyd yr eithaf. Un ateb fyddai cyfyngu ar gyrsiau uwch, yn arbennig rhai cyrsiau Tystysgrif a Diploma Genedlaethol, a'u cadw mewn rhai colegau technegol Cymreig yn unig o dan reolaeth Cyngor Gweinyddu. Gallai Is-bwyllgor Technegol y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig fod yn Gyngor Gweinyddu neu gallai'r Is-bwyllgor benodi Cyngor o rai a chanddynt ddiddordeb arbennig mewn addysg dechnegol ond heb fod o angenrheidrwydd yn cynrychioli buddiannau arbennig, Byddai'r Cyngor yn annibynnol ac yn gweinyddu grantiau oddi wrth awdurdodau addysg lleol a'r Weinyddiaeth. Byddai hefyd yn penodi corff llywodraethol i bob coleg. Credwn y byddai pum coleg yn ddigon sef Coleg Technoleg Morgannwg yn Nhrefforest, Coleg Technoleg Casnewydd a Mynwy yng Nghasnewydd, Coleg Technegol Abertawe a'r Coleg Technoleg Uwch yng Nghaerdydd, y rhain yn y de, a Choleg Technegol Sir Ddinbych yn Wrecsam yn y gogledd. Byddai'r rhain yn ddigon i ateb gofynion presennol Cymru am gyrsiau uwch, a'r unig eithriadau fyddai cyrsiau arbennig coleg technegol lleol lle mae gwaith diwydiannol arbennig yn gofyn am y cyrsiau ac yn sicrhau nifer digonol o fyfyrwyr. Ceir enghreifftiau o hyn yng nghwrs peirianneg gemegol Coleg Castell-nedd a chwrs metaleg Coleg Technegol Sir Fflint. Felly, awgrymwn fod cyrsiau uwch Cymru, heblaw'r eithriadau hyn, i'w lleoli yn y pum coleg a nodwyd ac o dan reolaeth Cyngor Gweinyddu.

Yn y gwaith cynnil o ranbartholi cyrsiau uwch ac o gydgysylltu, lle bo angen, astudiaethau uwch prifysgol a cholegau technegol, ymddengys i'r Cyngor fod lle i ail-godi'r Bwrdd Technoleg Cymreig a gychwynnwyd yn 1946 ar awgrym Adroddiad pwyllgor yr Arglwydd Eustace Percy ar Addysg Dechnolegol Uwch. Yn fuan wedyn peidiodd y Bwrdd â gweithredu o achos anawsterau ynglŷn â'r cyfansoddiad. Dylid pwysleisio mai Bwrdd ymgynghorol fyddai, ond y mae'r Cyngor yn sicr y byddai lle pwysig iddo yng Nghymru.

Ym maes rheoli a gweinyddu colegau technegol yn gyffredinol, mae'r cyrff llywodraethol wedi eu penodi gan yr awdurdodau addysg lleol ac yn amrywio'n fawr yn eu cyfansoddiad ac ym maint eu cyfrifoldeb. Gellir mesur y cyfrifoldeb yn ôl gallu'r corff llywodraethol (a) i wario arian o fewn amcangyfrifon blynyddol heb ymgynghoriad pellach â'r awdurdod a (b) i benodi staff. Hoffai rhai a roddodd dystiolaeth ger bron y Cyngor, weld mwy o allu llywodraethol yn nwylo diwydianwyr, undebau llafur a rhai a chanddynt wir ddiddordeb mewn materion technegol a gwybodaeth ohonynt. Ym marn y Cyngor, y peth pwysig yw sicrhau gwasanaeth y rhai mwyaf cymwys, heb geisio ystyried pa fuddiannau a gynrychiolant. Am hynny, ni chefnogai'r Cyngor drefn wedi ei seilio ar gyfartaledd penodedig o rai yn cynrychioli buddiannau arbennig ac yn sicr ni fyddai'n dal fod yn rhaid wrth fwyafrif o gynrychiolwyr yr awdurdod addysg lleol. Ond, er hyn, rhaid cofio fod yr awdurdod terfynol yn gorwedd gyda'r awdurdod hwnnw ac mai felly y dylai fod.

Crynodeb o Sylwadau ac Argymhellion

Prentisiaid Crefft

(1.) Y mae derbyniad i brentisiaeth grefft yn dibynnu'n ormodol ar hap a damwain ac yn tueddu i ateb gofynion diwydiant o ddydd i ddydd yn hytrach na'r angen dros hir amser. (*Tudalen* 107.)

(2) Y mae eisiau llacio cyfyngiad yr Undebau Llafur ar ucbafrif derbyniadau prentisiaid crefft i alwedigaeth arbennig. Dylid cadw llygad yn hytrach ar ofynion y wlad yn gyfan. (*Tudalen* 107.)

(3.) Y mae llawer ffyrm yng Nghymru, sydd heb allu i ddarparu hyfforddiant teilwng, yn peidio â derbyn prentisiaid crefft. O dan Gynlluniau Prentisiaeth Grwp, megis a welir mewn rhannau o Loegr, byddent yn gallu derbyn rhai. (*Tudalen* 107.)

(4.) Er holl rym traddodiad teuluol mewn crefft, ni ddylai gwaed fod yn gryfach na chymwysterau addysgol a theithi personol pan ddewisir prentisiaid. (*Tudalen* 108.)

(5.) Ni ddylai plant sy'n dal i fod yn yr ysgol dros un-ar-bymtheg oed golli'r cyfle i dderbyn prentisiaeth grefft. (*Tudalen* 108.)

(6) Gellid er mantais estyn darpariaeth bresennol rhai colegau technegol, a rydd hyfforddiant galwedigaethol rhag-baratoawl i blant '15+', i ysgolion uwchradd modern, a bwrw y ceid athrawon ac offer addas. (*Tudalen* 108.)

(7) Dylai cyflogwyr ryddhau prentisiaid heb goll cyflog i ddilyn cyrsiau coleg technegol drwy holl gyfnod eu prentisiaeth, ar yr amod eu bod yn llwyddo'n foddhaol. (*Tudalen* 109.)

(8) Y mae cyrsiau rhyddhad cryno yn rhagori ar gyrsiau rhyddhad dydd (*Tudalen* 109.)

(9) Y mae eisiau gwahaniaethu rhwng hyfforddiant prentis crefft mewn medrau arbennig ar y naill law, a'i addysg ar y llaw arall. Dylai addysg roi iddo'r gallu i feistroli medrau newydd fel y dont i'w ran. (*Tudalen* 106.)

(10) Dylid rhoi'r gorau i'r Dystysgrif Genedlaethol Ragbaratoawl a blwyddyn gyntaf (S.1) cwrs y Dystysgrif Genedlaethol, a dylid derbyn i'r Cwrs ar lefel yr ail flwyddyn bresennol (S.2). Pedwar pwnc addas ar Dystysgrif lefel Gyffredinol y *G.C.E.*, wedi boddhau'r arholwyr ynddynt ar ddim mwy na dau gynnig, a ddylai fod yn gymhwyster normal ar gyfer dechrau ar y cwrs hwn. (*Tudalen* 109.)

(11) Dylai awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethol a phrifathrawon colegau technegol geisio darparu cyrsiau mewn dulliau dysgu i athrawon hyd eithaf eu gallu, a hefyd wneud eu gorau i gael gan athrawon rhan-amser ac amser-llawn colegau technegol eu dilyn, oni fyddant wedi dilyn cyrsiau hyfforddi athrawon eisoes. (*Tudalen* 110.)

(12) Gellid cywiro tipyn ar agwedd ddidaro rhai myfyrwyr at eu gwaith a'r aflwyddiant sydd yn dilyn hynny trwy i rieni ac awdurdodau coleg a diwydiant arolygu eu gwaith yn aml a'u calonogi. (*Tudalen* 111.)

(13) Croesewir yr arfer o gynnal arholiadau ychwanegol llai academaidd a mwy ymarferol a gychwynnwyd gan y *City and Guilds of London Institute* yn ddiweddar, fel un cais i leihau aflwyddiant ymhlith rhai sy'n dilyn cyrsiau crefft. (*Tudalen* 112.)

(14) Cyfrifoldeb cenedlaethol yw derbyn ac hyfforddi prentisiaid crefft, a chymeradwyir sefydlu trefn brentisiaeth crefft genedlaethol. (*Tudalen* 113.)

(15) Fel ail ddewis, os gwrthodir (14), awgrymir byrhau hyd prentisiaeth grefft i dair blynedd, ar yr amod bod diwydiant yn derbyn prentis yn 17—18 oed ar ôl iddo ddilyn cwrs arbennig mewn pynciau sylfaenol am ddwy flynedd. (*Tudalen* 114.)

(16) Gobeithir gweld diwydiant a Phrifysgol Cymru yn dal i annog myfyrwyr, gyda chymwysterau Tystysgrif Genedlaethol yn lle matric, i ddilyn cyrsiau gradd, yn enwedig gan fod llawer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus yn y Brifysgol yn ddiweddar. (*Tudalen* 86.)

Cyrsiau Uwch

(17) Cyrsiau rhyngosod uwch diploma a chyrsiau gradd prifysgol ddylai fod y llwybrau arferol i gyrraedd statws technolegwr. (*Tudalen* 115.)

(18) Rhaid gobeithio mai rhywbeth dros dro yw'r diffyg diddordeb a welir ar hyn o bryd mewn cyrsiau rhyngosod uwch ac y bydd i bawb wneud eu gorau i helpu pawb teilwng i'w mynychu. (*Tudalen* 115.)

(19) Mae diffyg cefnogaeth i gyrsiau rhyngosod mewn cemeg a chemeg ddiwydiannol yn Ne Cymru, lle y ceir casgliad o ddiwydiannau cemegol, yn peri cryn bryder. Yn arbennig, pe byddai'r diwydiant cemegol yn gwir gefnogi addysg ac hyfforddiant rhai addawol sy'n dilyn cwrs y Dystysgrif Genedlaethol, byddai llai o brinder athrawon a chanddynt radd mewn Gwyddoniaeth yn yr ysgolion. (*Tudalen* 116.)

Coleg Technoleg Uwch Cymru

(20) Mae diffyg cefnogaeth i gyrsiau rhyngosod uwch y coleg hyd yn hyn yn gwestiwn a all godi amheuaeth ynghylch cyfiawnhau bodolaeth coleg o'r safon yma yng Nghymru. Rhaid wrth well cydweithrediad â diwydiant a cholegau technegol eraill i wella'r sefyllfa. (*Tudalen* 116.)

(21) Byddai perthynas agos rhwng y Coleg a Phrifysgol Cymru yn codi statws

addysg dechnegol yng Nghymru ac y mae felly yn fater y dylid ei ystyried yn fanwl. *(Tudalen 117.)*

Rhanbartholi Cyrsiau Uwch

(22) Y mae'r ddarpariaeth gyffredinol yng Nghymru ar gyfer cyrsiau uwch ymhell ar y blaen i'r gofyn sydd amdanynt ar hyn o bryd. I atal gwastraff, dylai'r cyrsiau yma, sy'n gofyn am staff a chanddynt gymwysterau uchel a hefyd offer drud, gael eu cyfyngu i bum coleg technegol a dylid rheoli'r pump gan Gyngor Gweinyddol. *(Tudalen 118.)*

(23) Dylid ail-godi y Bwrdd Technolegol Cymreig ar fyrder. Ffurfiwyd ef gyntaf yn 1946 ond dadfeiliodd yn 1948 *(Tudalen 118.)*

Cyrff Llywodraethol Colegau Technegol

(24) Y dynion gorau ar gyfer y gwaith a ddylai fod yn aelodau o gyrff llywodraethol. Am hynny, ni ddylid pennu cyfartaledd rhagosodedig o gynrychiolwyr buddiannau arbennig ac ni ddylid ystyried fod yn rhaid bod y mwyafrif yn aelodau'r pwyllgor addysg lleol. *(Tudalen 119.)*

Cyffredinol

(25) Mae prinder athrawon addas eu cymwysterau mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn lleihau'r nifer o ferched sy'n astudio'r pynciau hyn y tu hwnt i safon elfennol ac hefyd yn rhwystro diwydiant rhag derbyn gwasanaeth rhai a allai ennill statws technegwyr neu dechnolegwyr gyda chyfle. Hyd nes y ceir cyflenwad digonol o athrawon, dylid trefnu i uno dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion bechgyn ac ysgolion merched cyfagos, os yw hynny yn bosibl *(Tudalen 95.)*

(26) Er bod dyfodiad diwydiannau newydd i Gymru er y rhyfel wedi cryfhau economeg y wlad, ar dir cymdeithasol yn ogystal ag ar dir economaidd, cefnogir ychwanegu at yr amrywiaeth trwy gynnwys diwydiannau sy'n gofyn am gyfartaledd uchel o weithwyr medrus. *(Tudalen 96.)*

Appendix A

Courses pursued during the session 1958-59 *by students who gained their Ordinary National Certificates at Technical Colleges in Wales in the session* 1957-58

(a) Obtained 60 per cent or over in each paper of the Ordinary National Certificate examination and eligible for admission to a Diploma in Technology course, a Higher National Diploma course, or a Higher National Certificate course.

(b) Obtained 50 per cent or over in each paper of the Ordinary National Certificate examination and eligible for admission to a Higher National Diploma course or a Higher National Certificate course.

(c) Obtained 40 per cent or over in each paper of the Ordinary National Certificate examination and eligible for admission to a Higher National Certificate course.

Ordinary National Certificate gained 1957-58		Courses pursued during 1958-59 Session						
		University	Diploma in Technology	Higher National Diploma	Higher National Certificate	Her Majesty's Forces	Not Known	Total
Building	(a)				4		3	7
	(b)				12	2	5	19
	(c)				19		8	27
								53
Applied Physics	(a)				6			6
	(b)				8		3	11
	(c)				3		1	4
								21
Chemistry	(a)	2		1	19		1	23
	(b)			1	27		3	31
	(c)				36		6	42
								96
Electrical Engineering	(a)	2		1	25		7	35
	(b)				50		14	64
	(c)			1	42	1	20	64
								163
Mechanical Engineering	(a)	2	3	1	49		17	72
	(b)			1	65	1	16	83
	(c)	1		1	103	5	42	152
								307
Metallurgy	(a)	1			4			5
	(b)				5			5
	(c)	1			18		5	24
								34
Mining	(a)	1		2	15		6	24
	(b)			2	26		3	31
	(c)			6	61		4	71
								126
TOTALS ...		10	3	17	597	9	164	800

Appendix B

Welsh College of Advanced Technology

Enrolments in Advanced Sandwich Courses, 1958-59

Home Authorities	Mechanical Engineering						Electrical Engineering				Building			Totals
	D.T.1	D.T.2	D.T.3	H.D.1	H.D.2	H.D.3	D.T.1	H.D.1	H.D.2	H.O.3	H.D.1	H.D.2	H.D.3	
Cardiff	6	1	6	1	2	1	–	1	1	1	–	1	1	22
Glamorgan	1	5	1	–	3	3	2	–	2	1	–	3	1	22
Monmouthshire	1	4	–	2	2	–	2	–	1	1	–	–	2	15
Newport	3	2	3	1	4	–	–	1	2	1	–	3	–	20
Merthyr	4	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	1	6
Swansea	–	1	1	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	3
Breconshire	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	1	3
Carmarthenshire	1	–	–	–	–	–	–	1	–	–	2	–	–	4
Denbighshire	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Pembrokeshire	–	1	–	–	–	–	1	–	1	–	–	1	–	4
Cardiganshire	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	1
Caernarvonshire	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	1
Montgomeryshire	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	1	2
Cheshire	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Lancashire	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Worcestershire	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Manchester...	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Cyprus	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	2	1	4
India	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	1
Iraq...	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	1
Sierra Leone	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	1
Ghana	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	1
TOTALS	21	14	12	4	11	4	6	3	7	4	7	15	8	116
Grants or Awards														
Wages paid by industry	16	12	12	3	9	2	5	1	5	3	–	2	1	71
Local education authority grants or awards	–	2	–	–	1	–	1	–	2	–	4	8	3	21
Technical state scholarship ...	5	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	5
Overseas Government grants ...	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	2	1	4
Students receiving no grants ...	–	–	–	1	1	2	–	2	–	1	2	3	3	15

D.T. = Diploma in Technology (Dip. Tech.); H.D. = Higher National Diploma (including some Structural Engineering students in Building).

Appendix C

Glamorgan College of Technology

Students attending Advanced Sandwich Courses 1958-59

Home Authorities	Mechanical Engineering				Electrical Engineering				Civil Engineering				Chemical Engineering				Mining				Physics				Total
	HD 1	HD 2	HD 3	HD 4	HD 1	HD 2	HD 3	HD 4	CD 1	CD 2	CD 3	CD 4	CD 1	CD 2	CD 3	CD 4	ND 1	ND 2	ND 3	ND 4	CD 1	CD 2	CD 3	CD 4	
Glamorgan	12	14	4	6	9	6	3	4	10	4	7	3	7	3	5	–	1	7	–	4	8	6	–	1	124
Cardiff	–	–	–	–	–	–	–	–	1	1	–	–	–	1	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	4
Monmouthshire	3	3	1	1	3	6	–	2	–	2	1	–	–	–	–	–	3	2	–	4	–	–	–	–	31
Rhondda	2	5	3	1	2	2	2	–	3	–	1	1	4	2	–	1	1	–	–	2	1	1	–	1	35
Merthyr	–	1	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	1	–	–	–	–	4
Swansea	–	1	–	–	1	–	1	–	–	1	1	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	6
Breconshire	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	3
Carmarthenshire	–	2	–	–	–	1	2	–	–	–	–	–	2	1	1	–	1	2	–	3	–	–	–	–	15
Cardiganshire	1	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	2
Pembrokeshire	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	2
Buckinghamshire	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Gloucestershire	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	1
Herefordshire	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	1
Somerset	–	–	–	–	–	–	–	–	1	–	1	–	–	1	–	–	4	1	–	–	–	–	–	–	8
Overseas	–	–	–	–	1	–	–	–	1	–	–	1	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	3
TOTALS ...	18	28	9	8	16	16	8	6	17	8	12	5	14	10	6	1	10	14	–	15	10	7	–	2	240
Grants or Awards																									
Released with pay from industry	8	10	7	1	9	15	7	5	1	1	5	–	–	2	–	–	10	14	–	15	–	–	–	–	110
Local education authority grants or scholarships ...	4	17	1	5	4	1	–	1	9	4	5	1	10	6	6	1	–	–	–	–	5	6	–	2	88
Overseas Government grants	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–	–
Students receiving no grants	6	1	1	2	3	–	1	–	7	3	2	4	4	2	–	–	–	–	–	–	5	1	–	–	42

H.D. = Higher National Diploma; N.D. = National Diploma; C.D. = College Diploma.

Appendix D

Full-time students pursuing Graduate and Post-graduate Courses in Arts, Science and Applied Science at the University of Wales, from 1937-38 to 1957-58

Year	Arts		Science		Applied Science	
	Graduate Courses	Post-graduate	Graduate Courses	Post-graduate	Graduate Courses	Post-graduate
1937-38	1,192	50	544	88	128	—
1938-39	1,072	57	464	82	153	2
1939-40	1,004	53	422	67	170	2
1940-41	862	17	357	19	170	3
1941-42	800	13	473	10	180	2
1942-43	746	12	481	7	219	—
1943-44	682	10	442	11	217	—
1944-45	775	11	493	13	205	—
1945-46	965	22	623	38	258	—
1946-47	1,535	35	857	59	384	1
1947-48	1,809	39	1,095	73	456	1
1948-49	1,906	47	1,188	78	474	12
1949-50	1,887	60	1,336	88	457	16
1950-51	1,783	57	1,304	106	424	22
1951-52	1,658	59	1,208	112	389	18
1952-53	1,576	59	1,130	134	362	17
1953-54	1,490	64	1,054	125	341	18
1954-55	1,432	72	1,104	144	364	17
1955-56	1,499	79	1,185	151	400	16
1956-57	1,677	89	1,337	161	459	24
1957-58	1,778	171	1,431	208	532	38

Appendix E

Secondary Technical Schools (known as Junior Technical Schools pre-1944) in Wales

School	Opened	Closed
Newport	1916	1958
Cardiff	1917	1931
Newport (Nautical)	1918	1924
Cardiff (Smith Nautical)	1921	1954
Rhondda	1024	1959
Cardiff (Commerce)	1924	1931
Newport (Commerce)	1924	1958
Abersychan	1929	1956
Pontllanfraith	1930	1959
Abertillery	1930	—
Caerphilly	1930	1953
Ebbw Vale	1930	—
Bargoed	1931	1959
Bridgend	1931	—
Neath	1931	—
Pontardawe	1933	—
New Tredegar	1934	—
Wrexham	1934	—
Tredegar	1935	—
Swansea	1936	—
Merthyr Tydfil	1937	1955
Ammanford	1942	—
Llanelly	1942	1956
Newtown	1943	—
Rhydyfelin	1943	—
Cardiff (Junior Building)	1942	1952
Cardiff (Fitzalan School)	1953	—
*Swansea (Commerce)	1955	—

* Prior to 1955 the Secondary Technical School at Swansea was a mixed school. The girls moved to a separate building in 1955.

Appendix F

Major Establishments for Further Education in Wales
(excluding Art and Agricultural Establishments)

Symbols in Column 2

F.T.	Full-time Courses	B.R.	Block-release Courses
P.T.D.	Part-time Day Courses	Evg.	Evening Courses
S.C.	Sandwich Courses	(S.T.S.)	Secondary Technical School in same premises

Symbols in Column 3 (indicating main branches of work only)

Bldg.	Building	Com.	Commercial Subjects
Eng.	Engineering	Acad.	Academic and Pre-professional
